





# Gwybod eich Hawliau
# Defnyddio eich Hawliau
# Byw eich Hawliau!

**Adnodd Gwybodaeth ar gyfer Pobl Anabl a Sefydliadau Pobl Anabl**

Disability Wales
Anabledd Cymru

## Anabledd Cymru yw cymdeithas genedlaethol sefydliadau pobl anabl sy'n gweithio i sicrhau hawliau a chydraddoldeb i bob person anabl.

A fyddech cystal â nodi nad yw'r adnodd gwybodaeth Gwybod eich Hawliau, Defnyddio eich Hawliau, Byw eich Hawliau! yn gyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor arnoch, defnyddiwch yr adran cysylltiadau defnyddiol i ddod o hyd i ffynonellau gwybodaeth a chyngor. Fel sefydliad polisi a dylanwadu, ni all Anabledd Cymru ddarparu cyngor cyfreithiol i unigolion. Roedd y wybodaeth yn yr adnodd hwn yn gywir ac roedd y dolenni sydd ynddo yn gweithio pan y'i cwblhawyd ym mis Ionawr 2021. Efallai y bydd y gyfraith wedi newid ers iddo gael ei ryddhau, felly gallai'r wybodaeth sydd ynddo fod yn anghywir neu'n hen.

Anabledd Cymru
Tŷ Brydon, Bloc B
Parc Busnes Caerffili
Heol Van
Caerffili CF83 3ED

**Ffôn:** 02920 887 325
(Defnyddiwch yr 'announcer' ar gyfer Minicom)

**Ebost:** info@disabilitywales.org

www.disabilitywales.org

Mae Anabledd Cymru yn elusen gofrestredig, rhif 517391 ac yn gwmni a gyfyngir trwy warant, rhif 1998621

YouTube
twitter
facebook

# Cynnwys


## 1 Y Ddeddf Cydraddoldeb 9

1.1 Beth yw Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA) – Sylfeini 10
1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA) – Gwybod eich Hawliau 11
1.3 Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA) – Defnyddio eich Hawliau 23
1.4 Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA) – Adnoddau Defnyddiol 28

## 2 Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) 29

2.1 Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) – Y Sylfeini 30
2.2 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) – Gwybod eich Hawliau 31
2.3 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) – Defnyddio Eich Hawliau 35
2.4 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) – Adnoddau defnyddiol 39

## 3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) 40

3.1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) – Sylfeini 41
3.2 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) – Gwybod eich Hawliau 42
3.3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) – Defnyddio Eich Hawliau 45
3.4 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) – Adnoddau Defnyddiol 48

## 4 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) 49

4.1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) – Sylfeini 50
4.2 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) – Gwybod eich Hawliau 51

4.3 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) – Defnyddio eich Hawliau 52
4.4 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) – Adnoddau Defnyddiol 55

**5 Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) 56**

5.1 Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) – Sylfeini 57
5.2 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) – Gwybod eich Hawliau 58
5.3 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) – Defnyddio eich Hawliau 60
5.4 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) – Adnoddau defnyddiol 62

**6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf LlCD) 63**

6.1 Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) – Sylfeini 64
6.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) – Gwybod eich Hawliau 65
6.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) – Defnyddio eich Hawliau 69
6.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) – Adnoddau Defnyddiol 72

**7 Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Deddf GCLl) 74**

7.1 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLl) – Sylfeini 75
7.2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLl) – Gwybod eich Hawliau 76
7.3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLl) – Defnyddio eich Hawliau 83
7.4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLl) – Adnoddau Defnyddiol 92

## 8 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) 93

8.1 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) – Sylfeini 94
8.2 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) – Gwybod eich Hawliau 95
8.3 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) – Defnyddio eich Hawliau 99
8.4 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) – Adnoddau Defnyddiol 103

## 9 Byw eich Hawliau – astudiaethau achos 105

9.2 Astudiaeth Achos – Grŵp mynediad cymunedol yn erbyn ei awdurdod lleol [2012] 105
9.3 Astudiaeth Achos – Rhiant Plentyn Anabl yn erbyn awdurdod lleol 106
9.4 Astudiaeth Achos – Person Anabl yn Ne Cymru yn erbyn awdurdod lleol 107
9.5 Grŵp o bobl o Dde Cymru gyda nam ar eu golwg yn erbyn Cyngor Bwrdeistref yn Ne Cymru [2011] 107
9.6 Myfyriwr Prifysgol Anabl (AB) yn erbyn un o Brifysgolion Cymru (2013) 109
9.7 Preswylydd anabl (WK) yn erbyn Cyngor Sir Abertawe (2013) 111
9.8 (JG & MB) yn erbyn Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn 2011 112
9.9 Burnip yn erbyn Cyngor Dinas Birmingham ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau 116
Trengrove yn erbyn Cyngor Metropolitan Walsall ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau
Gorry yn erbyn Cyngor Wiltshire ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011)
9.10 Defnyddio'r UNCRDP mewn cwynion 118

## 10 Ffynonellau gwybodaeth bellach 121

Diolch 128
Fformatau 129

# Rhagymadrodd

Cyhoeddwyd y llyfryn hwn am y tro cyntaf yn 2013 fel rhan o raglen waith graidd 2012-2015 Anabledd Cymru. Mae'r fersiwn ddiweddaraf hon yn cynnwys gwybodaeth am ddeddfwriaeth a gyflwynwyd ers 2013 gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Yn ystod 2020 cynhaliodd Anabledd Cymru arolwg gyda Phobl Anabl yng Nghymru. Mae'r canlyniadau'n dangos nad oedd 68% o'r 120 a ymatebodd yn teimlo bod eu hawliau'n cael ei gorfodi'n ddigonol, ac nid oedd 35% yn teimlo bod eu hawliau'n cael eu gorfodi o gwbl. Canlyniad sy'n peri pryder yw nad oedd 76% o'r ymatebwyr yn hyderus y byddai eu hawliau'n gwella dros y pum mlynedd nesaf ac nid oedd 43% o'r bobl hyn yn credu y byddai eu hawliau'n gwella o gwbl.

Nod yr adnodd hwn yw rhoi dealltwriaeth a gwybodaeth am hawliau pobl anabl i'r aelodau a dangos a sut y gallant eu defnyddio i hyrwyddo cydraddoldeb a chael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddu yn eu cymunedau. Nod arall yw cefnogi a grymuso pobl anabl ar adeg heriol dros ben, o gofio effaith pandemig Covid-19 ar fywydau a bywoliaethau cymaint o bobl.

Mae diwygio'r adnodd hwn yn elfen allweddol o ymateb Anabledd Cymru i'r pandemig ac yn y gwaith o gefnogi adferiad a dyfodol mwy cynhwysol. Yn ogystal â darparu gwybodaeth am ddeddfwriaeth, mae'n amlinellu nifer o astudiaethau achos lle mae pobl anabl a'u sefydliadau wedi dadlau eu hawliau'n llwyddiannus o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Canlyniad hyn fu dylanwadu ar gynllunio a chyflawni polisïau cenedlaethol neu leol neu herio penderfyniadau a oedd yn bygwth tanseilio cydraddoldeb Pobl Anabl a'u hawl i fyw'n annibynnol.

Mae Anabledd Cymru'n cydnabod pa mor bwysig yw hi fod Pobl Anabl yn deall ein hawliau dynol cynhenid ac yn gwerthfawrogi ein hunain am bwy ydym.

Mae cryfhau canfyddiad Pobl Anabl o'n hunain yn ffordd bwysig i herio cred ein bod yn ddi-rym, yn arbennig yn wyneb gwahaniaethu sefydliadol ac aflonyddu unigolyddol.

Ein gobaith felly yw y bydd yr adnodd hwn yn ffynhonnell o ysbrydoliaeth ac yn gadarnhad o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fydd pobl anabl yn

gweithredu gyda'i gilydd, gyda'r offer ar gyfer newid.

Pan ysgrifennodd Anabledd Cymru y pecyn hwn, penderfynodd ganolbwyntio ar hawliau Pobl Anabl o dan wahanol gyfreithiau cydraddoldeb. Mae'r cyfreithiau hyn yn bwysig iawn ac maent yn helpu i wneud yn siŵr y gall Pobl Anabl ddadlau dros eu hawliau. Fodd bynnag, mewn nifer o achosion cyfreithiol am hawliau Pobl Anabl, defnyddir cyfreithiau eraill hefyd. Mae'r deddfau hyn yn cael eu hegluro mewn mannau eraill ac ni ymdrinnir â hwy mewn manylder yn y pecyn hwn. Maent yn cynnwys:

- **Y Ddeddf Hawliau Dynol (1998).** Derbyniodd y Ddeddf hon Gysyniad Brenhinol ar 9 Tachwedd 1998, a daeth i rym yn bennaf yn y DU ar 2 Hydref 2000. Diben y Ddeddf Hawliau Dynol yw dod â'r rhan fwyaf o'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gyfraith yn y DU. Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn gwneud hyn drwy roi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus yn y DU i weithredu mewn modd sy'n parchu ac yn cyd-fynd â'r hawliau yn y Confensiwn Ewropeaidd. Os na fydd awdurdodau cyhoeddus yn parchu eich hawliau, gallwch ddwyn achos yn eu herbyn yn llysoedd y DU heb orfod mynd i Lys Hawliau Dynol Ewrop.

- **Deddf Cymorth Gwladol (1948).** Dyma'r darn cyntaf o gyfraith yn y DU i wneud cynghorau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod Pobl Anabl yn cael rhywfaint o gefnogaeth. Mae'r Ddeddf yn edrych yn bennaf ar sut y dylai cynghorau lleol benderfynu beth sydd ei angen ar Bobl Anabl unigol a pha wasanaethau y dylai awdurdod lleol eu sefydlu neu dalu amdanynt er mwyn cefnogi Pobl Anabl. Mae'r Ddeddf Cymorth Gwladol yn bwysig gan iddi osod y sylfeini ar gyfer y Cyfreithiau Gofal Cymunedol diweddarach.

- **Deddf y GIG a Gofal Cymunedol (1990).** Newidiodd hon y ffordd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol asesu gofynion Pobl Anabl. Ehangwyd cyfrifoldebau awdurdodau lleol a gosodwyd rheolau ar gyfer sut y mae asesiadau anghenion i fod i ddigwydd. Mae'n rhaid i'r holl asesiadau anghenion a wneir o ganlyniad i ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymunedol gael eu cyflawni yn unol â'r Ddeddf hon: mae'r rhain yn cynnwys Taliadau Uniongyrchol; Cyllidebau Personol ac Unigol; cefnogaeth gofal dydd; gwasanaethau seibiant a phreswyl. Mae cyfreithiau eraill ers Deddf y GIG a Gofal Cymunedol wedi gosod rheolau ynglŷn â sut y mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn

cael eu darparu. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (1996) ac, os caiff ei basio, Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain i gyd yn ddarnau pwysig o gyfraith sy'n esbonio hawl Pobl Anabl i gefnogaeth.

- **Deddf Galluedd Meddyliol (2005).** Cyfraith yw hon sydd wedi'i bwriadu i gefnogi Pobl Anabl y mae eu hamhariad yn golygu y gallant fod â diffyg galluedd, er mwyn gwneud yn siŵr bod ganddynt hawliau i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â sut a lle i fyw.

Gallwch weld dolenni i wefannau sy'n cynnwys rhagor o wybodaeth am yr holl gyfreithiau hyn o dan yr adran Ffynonellau gwybodaeth bellach (tudalen 120).

## Diolchiadau

Hoffai Anabledd Cymru ddiolch i ystod eang o sefydliadau ac unigolion sydd wedi cyfrannu at yr adnodd drwy amlygu eu profiadau a rhoi mewnwelediad, cyngor a'n cynorthwyo i lunio'r fersiwn ddiwygiedig o *'Gwybod eich Hawliau, Defnyddio eich Hawliau, Byw eich Hawliau!'*





# 1 Y Ddeddf Cydraddoldeb

## 1.1 Beth yw Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA) – Sylfeini

### 1.1.1 Beth ydyw?

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn disodli Deddfau blaenorol a oedd yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ac yn ceisio eu dwyn ynghyd er mwyn symleiddio'r gyfraith. Mae'n cwmpasu gwahanol fathau o wahaniaethu, megis:

- Gwahaniaethu uniongyrchol
- Gwahaniaethu anuniongyrchol
- Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd
- Gwahaniaethu drwy ganfyddiad
- Gwahaniaethu drwy gysylltiad
- Aflonyddu
- Aflonyddu trydydd pari
- Erledigaeth
- Methu â gwneud 'addasiadau rhesymol'

### 1.1.2 Ar bwy mae'n effeithio?

Mae naw nodwedd a warchodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb:

1. Anabledd
2. Rhyw
3. Hil
4. Oedran
5. Crefydd neu gred
6. Cyfeiriadedd rhywiol
7. Ailbennu rhywedd
8. Priodas a phartneriaeth sifil
9. Beichiogrwydd a mamolaeth

### 1.1.3 Beth mae'n ei olygu i Bobl Anabl?

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n rhaid i ddarparwyr nwyddau neu wasanaethau wneud addasiadau rhesymol ar gyfer Pobl Anabl oherwydd mae gan Bobl Anabl yn aml ofynion gwahanol. Pan na fyddant yn gwneud hyn, maent yn torri'r gyfraith.

Mae unrhyw fath o aflonyddu neu erledigaeth gan unrhyw berson neu sefydliad hefyd yn anghyfreithlon. Er enghraifft, trin Person Anabl yn waeth na phobl eraill oherwydd bod ganddo ef neu hi amhariad neu oherwydd iddo ef neu hi gwyno.

Gall Pobl Anabl fynd ag unigolion, sefydliadau neu gyrff cyhoeddus i'r llys os ydynt wedi dioddef unrhyw fath o wahaniaethau a gynhwysir yn y Ddeddf Cydraddoldeb.

## 1.2 Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA) – Gwybod eich Hawliau

1.2.1 Mae Adran 1.3 y pecyn yn ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA). Mae'n edrych yn arbennig ar y rhannau o'r Ddeddf y gellir eu defnyddio gan unigolion anabl sydd eisiau gwybod mwy am eu hawliau.

### 1.2.2 Cefndir y Ddeddf Cydraddoldeb

1.2.3 Daeth yr EA i rym ym mis Hydref 2010. Disodlodd gyfreithiau cydraddoldeb eraill gan gynnwys Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) 1995. Mae'n bosibl dal i ddefnyddio rhai penderfyniadau pwysig a wnaed gan y llysoedd o dan DDA heddiw wrth wneud honiadau ar sail y Ddeddf Cydraddoldeb. Cryfhaodd yr EA rannau o'r DDA y teimlwyd oedd yn aneffeithiol pan brofwyd hwy mewn achosion llys mewn bywyd go iawn.

1.2.4 Mae'r EA yn cwmpasu pob cyflogwr. Golyga hyn bod gan unrhyw Berson Anabl sy'n gweithio i rywun arall yr hawl i beidio â dioddef gwahaniaethu yn y gwaith o dan yr EA.

1.2.5 Mae'r EA yn berthnasol i holl ddarparwyr nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Mae'r EA hefyd yn diogelu Myfyrwyr Anabl rhag dioddef gwahaniaethu: mae hyn yn cynnwys unrhyw fath o addysg megis meithrinfa, ysgol, coleg, prifysgol neu wasanaeth addysg oedolion arall. Mae'r adran hon yn y pecyn yn edrych yn bennaf ar hawliau Pobl Anabl o dan yr EA os gwahaniaethir yn eu herbyn gan unrhyw un sy'n darparu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau.

1.2.6 Mae Adran 165 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i yrwyr tacsi wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr cadair olwyn. Dechreuwyd hyn ym mis Ebrill 2017 ond mae ond yn weithredol mewn ardaloedd lle mae'r awdurdod trwyddedu tacsis wedi creu "rhestr ddynodedig" o gerbydau hygyrch o dan Adran 167 y Ddeddf. Argymhellodd canllawiau statudol yr Adran Trafnidiaeth fod awdurdodau lleol yn llunio rhestr, ac y dylai awdurdodau allu cynhyrchu'r rhestrau hyn erbyn 6 Hydref 2017.[1]

1 Dyfynnwyd o ddogfen canllaw Doug Paulley: Licencing authorities' approach to the Equality Act 2010 provisions on taxi wheelchair discrimination. Gellir ei gweld yma: https://www.kingqueen.org.uk/s167/ (cyrchwyd 14 Rhagfyr 2020)

### 1.2.7 Diffiniadau

Rydych chi'n anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes gennych amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith anffafriol 'sylweddol' a 'hirdymor' ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol bob dydd.

Mae 'sylweddol' yn golygu mwy na mân neu fychan. Er enghraifft, mae'n cymryd llawer mwy o amser nag y byddai'n arferol yn ei gymryd i gyflawni tasgau bob dydd megis gwisgo.

Mae 'hirdymor' yn golygu 12 mis neu ragor. Er enghraifft, cyflwr anadlu sy'n datblygu o ganlyniad i glefyd ar yr ysgyfaint.[2]

Gallwch gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â beth sydd angen ei ystyried wrth benderfynu a yw person yn bodloni meini prawf yr EA ar gyfer anabledd yn y ddogfen canllaw hon gan y Llywodraeth: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/570382/Equality_Act_2010-disability_definition.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/570382/Equality_Act_2010-disability_definition.pdf)

### 1.2.8 Ymddygiad Gwaharddedig – Gwahaniaethu Anghyfreithlon

1.2.9 O dan y Ddeddf Cydraddoldeb cyflwynwyd nifer o dermau newydd, megis 'ymddygiad gwaharddedig'. Pennawd cyffredinol yw hwn sy'n cwmpasu pob math o wahaniaethau anghyfreithlon oddi tano.

1.2.10 Mae rhestr lawn ymddygiadau gwaharddedig yr EA yn cynnwys:

- Gwahaniaethu uniongyrchol
- Gwahaniaethu anuniongyrchol
- Gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd
- Gwahaniaethu drwy ganfyddiad
- Gwahaniaethu drwy gysylltiad
- Gwahaniaethu ar sail anabledd: dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol a methu cydymffurfio â'r ddyletswydd honno
- Aflonyddu
- Aflonyddu trydydd pari
- Erledigaeth
- Gwahaniaethu ar sail ailbennu rhywedd: absenoldeb o'r gwaith

---

2 Dyfynnwyd o adran gwefan Llywodraeth y DU sy'n ymwneud â diffiniadau anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (EA): https://www.gov.uk/definition-of-disability-under-equality-act-2010 (cyrchwyd 15 Rhagfyr 2020)

- Gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth

1.2.11 Isod ceir esboniad o bob term sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd.

1.2.12 Term newydd a gyflwynwyd gan yr EA yw 'nodweddion gwarchodedig'. Mae'r term hwn yn diffinio'r gwahanol grwpiau o bobl sydd wedi'u gwarchod rhag gwahaniaethu annheg gan y Ddeddf. Os oes gan rywun un neu ragor o'r nodweddion hyn cânt eu gwarchod o dan y Ddeddf.

1.2.13 Y rhestr o'r nodweddion sydd wedi'u gwarchod gan yr EA yw:

- Anabledd
- Rhyw
- Hil
- Oedran
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth

1.2.14 Mae'r EA yn pennu bod person yn anabl os oes ganddo ef neu hi amhariad corfforol neu feddyliol a bod yr amhariad hwnnw'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu neu ei gallu i wneud gweithgareddau pob dydd arferol.

1.2.15 Prif ddiben y pecyn hwn yw helpu Sefydliadau Pobl Anabl a'u haelodau i ddeall yn well sut y gall y Ddeddf Cydraddoldeb a chyfreithiau anabledd eraill helpu Pobl Anabl i warchod ac ymestyn eu hawliau. Mae'n defnyddio enghreifftiau o faterion a wynebir gan Bobl Anabl sy'n profi gwahaniaethu ar nifer o seiliau.

1.2.16 Ar yr ychydig dudalennau nesaf ceir diffiniadau o wahaniaethu anghyfreithlon a brofir gan Bobl Anabl. Defnyddir y diffiniadau hyn gan y llysoedd ac fe'u defnyddir pan fydd cyrff cyhoeddus yn penderfynu sut y byddant yn cynnal eu gwasanaethau.

### 1.2.17 Gwahaniaethu Uniongyrchol

Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn golygu trin person yn waeth na rhywun arall oherwydd ei nodweddion gwarchodedig (neu gyfuniad o nodweddion gwarchodedig).

Gwahaniaethu uniongyrchol yw dweud wrth rywun "allwch chi ddim dod i mewn" neu "allwch chi ddim defnyddio'r gwasanaeth hwn...oherwydd

eich bod yn Berson Anabl". Mae'r math hwn o wahaniaethu amlwg yn brin ond mae'n digwydd. Mae'n hawdd ei weld a hawdd ei herio. Nid yw'n gyfreithlon i ddarparwyr nwyddau, cyfleusterau, gwasanaethau ac addysg i wahaniaethu'n uniongyrchol yn erbyn Pobl Anabl.

### 1.2.18 Gwahaniaethu Anuniongyrchol

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio Gwahaniaethu Anuniongyrchol fel:

"Defnydd darpariaeth, maen prawf neu arfer (heb gyfiawnhad gwrthrychol) sydd yr un mor berthnasol i bawb, ond sy'n cael effaith niweidiol anghymesur ar bobl sydd â nodwedd warchodedig (neu gyfuniad o nodweddion gwarchodedig)."

Mae hyn yn golygu trin pawb yr un fath beth bynnag fo'u hanghenion. Mae enghreifftiau o wahaniaethu anuniongyrchol yn cynnwys:

- Bod â chownter mewn derbynfa sydd wedi'i gynllunio ar gyfer pobl sydd o daldra nodweddiadol ac sy'n sefyll i fyny
- Bod â gwybodaeth ar gael dim ond mewn print maint safonol a Saesneg Safonol

Mae'r darpariaethau hyn (desg dderbynfa uchel a gwybodaeth anhygyrch) yn trin pawb yr un fath ond yn gwahaniaethu yn erbyn pobl y mae eu tyfiant wedi'i gyfyngu, defnyddwyr cadair olwyn, pobl â nam ar eu golwg, defnyddwyr iaith arwyddion a phobl sydd ag anawsterau dysgu.



### 1.2.19 Gwahaniaethu yn Deillio o Anabledd

Mae'r EA yn diffinio anabledd sy'n deilio o anabledd fel:

"Trin person yn llai ffafriol o ganlyniad i nodwedd eu hamhariad neu gyflwr (ond nid yn uniongyrchol o ganlyniad i'r amhariad neu'r cyflwr hwnnw)."

Mae hyn yn golygu trin rhywun yn waeth na rhywun arall oherwydd sut mae'n edrych, yn swnio neu'n ymddwyn oherwydd amhariad neu gyflwr. Mae gwahaniaethu o'r fath yn groes i'r gyfraith oni bai y gall darparwr gwybodaeth ddangos bod hynny'n angenrheidiol. Gellir ond dangos bod gwahaniaethau sy'n deillio o anabledd yn angenrheidiol os gall darparwr gwasanaeth brofi bod angen iddo wneud hyn er mwyn gallu darparu rhywfaint neu'r cyfan o'i wasanaethau.

Er enghraifft, os oes rhywun yn gwneud llawer o ystumiau, yn dioddef o atal dweud, neu'n wahanol o ran ei olwg, gallai'r rhain gael eu galw'n nodweddion eu hamhariadau. Mae cynnwys 'gwahaniaethu yn deillio o anabledd' yn yr EA yn gwneud gwahaniaethu o'r fath yn groes i'r gyfraith. Mae 'gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd' yn disodli'r term blaenorol, sef 'gwahaniaethu cysylltiedig ag anabledd' o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

### 1.2.20 Gwahaniaethu drwy ganfyddiad

Mae gwahaniaethu drwy ganfyddiad yn golygu trin person yn waeth na pherson arall oherwydd eich bod yn meddwl fod ganddo ef neu hi nodwedd warchodedig benodol pan nad dyna'r achos mewn gwirionedd. Mae'r math hwn o wahaniaethu yn cwmpasu nifer o nodweddion gwarchodedig. Caiff pobl eu gwarchod os bydd darparwr gwasanaeth yn tybio bod rhywun yn Berson Anabl hyd yn oed os nad yw'n Berson Anabl.

Er enghraifft, os rhwystrir rhywun rhag defnyddio gwasanaeth neu os bydd yn derbyn gwasanaeth gwaeth oherwydd bod rhywun yn meddwl bod ganddo ef neu hi amhariad penodol, gall y person hwnnw ddal hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd o dan yr EA hyd yn oes os nad oes ganddo ef neu hi yr amhariad hwnnw.

1.2.21 **Gwahaniaethu drwy Gysylltiad**

Mae'r EA yn disgrifio gwahaniaethu drwy gysylltiad fel:

"Trin person yn llai ffafriol neu ddefnyddio darpariaeth, maen prawf neu arfer sy'n cael effaith niweidiol anghymesur ar berson oherwydd bod ganddo/ganddi gysylltiad â rhywun sydd â nodwedd warchodedig (neu gyfuniad o nodweddion gwarchodedig)."

Mae hyn yn golygu trin person yn waeth na rhywun arall oherwydd ei fod yn gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd warchodedig (neu fwy nag un nodwedd warchodedig). Mae'r math hwn o wahaniaethu yn cwmpasu nifer o nodweddion gwarchodedig. Mae gwneud y math hwn o wahaniaethu yn anghyfreithlon yn helpu'r rheini y gwahaniaethir yn eu herbyn oherwydd eu cysylltiad â rhywun sydd â nodwedd warchodedig.

Er enghraifft gall:

- mam plentyn anabl
- cynorthwyydd personol oedolyn anabl neu
- ffrind i Berson Anabl

hawlio 'gwahaniaethu drwy gysylltiad' os bydd yn derbyn gwasanaeth gwaeth oherwydd ei gysylltiad/chysylltiad â'r person hwnnw. Mae'n debygol, os bydd hyn yn digwydd, y gall y Person Anabl ei hun hefyd hawlio gwahaniaethu anghyfreithlon.

1.2.22 **Gwahaniaethu ar sail Anabledd - Dyletswydd i wneud Addasiadau Rhesymol a Methiant i Gydymffurfio â'r Ddyletswydd Honno**

1.2.23 Dyma lle nad yw darparwr nwyddau, cyfleusterau, gwasanaethau neu addysg yn:

- Newid nodweddion ffisegol adeilad
- Darparu offer ychwanegol megis bwydlen Braille mewn caffi ar gyfer pobl ddall neu ddolen clyw wrth ddesg mewn derbynfa ar gyfer pobl sydd â nam ar eu clyw
- Newid y ffordd y mae'n darparu gwasanaeth fel y gall Pobl Anabl ei ddefnyddio ochr yn ochr â phobl eraill

Dylai darparwr ddeall ei bod yn debygol y bydd Person Anabl efallai angen i newid gael ei wneud. Dylai darparwyr fod â chynllun ar

waith sy'n gwneud yn siŵr y gall Pobl Anabl ddefnyddio eu cyfleusterau a'u gwasanaethau.

Os nad yw darparwr yn gwneud newid neu'n cael gwared ar newid a wnaeth yn flaenorol, gall Person Anabl ddwyn achos o dan yr EA gan fod 'methiant i wneud addasiad rhesymol' yn 'ymddygiad gwaharddedig'.

1.2.24 Bydd llys yn penderfynu a yw addasiad yn rhesymol neu a yw methu â gwneud addasiad y rhesymol drwy benderfynu a oedd yr hyn a wnaed yn ffordd deg neu gytbwys o gyflawni nod dilys. Mae'r diffiniad o addasiad rhesymol wedi newid. O dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, wrth benderfynu a oedd addasiad yn rhesymol, roedd yn rhaid i ddarparwr feddwl pa mor anodd fyddai wedi bod i Berson Anabl ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw heb fod yr addasiad wedi'i wneud. O dan yr EA, mae'n bwysicach i ddarparwr gwasanaeth feddwl am faint y mae Person Anabl dan anfantais gan ei fethiant i wneud addasiad rhesymol. Gallai hyn edrych fel mân newid, ond mae i fod i'w gwneud hi'n haws i Bobl Anabl ddadlau am addasiadau rhesymol. O dan yr EA, ni ellir amddiffyn gwahaniaethu mwyach drwy ddadlau bod addasiad yn afresymol. Mae'n rhaid nawr i lys benderfynu a oedd y gwahaniaethu yn erbyn Person Anabl yn ffordd deg a chytbwys i'r darparwr gwasanaeth gyflawni nod dilys.

Os bydd llys yn penderfynu nad oedd y gwahaniaethu yn 'ffordd gymesur i gyflawni nod cyfreithlon' (neu deg), ni all y gwahaniaethu na'r methiant i wneud addasiad rhesymol gael ei 'gyfiawnhau' na'i amddiffyn gan ddarparwr gwasanaeth. Golyga hyn na all cost ar ei ben ei hun gael ei ddefnyddio i amddiffyn diffyg addasiadau rhesymol.

Mae angen i ddarparwr gwasanaeth sy'n gwahaniaethu berswadio'r llys bod ei weithredoedd gwahaniaethol a'i fethiant i wneud addasiad rhesymol yn 'gymesur' (teg) a 'chyfreithlon' (dilys). Os bydd darparwr yn methu â gwneud addasiad sydd ei angen gan Berson Anabl, dylai allu esbonio'r methiant hwn ar y sail bod yr addasiad yn anghymesur (annheg) ac y byddai wedi ei atal, neu ei gwneud hi'n afresymol o anodd iddo gynnal ei wasanaeth.

### 1.2.25 **Aflonyddu**

1.2.26 Mae'r EA yn diffinio aflonyddu fel:

"Mae aflonyddu yn golygu ymgysylltu mewn ymddygiad digroeso, sydd â'r diben neu'r effaith o darfu ar urddas y person arall, neu greu amgylchedd sy'n elyniaethus, peri dychryn, diraddiol, bychanus neu dramgwyddus i'r person arall."

Golyga hyn wneud neu ddweud pethau sy'n amharchus a niweidiol neu'n tramgwyddo rhywun drwy eu bychanu, eu bwlio neu eu bygwth. Yn unol â grwpiau eraill sy'n wynebu gwahaniaethu, dywed yr EA y gall Pobl Anabl sy'n cael eu bwlio, eu targedu neu eu cam-drin gan ddarparwr gwasanaeth (neu ei gynrychiolydd) wneud honiadau o aflonyddu ar sail anabledd. Nid yw hyn yn berthnasol i Berson Anabl sy'n dioddef aflonyddu ar y stryd neu gan gymydog. Mae aflonyddu o'r fath yn anghyfreithlon ond caiff ei drin drwy'r llysoedd troseddol yn hytrach na thrwy'r EA, sy'n gyfraith sifil.

### 1.2.27 **Aflonyddu gan Drydydd Parti**

1.2.28 Golyga aflonyddu gan drydydd parti aflonyddu cyflogai yn fynych yn ystod ei waith/gwaith. Nid aflonyddu gan y cyflogwr yw hyn, ond gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r cyflogwr megis cwsmeriaid. Gellid disgrifio ymddygiad o'r fath hefyd fel gwahaniaethu uniongyrchol. Sonnir am aflonyddu gan drydydd parti yma oherwydd ei fod yn dangos sut y gwarchodir gweithwyr anabl gan yr EA pan fydd yn y gwaith rhag dioddef aflonyddu gan gwsmeriaid neu eraill sydd ddim yn gyflogwyr iddynt. Dywed yr EA fod gan y cyflogwr ddyletswydd tuag at Bobl Anabl a phawb arall sydd â 'nodwedd warchodedig' i wneud y cyfan y gall yn rhesymol ei wneud i'w gwarchod rhag aflonyddu mynych gan drydydd parti pan fyddant yn y gwaith. Aflonyddu mynych neu 'barhaus' yw pan fo tri neu ragor o achosion o'r fath driniaeth yn digwydd yn agos i'w gilydd. Dylai'r person sy'n dioddef yr aflonyddu gadw nodyn o'r dyddiadau a'r amseroedd pan ddigwyddodd yr achosion.

Ymddygiad nas dymunir neu ddigroeso sydd:

- yn gysylltiedig ag amhariad neu amhariad canfyddedig
- gan drydydd parti yn ystod cyflogaeth
- yn ailadroddus

### 1.2.29 Erledigaeth

1.2.30 Golyga erledigaeth drin rhywun yn waeth nag yn flaenorol oherwydd ei fod wedi gwneud honiad o wahaniaethu. Gall person hefyd ddioddef erledigaeth os yw wedi cael ei drin yn wael oherwydd ei fod yn dyst i rywun arall sydd wedi tynnu sylw at achos o wahaniaethu.

Mae unrhyw un sy'n helpu rhywun sydd â nodwedd warchodedig gyda honiad o wahaniaethu wedi'i ddiogelu rhag dioddef erledigaeth. Er enghraifft, gallai hyn ddigwydd mewn gweithle lle mae cynrychiolydd undeb llafur yn dioddef erledigaeth am gefnogi cydweithiwr anabl sydd wedi'i drin yn annheg. Gallai erledigaeth hefyd ddigwydd pan fo rhywun yn derbyn neu'n ceisio derbyn gwasanaeth. Gallai cwsmer, hyd yn oed rhywun sydd ddim yn hysbys i'r Person Anabl yn uniongyrchol, ddioddef erledigaeth am gefnogi'r person hwnnw gyda honiad o wahaniaethu ar sail anabledd. Er mwyn i rywun gael ei warchod rhag erledigaeth mae'n rhaid i'w gefnogaeth fod yn ddilys. Os yw cwyn am wahaniaethu yn sbeitlyd mae'n annhebygol y byddai rhywun sy'n cefnogi cwyn o'r fath yn cael ei warchod yn erbyn erledigaeth.

1.2.31 O dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, roedd yn rhaid i berson a oedd wedi dioddef erledigaeth enwi rhywun oedd wedi bod yn yr un sefyllfa ond na chafodd ei drin yn yr un modd. Yr enw a roddwyd ar y person hwn oedd y 'cymharydd'. Roedd hyn er mwyn dangos bod y driniaeth wedi digwydd oherwydd yr honiad o wahaniaethu yr oedd wedi'i gefnogi. O dan yr EA nid yw nawr yn angenrheidiol i berson sydd wedi dioddef erledigaeth i enwi cymharydd. Mae'n anghyfreithlon i bigo ar rywun am ei fod ef neu hi wedi bod yn dyst i Berson Anabl neu rywun arall sydd wedi honni gwahaniaethu ar sail anabledd o dan yr EA.

### 1.2.32 Gweithredu Cadarnhaol

1.2.33 Diben Gweithredu Cadarnhaol yw atal patrymau o

wahaniaethu oedd wedi digwydd yn y gorffennol ac mae wedi'i ganiatáu o dan yr EA. Gellir defnyddio gweithredu cadarnhaol i ddarparu hyfforddiant neu gefnogaeth i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig fel y gallant gystadlu'n gyfartal â phawb arall am swyddi. Mae gweithredu cadarnhaol yn golygu cymryd camau cadarnhaol i wneud yn siŵr bod gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gyfleoedd penodol nad ydynt wedi eu cael yn flaenorol oherwydd gwahaniaethu annheg. Gall gweithredu cadarnhaol gael ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth hefyd. Mae'n gwneud yn siŵr fod gan bobl fynediad cyfartal at wasanaethau.

### 1.2.34 Gwahaniaethu Cadarnhaol

1.2.35 Gwahaniaethu cadarnhaol yw rhoi gwell triniaeth i bobl oherwydd bod ganddynt un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig. Dim ond mewn perthynas â Phobl Anabl y mae'n gyfreithiol o dan yr EA. Gall darparwr gwasanaeth wahaniaethu'n gadarnhaol o blaid Person Anabl pe bai peidio â gwneud hynny'n golygu y byddai'n cael ei drin yn waeth na pherson sydd ddim yn anabl.

### 1.2.36 Y Ddeddf Cydraddoldeb (EA) a Sefydliadau Pobl Anabl (DPOau)

1.2.37 Mae'r EA yn effeithio'n uniongyrchol ar DPOau. Mae'r EA yn berthnasol i unrhyw Gymdeithas o bobl:

- Os oes ganddi o leiaf 25 o aelodau
- Os yw ymuno'n golygu dilyn cyfres o reolau
- Os nad yw'n sefydliad masnach megis busnes
- Os nad yw'n sefydliad proffesiynol neu'n undeb llafur

Mae rhannau eraill o'r EA yn cwmpasu clybiau lle mae'n rhaid i chi ond talu ffi ac nid oes yn rhaid i unrhyw un benderfynu yn gyntaf a allwch ymuno ai peidio. Mae DPO sy'n cael ei gynnal gan griw o ffrindiau heb unrhyw strwythur ffurfiol (megis clwb llyfrau, grŵp/tîm chwaraeon neu rhai Grwpiau Mynediad) yn annhebygol o fod yn gymdeithas o dan yr EA. Os oes gan DPO swyddogion etholedig a bod yn rhaid i bobl ddilyn rheolau er mwyn bod yn aelodau, mae'n debygol y bydd yn cael ei drin fel Cymdeithas o dan yr EA. Mewn sefyllfa o'r fath, cwmpesir a gwarchodir yr holl aelodau, aelodau cyswllt neu

ymwelwyr gan yr EA. Golyga hyn na ddylai'r Gymdeithas dorri'r EA yn unrhyw rai o'i gweithgareddau.

Mae'n rhaid i gymdeithasau sydd hefyd yn elusennau dderbyn a chadw at reolau arbennig ar gyfer elusennau sydd wedi'u cynnwys yn yr EA ond heb eu cynnwys yn y pecyn gwybodaeth hwn. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Gymdeithasau o unrhyw faint neu fath (ond nid pleidiau gwleidyddol) gyfyngu eu haelodaeth i bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig.

Er enghraifft, gallant gyfyngu eu haelodaeth i Bobl Anabl neu fenywod yn unig. Golyga hyn y gall DPO gael dim ond Pobl Anabl i fod yn aelodau o'i bwyllgor rheoli.

Gall DPO hefyd wahaniaethu'n rhannol drwy ddim ond cyflogi Pobl Anabl mewn rhai neu'r cyfan o'i swyddi. Ni fydd Cymdeithas neu elusen yn torri'r gyfraith drwy roi buddiannau i bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig benodol os yw gwneud hynny yn unol â'i rheolau.

Dylai buddiannau o'r fath fod naill ai:

- yn ffordd deg a chytbwys o gyflawni nod dilys neu
- er mwyn atal neu wneud yn iawn am anfantais sy'n bodoli oherwydd bod gan rywun nodwedd warchodedig

Gellir defnyddio cyfyngiadau sy'n seiliedig ar nodweddion gwarchodedig hefyd i aelodau cyswllt ac ymwelwyr â Chymdeithas neu elusen. Er enghraifft, gall grŵp menywod yn unig gyfyngu ar fynediad fel mai dim ond menywod all ddod i'r grŵp: mae hyn yn cynnwys unrhyw ymwelwyr. Nid yw hyn yn berthnasol os yw aelodaeth Cymdeithas neu grŵp o bobl sydd i dderbyn buddiannau gan yr elusen yn cael ei ddiffinio gan liw croen, er enghraifft "ar gyfer Pobl Dduon yn unig", sydd ddim yn cael ei ganiatáu. Os yw DPO yn cyfarfod yn nhŷ aelod, nid oes yn rhaid i'r aelod hwnnw wneud addasiadau i nodweddion ffisegol ei dŷ. Efallai y bydd yn rhaid i'r DPO newid ei leoliad i wneud yn siŵr y gall aelodau anabl ddefnyddio ei gyfleusterau a'i wasanaethau.

1.2.38 Mae'r adran hon yn y pecyn wedi edrych ar, ac esbonio:

- Cefndir y Ddeddf Cydraddoldeb (EA)
- Ymddygiad gwaharddedig - sy'n wahaniaethu na chaniateir o dan yr EA
- Gweithredu cadarnhaol – sy'n disgrifio camau y gall darparwyr gwasanaeth eu cymryd i atal patrymau o wahaniaethu a fu yn y gorffennol
- Gwahaniaethu cadarnhaol – sy'n weithredu cyfreithlon i wahaniaethu o blaid Pobl Anabl
- Hawliau a Chyfrifoldebau Sefydliadau Pobl Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb



## 1.3 Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA) – Defnyddio eich Hawliau

1.3.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â sut i ddefnyddio'r gyfraith. Yn benodol, mae'n edrych ar sut y gall unigolion anabl ddefnyddio'r Ddeddf Cydraddoldeb i wneud honiad ynglŷn â gwahaniaethu.

### 1.3.2 Mynd i'r llys: manteision ac anfanteision.

1.3.3 Gall mynd ac achosion i'r llys neu 'gyfreithiad' fod yn ffordd ddefnyddiol i herio gwahaniaethu a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd. Yn aml bydd cyrff cyhoeddus yn dewis torri gwasanaethau ar gyfer pobl y maen nhw'n meddwl na fydd yn ymladd yn ôl, gan gynnwys Pobl Anabl. Gall DPOau ac unigolion anabl ddefnyddio'r gyfraith i berswadio sefydliadau i beidio â gwneud toriadau i wasanaethau ar gyfer Pobl Anabl.

Gall achos cyfreithiol rwystro toriadau hyd yn oed os yw'n cael ei golli.

1.3.4 Gall heriau cyfreithiol ei gwneud hi'n fwy anodd i gyrff cyhoeddus wneud toriadau. Gall sicrhau cyhoeddusrwydd i benderfyniadau cyllideb a thoriadau mewn gwasanaethau atal neu oedi'r penderfyniadau hyn. Gall cyhoeddusrwydd wneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ac annog pobl i weithredu i atal toriadau. Gall cymryd camau cyfreithiol roi amser i bobl ddechrau ymgyrch i atal toriadau. Gall ymgyrchoedd ei gwneud hi'n anodd iawn neu'n amhosibl i doriadau fynd rhagddynt. Gall cymryd camau cyfreithiol yn erbyn toriadau sydd wedi'u cynllunio atgoffa pobl am yr effaith y gallant eu cael ar Bobl Anabl.

1.3.5 Bydd mynd i'r llys fel arfer yn cymryd amser hir. Gellir defnyddio ffyrdd eraill i herio penderfyniadau ar yr un pryd er mwyn rhoi'r cyfle gorau o lwyddo.

1.3.6 Gall ennill her gyfreithiol arwain at newidiadau yn sut y caiff gwasanaethau eu cynnal. Gall wneud DPO yn fwy adnabyddus a helpu i gynyddu nifer ei aelodau.

1.3.7 Ar yr ochr negyddol bydd cyfreithiad yn aml yn ddrud. Mae hyn yn wir hyd yn oed os cewch Gymorth Cyfreithiol i ymladd yr achos. Nid oes sicrwydd y byddwch yn ennill eich achos. Gall fynd â llawer o'ch amser.

1.3.8 Os byddwch yn mynd ag achos cyfreithiol yn erbyn corff cyhoeddus gall hyn niweidio eich perthynas weithiol â'r

sefydliad hwnnw. Gallai ei gwneud hi'n anoddach i DPO weithio gyda a pherswadio corff cyhoeddus i newid yr hyn mae'n ei wneud yn y dyfodol. Efallai y bydd y corff cyhoeddus yn penderfynu dileu cyllid os bydd DPO yn mynd ag ef i'r llys.

1.3.9 Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch ddefnyddio'r gwahanol gyfreithiau sy'n ymdrin â hawliau Pobl Anabl i gael eu trin yn gydradd. Penderfynu mynd i'r llys yw'r peth olaf fel arfer i roi cynnig arno os nad yw pethau eraill wedi gweithio.

### 1.3.10 Sut y gall Unigolion Anabl Ddefnyddio'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

1.3.11 Gall Person Anabl fynd i'r Llys Sirol os yw am wneud honiad ynglŷn â gwahaniaethu. Os ydych chi'n meddwl bod sefydliad sy'n darparu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau wedi gwahaniaethu yn eich erbyn chi neu Berson Anabl arall, mynd i'r Llys Sirol yw'r ffordd i herio'r gwahaniaethu.

1.3.12 Gall Llys Sirol ddweud wrth y darparwr gwasanaeth i roi rhywfaint o arian i chi am ei fod wedi gwahaniaethu yn eich erbyn. Gall y Llys Sirol hefyd ddweud wrth y darparwr gwasanaeth beth sy'n rhaid i'r darparwr ei wneud er mwyn sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn eich erbyn eto yn y dyfodol.

1.3.13 Os yw'r darparwr gwasanaeth yn parhau i wahaniaethu yn eich erbyn ar ôl i'r llys ddweud wrtho am beidio, gallwch fynd yn ôl i'r llys er mwyn gwneud iddo beidio.

1.3.14 Os nad ydych yn ennill eich achos yn y Llys Sirol gallwch ofyn i lys arall edrych ar eich achos eto. Apelio, neu wneud apêl, yw'r enw am hyn.

1.3.15 Mae siawns y bydd y llys yn dweud wrthych am dalu'r darparwr gwasanaeth unrhyw arian y mae wedi gorfod ei wario i ateb eich honiad o wahaniaethu. Efallai y bydd y llys yn dweud wrthych am dalu'r costau hyn os byddwch yn colli eich honiad cyntaf neu eich apêl.

1.3.16 Efallai y gallwch gael Cymorth Cyfreithiol os byddwch yn penderfynu mynd ag achos i'r Llys Sirol. Os byddwch yn gwneud cais am gymorth cyfreithiol, mae dau brawf: Prawf Modd, i weld a oes gennych ragor na £8,000 yn y banc neu yng ngwerth unrhyw beth sy'n eiddo i chi, fel eich tŷ; a Phrawf Teilyngdod, i weld pa mor gryf yw eich achos ac a ydych yn debygol o ennill.

1.3.17 Mae gennych hawl i siarad drosoch eich hun yn y Llys

Sirol a pheidio â defnyddio cyfreithiwr. Os byddwch yn gwneud hyn, mae'n debyg iawn y bydd yn rhaid i chi wneud llawer o waith llungopïo a threfnu'r papurau y bydd eu hangen arnoch yn y llys. Bydd hyn yn cynnwys dod o hyd i, a gwneud copïau o, unrhyw bapurau fydd eu hangen arnoch i gefnogi eich achos ac ysgrifennu'r hyn rydych eisiau ei ddweud yn y llys. Gwneud datganiad tyst yw'r enw am hyn. Bydd y llys hefyd yn gofyn i chi wneud copïau o'r papurau sydd eu hangen arno i benderfynu ar eich achos.

1.3.18 Mae gwrandawiadau neu achosion yn y Llys Sirol fel arfer yn eithaf hamddenol a syml. Dylech ddod â'r holl ddogfennau sydd eu hangen arnoch i brofi eich achos ac er mwyn delio ag unrhyw beth y mae'r ochr arall yn ei ddweud am eich achos. Rhaid i chi ddod â chopïau o bopeth y byddwch yn eu defnyddio ar gyfer y barnwr a'r darparwr gwasanaeth hefyd.

Efallai y bydd y darparwr gwasanaeth yn ceisio dod i gytundeb (neu setliad) gyda chi er mwyn peidio mynd i'r llys. Efallai y bydd ei gyfreithiwr yn dweud wrtho y gallai golli'r achos pe bai'r achos yn mynd i'r llys. Efallai na fydd am gael cyhoeddusrwydd gwael. Gall hyn ddigwydd hyd at fore'r gwrandawiad. Efallai y bydd yn poeni pe byddech yn ennill yr achos y bydd yn rhaid iddo newid yr hyn mae'n ei wneud i bobl eraill yn y dyfodol. Efallai y bydd am setlo gyda chi oherwydd bod hynny'n rhatach na chost mynd i'r llys. Efallai y bydd yr ymatebydd yn cynnig rhywfaint o arian i chi er mwyn gollwng yr achos oherwydd gallai hyn fod yn rhatach na thalu cyfreithiwr i siarad ar ei ran. Os yw'r darparwr gwasanaeth yn cynnig setlo gyda chi, efallai nad yw'n gwneud hynny oherwydd ei fod yn meddwl bod ei achos yn wan. Efallai y byddwch chi'n penderfynu peidio â defnyddio cyfreithiwr ond fe fydd busnesau fel arfer yn defnyddio un. Efallai bydd yn talu am wasanaeth neu y bydd ganddo yswiriant sy'n talu am gost ei gyfreithiwr.

1.3.19 Os nad ydych yn cytuno i setliad, gallwch fynd rhagddo â'ch honiad. Os cynigir setliad i chi ond eich bod yn penderfynu parhau gyda'ch achos beth bynnag, gallai'r llys benderfynu y dylech fod wedi derbyn y setliad os byddwch wedyn yn colli eich achos. Os digwydd hyn, gall y llys godi rhagor o arian arnoch i dalu am ei gostau. Os ydych chi'n meddwl

y byddwch yn cael mwy drwy fynd i'r llys nac a gewch gan setliad, efallai y byddwch yn penderfynu gwrthod unrhyw gynnig a gewch a mynd rhagddo â'ch honiad.

1.3.20 Mae'n syniad da i sgwrsio â chyfreithiwr am eich achos, hyd yn oes os byddwch yn penderfynu siarad ar eich rhan eich hun yn hytrach na defnyddio cyfreithiwr yn y llys.

Dylech allu cael ambell i awr o gyngor am ddim ynglŷn â'ch honiad, hyd yn oed os na allwch ddod o hyd i gyfreithiwr i siarad am eich rhan.

1.3.21 Mae gwahanol gyfreithwyr yn dda am wahanol bethau.

Efallai y byddai'n well i chi wneud pethau eich hun na gofyn am help gan gyfreithiwr:

- nad ydych yn teimlo'n gyfforddus neu'n hyderus ag ef
- sydd ddim yn gwybod am wahaniaethu
- fyddai ddim yn dda am siarad ar eich rhan
- sydd ddim yn gwybod am y Ddeddf Cydraddoldeb (EA) neu
- sydd ddim yn gwybod ynglŷn â mynd ag achos i'r Llys Sirol

1.3.22 Os byddwch yn ennill eich achos yn y Llys Sirol, efallai mai dyna ddiwedd y mater. Efallai y bydd y darparwr gwasanaeth yn gwneud yr hyn y mae'r llys yn dweud wrtho am ei wneud ac yn rhoi'r gorau i wahaniaethu yn eich erbyn. Efallai y bydd y darparwr gwasanaeth yn apelio yn erbyn y penderfyniad os yw'n credu fod ganddo siawns dda o ennill neu os yw'n poeni am orfod newid yr hyn mae'n ei wneud fel nad yw'n gwahaniaethu rhagor. Os oes apêl, naill ai gennych chi neu'r darparwr gwasanaeth, gallai unrhyw benderfyniad a wneir gan y llys gael ei ddefnyddio i benderfynu ar achosion eraill yn y dyfodol. Os gwneir penderfyniadau apêl yn gyhoeddus ('eu hadrodd') fe'u gelwir yn 'gyfraith achos'. Os bydd apêl yn dod i farn neu'n gwneud penderfyniad am fater na feddyliwyd amdano o'r blaen gan lys, gelwir y penderfyniad yn 'gynsail'. Mae penderfyniadau cynsail yn helpu llysoedd i ddeall sut i benderfynu ar achosion yn y dyfodol. Dim ond penderfyniadau apêl all ddod yn 'gyfraith achos' neu'n 'gynseiliau'. Ni chaiff dyfarniadau a wneir mewn Llys Sirol eu gwneud yn gyhoeddus ac felly nid ydynt yn 'gyfraith achos' nac yn 'gynseiliau'.

1.3.23 Mae cynseiliau'n ychwanegu at y gyfraith drwy ei hegluro a dangos sut y gellir ei defnyddio mewn bywyd go iawn. Gallwch ddod o hyd i achosion cynsail sy'n cefnogi eich achos drwy chwilio ar y rhyngrwyd a gallwch sôn wrth y llys amdanynt. Nid yw llysoedd yn hoffi cael gormod o achosion cynsail wedi'u hegluro wrthynt. Os byddwch yn dewis yn ofalus, gall achosion cynsail da fod yn ddefnyddiol iawn mewn perswadio'r llys bod gennych achos da.

1.3.24 Nid yw barnwyr yn hoffi cael gwybod gan lys apêl eu bod wedi gwneud y penderfyniad anghywir. Felly, byddant yn gwrando'n ofalus os byddwch yn dadlau bod eich achos yn debyg i un lle ceir penderfyniad cynsail sy'n cefnogi'r hyn rydych yn ei ddweud. Os byddwch yn setlo gyda darparwr gwasanaeth yn hytrach na chael gwrandawiad, ni fydd y setliad rydych yn cytuno arno yn gallu cael ei ystyried fel achos cynsail gan unrhyw lys yn y dyfodol. Mae cytundebau i setlo gan amlaf yn breifat. Bydd y ddwy ochr fel arfer yn cytuno i beidio â siarad na rhannu unrhyw fanylion am y setliad gydag unrhyw un arall.

1.3.25 Eir ag unrhyw honiad o wahaniaethu yn erbyn disgybl gan ysgol at y system Tribiwnlys yr Haen Gyntaf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SENDIST).

1.3.26 Os yw gweithiwr anabl yn dymuno dwyn honiad yn erbyn ei gyflogwr ynglŷn â gwahaniaethu neu aflonyddu, byddai'n gwneud hyn mewn Tribiwnlys Cyflogaeth. Mae hwn yn Dribiwnlys Haen Gyntaf arall tebyg i'r Tribiwnlys AAA. Mae tribiwnlysoedd, yn arbennig ar y lefel gyntaf, fel arfer yn gymharol anffurfiol a hawdd i'w dilyn.

Os nad ydych wedi arfer â thribiwnlysoedd neu'n poeni am siarad drosoch eich hun mewn tribiwnlys, dylech chwilio am rywun sy'n gwybod amdanynt all eich helpu i baratoi i ddweud beth rydych am ei ddweud.

Fel arfer, bydd gan yr ochr arall mewn tribiwnlys, megis ysgol neu gyflogwr, rywun i siarad ar ei rhan a'i helpu i gyflwyno ei hachos. Boed gennych chi neu'r ochr arall rywun yno i'ch helpu ai peidio, gofynnir i'r ddau ohonoch siarad.

1.3.27 Mae'r adran hon yn y pecyn wedi edrych ar, ac esbonio:

- Manteision ac anfanteision defnyddio'r gyfraith mewn llys a
- Sut y gall unigolyn anabl wneud honiad o wahaniaethu

## 1.4 Deddf Cydraddoldeb 2010 (EA) – Adnoddau Defnyddiol

1.4.1 Fersiwn 'Hawdd ei Deall' Llywodraeth y DU o'r EA:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/85039/easy-read.pdf

1.4.2 Canllaw Disability Rights UK i'r EA:

https://www.disabilityrightsuk.org/equality-act-and-disabled-people

1.4.3 Cyngor ar Bopeth ynglŷn â sut mae'r EA yn diffinio 'anabledd' ac yn effeithio ar bobl anabl:

https://www.citizensadvice.org.uk/work/discrimination-at-work/checking-if-its-discrimination/check-if-youre-disabled-under-the-equality-act/

1.4.4 Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cynghori ar Gydraddoldeb yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ar faterion gwahaniaethu a hawliau dynol i unigolion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan gynnwys cyngor ar yr hyn a ddywed Deddf Cydraddoldeb 2010 a sut mae hyn yn berthnasol i Bobl Anabl. Mae hefyd yn darparu llawer o dempledi llythyrau:

www.equalityadvisoryservice.com

RHADBOST
Gwasanaeth Cymorth Cynghori ar Gydraddoldeb
FPN4431

Ffôn: 0808 800 0082
Ffôn testun: 0808 800 0084

Os ydych yn Fyddar neu'n drwm eich clyw, gallwch ffonio RAD drwy ei borthol gwe gamera yn http://www.royaldeaf.org.uk/webcam/ er mwyn siarad â chynghorwr mewn Iaith Arwyddion Prydain neu sgwrs testun.

Mae ganddo hefyd linell gymorth a ariennir gan y llywodraeth sydd wedi disodli Llinell Gymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC):

Ffôn: 0800 444 205
Ffôn testun: 0800 444 206

1.4.5 Canllawiau EHRC ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ynglŷn â'u hawliau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:

https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/guidance-service-users



# 2 Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED)

## 2.1 Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) – Y Sylfeini

### 2.1.1 Beth ydyw?

Mae PSED yn rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (EA).

Nod y Ddyletswydd Gyffredinol yw gwneud yn siŵr bod awdurdodau cyhoeddus yn meddwl ynglŷn â sut y gallant gyfrannu at gymdeithas decach. Mae'n rhaid iddynt ystyried sut y byddant yn cael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, gwneud yn siŵr fod pobl sydd â nodweddion gwahanol yn cael yr un cyfleodd a meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â gwahanol nodweddion.

Nod dyletswyddau penodol Cymru yw helpu cyrff cyhoeddus i weithredu'r Ddyletswydd Gyffredinol a bod yn fwy tryloyw. Mae'n golygu bod yn rhaid i gyrff gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â sut y maent wedi cydymffurfio â'r PSED, yn cynnwys cynllun cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb. Rhaid iddynt hefyd ymgysylltu â grwpiau cydraddoldeb pan fyddant yn cyflawni dyletswyddau penodol.

### 2.1.2 Ar bwy mae'n effeithio?

Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn berthnasol i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol a sefydliadau sector preifat neu'r trydydd sector os ydynt yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. (Gellir gweld rhestr lawn o'r cyrff sydd wedi'u cwmpasu gan y ddyletswydd yma: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/19)



Mae dyletswyddau penodol Cymru yn berthnasol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru a'r rheini sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

### 2.1.3 Beth mae'n ei olygu i Bobl Anabl?

Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn dweud bod anghenion Pobl Anabl yn wahanol i rai pobl sydd ddim yn anabl. Mae'n dweud y dylai cyrff cyhoeddus roi ystyriaeth i amhariadau neu gyflyrau Pobl Anabl. Gallai hyn olygu gwneud newidiadau rhesymol. Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus ddatblygu neu wella cydraddoldeb i Bobl Anabl. Mae datblygu cydraddoldeb cyfle ar gyfer Pobl Anabl yn golygu:

- Cael gwared ar neu leihau anfanteision a ddioddefir gan Bobl Anabl
- Diwallu anghenion Pobl Anabl
- Annog Pobl Anabl i gyfranogi yn y gymuned ehangach

## 2.2 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) – Gwybod eich Hawliau

2.2.1 Mae Adran 2.3 y pecyn yn ymwneud â'r Ddeddf Cydraddoldeb (EA). Mae'n edrych yn benodol ar Ddyletswydd Cydraddoldeb yn Sector Cyhoeddus (PSED), sy'n rhan o'r EA.

### 2.2.2 Cefndir y PSED

2.2.3 Rheolau yw'r rhain ar gyfer cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Swyddogaethau cyhoeddus yw gwasanaethau i'r cyhoedd ond nid gweithgarwch busnes mewnol cyrff cyhoeddus. Gweithgarwch busnes mewnol yw pan fo angen i un rhan o gorff cyhoeddus siarad â rhannau eraill o'r un corff. Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus (PSED) yn disodli tair o hen Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar gyfer anabledd, hil a rhyw. Mae'n cwmpasu pob un o'r naw nodwedd warchodedig.

Cynhaliwyd adolygiad o'r PSED yng Nghymru gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn 2014. Daeth i'r casgliad bod y PSED yn gweithio'n effeithiol yng Nghymru ac y dylid ei gadw. Mae pob sefydliad wedi gallu dangos sut y mae'r PSED yn cefnogi gwaith i fodloni ei thair nod.

### 2.2.4 Y Ddyletswydd Gyffredinol

2.2.5 Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol i'w chanfod yn **Adran 149 y Ddeddf Cydraddoldeb.** Mae tair nod iddi. Mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn:

- rhoi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon
- gweithio i wneud cyfleoedd yn gyfartal i bobl o grwpiau gwahanol
- annog perthynas dda rhwng cymunedau

Golyga hyn bod angen i gyrff cyhoeddus ystyried y tair nod pan fydd yn gwneud penderfyniadau. Rhaid ystyried materion cydraddoldeb pan fydd cyrff cyhoeddus yn penderfynu'r canlynol:

- Gweithredu fel cyflogwyr
- Penderfynu sut y byddant yn cynnal gwasanaethau
- Trefnu ac adolygu'r gwasanaethau hyn
- Prynu nwyddau a gwasanaethau gan eraill

Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn dweud bod anghenion Pobl Anabl yn wahanol i rai pobl sydd ddim yn anabl. Mae'n dweud y dylai cyrff cyhoeddus roi ystyriaeth i amhariadau neu gyflyrau Pobl Anabl. Gallai hyn olygu gwneud newidiadau rhesymol. Mae'r Ddyletswydd Gyffredinol yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus ddatblygu neu wella cydraddoldeb i Bobl Anabl. Mae datblygu cydraddoldeb cyfle ar gyfer Pobl Anabl yn golygu:

- Cael gwared ar neu leihau anfanteision a ddioddefir gan Bobl Anabl
- Diwallu anghenion Pobl Anabl
- Annog Pobl Anabl i gyfranogi yn y gymuned ehangach ac mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn isel

### 2.2.6 Dyletswyddau Penodol y Sector Cyhoeddus i Gymru

2.2.7 Mae **Adran 153 yr EA** y rhoi'r hawl i Lywodraeth Cymru lunio cyfreithiau ynglŷn â'r hyn y mae'n rhaid i'r sector cyhoeddus ei wneud. Dechreuodd y rheolau hyn ar 6 Ebrill 2011 ac maent yn berthnasol i gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru a'r rheini sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Mae Dyletswyddau Penodol y Sector Cyhoeddus i Gymru yn gryfach na'r rheini yng ngweddill y DU. Mae'r ddyletswydd i ofyn i Bobl Anabl ac eraill sydd â nodweddion gwarchodedig ynglŷn â chynlluniau i newid gwasanaethau cyhoeddus wedi cael ei dileu bron i gyd o Ddyletswyddau Penodol y Sector Cyhoeddus yng ngweddill y DU. Dywed Llywodraeth Cymru bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus osod nodau clir er mwyn dangos sut maent yn trin pawb yn gyfartal. Yr enw ar y nodau hyn yw Amcanion Cydraddoldeb.

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru wneud yn siŵr bod y ffyrdd y maent yn cynnal gwasanaethau yn trin pobl yn gydradd, felly maent rhaid iddynt gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Yng Nghymru mae hyn yn golygu bod rheolau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu dilyn i ofyn i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig pa newidiadau sydd eu hangen i wella eu gwasanaethau.

Nid yw'r rheolau hyn yn bodoli yng ngweddill y DU.

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gyhoeddi dogfen sy'n dangos beth maent yn mynd i'w wneud i wella gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Yr enw ar y dogfennau hyn yw Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ofyn i Bobl Anabl ac eraill ynglŷn â sut y dylid gweithredu'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac adrodd yn ôl wrth y gymuned ar ddefnydd y cynlluniau hyn. Mae'n rhaid iddynt edrych i weld a yw'r nodau wedi'u cyflawni a rhoi gwybod i bobl am unrhyw nodau sydd heb eu cyflawni.

Mae cwmnïau preifat sy'n gweithredu ar ran y Llywodraeth wedi'u cwmpasu gan y Ddyletswydd - ond dim ond o ran eu

swyddogaethau cyhoeddus. Os yw corff cyhoeddus yn talu cwmni preifat i ddarparu gwasanaeth ar ei ran, rhaid iddo oruchwylio a monitro'r gwasanaeth hwnnw er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn cadw at y PSED. Er enghraifft, mae GIG Cymru yn gofyn i feddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr a sefydliadau gwirfoddol i gyflawni rhai o'i ddyletswyddau cyhoeddus drwy ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae gan GIG Cymru ddyletswydd i sicrhau bod y sefydliadau hyn yn cadw at y PSED.

2.2.8 Mae'r adran hon yn y pecyn wedi edrych ar, ac esbonio:

- Cefndir i'r PSED
- Y gwahaniaeth rhwng Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol y Sector Cyhoeddus sy'n berthnasol i sefydliadau sydd wedi'u lleoli'n rhannol neu'n gyfan gwbl yng Nghymru.



## 2.3 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) – Defnyddio Eich Hawliau

2.3.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â beth sy'n rhaid i'r Sector Cyhoeddus ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr bod Pobl Anabl a phobl eraill sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu trin yn deg. Yn benodol, mae'r adran hon yn y pecyn yn edrych ar Ddyletswyddau Cydraddoldeb Cyffredinol a Phenodol y Sector Cyhoeddus.

2.3.2 Mae'r cymalau hyn yn y Ddeddf Cydraddoldeb (EA) a'r penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut i ddeall y gyfraith, yn dangos sut y mae'n rhaid i Bobl Anabl ac eraill gael eu gwarchod rhag gwahaniaethu gan gyrff cyhoeddus.

2.3.3 Yn fwyaf pwysig mae'r PSED yn dangos i gyrff cyhoeddus sut y gallant 'wneud y peth iawn'. Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru lle mae'r PSED yn gryfach ac yn fwy manwl nac yng ngweddill y DU.

2.3.4 Gall Sefydliadau Pobl Anabl (DPOau) helpu cyrff cyhoeddus i benderfynu pa newidiadau sy'n bwysig. Gall DPO ganfod barn Pobl Anabl ynglŷn â pha wasanaethau sydd angen eu newid. Gall DPOau hefyd ofyn i Bobl Anabl sut y byddai unrhyw doriadau arfaethedig mewn gwasanaethau yn effeithio arnynt. Yna gellir defnyddio'r wybodaeth hon gan DPOau i helpu cyrff cyhoeddus i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud yr hyn y maent i fod i'w wneud o dan y PSED.

2.3.5 Mae corff cyhoeddus yn llunio Amcanion Cydraddoldeb o dan y PSED. Mae'r rhain yn helpu'r corff i fesur pa mor dda mae'n ei wneud o ran hyrwyddo cydraddoldeb Pobl Anabl. Er mwyn llunio'r Amcanion Cydraddoldeb hyn, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus benderfynu beth yw'r pethau mwyaf pwysig i'w newid.

Gall DPOau helpu cyrff cyhoeddus i benderfynu ar ei Amcanion Cydraddoldeb drwy rannau barn eu haelodau am faterion fel byw'n annibynnol. Mae angen i DPO wneud yn siŵr ei fod wedi cytuno ar ffordd o roi gwybod am ei farn wrth gyrff cyhoeddus yn yr ardal. Os yw'r corff cyhoeddus yn gwneud ei waith yn iawn, dylai dalu sylw i beth mae Pobl Anabl lleol yn ei ddweud a gwneud yn siŵr bod yr Amcanion Cydraddoldeb yn

mynd i'r afael â materion a fynegir ganddynt.

2.3.6 Mae rhai Pobl Anabl a'u sefydliadau wedi defnyddio'r PSED yn llwyddiannus i roi pwysau ar eu cynghorwyr lleol, Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol.

2.3.7 Yn aml, mae newidiadau arfaethedig i sut y cynhelir gwasanaethau wedi cael eu hatal neu eu haddasu gan bobl sydd wedi dadlau y byddai'r newidiadau hyn yn golygu na fydd Pobl Anabl yn cael eu trin yn gyfartal. Mae Cyrff Cyhoeddus wedi gorfod newid eu cynlluniau oherwydd bod yr hyn y maent eisiau ei wneud yn groes i'r PSED ac felly'n torri'r gyfraith.

2.3.8 Os ydych chi'n meddwl fod yr hyn y mae corff cyhoeddus yn ei wneud, neu'n bwriadu ei wneud, yn groes i'r PSED dylech geisio ei berswadio ynglŷn â hyn. Fel arfer bydd gan gyrff cyhoeddus weithdrefnau cwynion ac apelio. Dylech geisio defnyddio'r rhain i gyd i berswadio'r corff cyhoeddus i beidio â gwahaniaethu. Os na allwch berswadio'r corff cyhoeddus bod yr hyn y mae'n ei wneud neu eisiau ei wneud yn groes i'r PSED, gallwch ofyn i bobl eraill edrych ar y broblem.

2.3.9 Gallwch ofyn i Ombwdsmon edrych ar y broblem. Bydd pa Ombwdsmon rydych yn gofyn i wneud hyn yn dibynnu ar pa wasanaeth sy'n gwahaniaethu yn eich erbyn.

Yng Nghymru mae yna un adran Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n edrych ar yr holl gwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys cwynion am wasanaethau awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau brys.

Os ydych eisiau cwyno am wasanaeth sy'n un DU gyfan, fel y Ganolfan Byd Gwaith, Mynediad i Waith neu'r Llysoedd, gellir cwyno wrth yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd.
Yn hytrach na mynd at Ombwdsmon, gallwch ofyn i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) edrych ar y broblem ar eich rhan. Dywed y gyfraith mai gwaith yr EHRC yw gwneud hyn. Gall yr EHRC ddweud wrth gorff cyhoeddus i newid yr hyn y mae'n ei wneud os yw'n credu bod y corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth sy'n groes i'r PSED. Gall yr EHRC gyflwyno hysbysiad gorfodi sy'n gwneud i'r corff cyhoeddus gadw at y PSED.

2.3.10 Gallwch hefyd ofyn i gyfreithiwr eich helpu i fynd â'r corff cyhoeddus i'r llys er mwyn gweld a yw'r llys yn meddwl bod yr hyn y mae'n ei wneud neu'n bwriadu ei wneud yn groes i'r PSED. Os ydych yn gwneud hyn, bydd arnoch angen i un neu ragor o unigolion anabl yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan yr hyn y mae'r corff cyhoeddus am ei wneud. Rhaid mynd ag achosion yn enw unigolion. Yr enw ar y math hwn o achos cyfreithiol yw Adolygiad Barnwrol. Er mwyn ennill Adolygiad Barnwrol, mae angen i chi ddangos bod yr hyn y mae corff cyhoeddus yn ei wneud neu eisiau ei wneud yn cael effaith fwy negyddol ar Bobl Anabl nag ydyw ar eraill. Dylid ond troi at un o'r ffyrdd hyn o herio corff cyhoeddus - mynd at Ombwdsmon, yr EHRC, neu ofn am Adolygiad Barnwrol - os bu cwyno'n uniongyrchol wrth y corff cyhoeddus wedi bod yn aflwyddiannus. Ni fydd y llysoedd, yr EHRC na'r Ombwdsmon yn fodlon edrych ar eich achos os nad yw'r corff cyhoeddus wedi gorffen edrych ar y mater yn gyntaf. Os yw eich cwyn yn un brys, os yw'r corff cyhoeddus yn cymryd amser hir iawn neu os yw'n gwrthod edrych ar eich cwyn, efallai y gallwch berswadio'r Llys, yr EHRC neu'r Ombwdsmon priodol i ymchwilio'r mater.

2.3.11 Bu peth toriadau mewn cyllido Cymorth Cyfreithiol ar gyfer rhai mathau o achosion cyfreithiol. Pan ysgrifennwyd y pecyn hwn roedd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, sy'n gyfrifol am benderfynu pwy sy'n cael Cymorth Cyfreithiol, yn dal i dalu am rywfaint o achosion Adolygiad Barnwrol yr oedd Pobl Anabl yn eu cymryd yn erbyn cyrff cyhoeddus.

2.3.12 Nid yw'n syniad da i ofyn am Adolygiad Barnwrol heb ddefnyddio cyfreithiwr da sy'n gwybod y drefn. Mae'r Uchel Lys yn ffurfiol iawn. Mae'n anodd deall beth sy'n mynd ymlaen os nad ydych yn gwybod sut mae'n gweithio. Bydd Adolygiadau Barnwrol yn cael eu clywed yn yr Uchel Lys. Anaml iawn y bydd unrhyw un ac eithrio bargyfreithiwr, barnwr neu gyfreithiwr yn cael siarad yn yr Uchel Lys.

2.3.13 Os ydych yn gofyn am Gymorth Cyfreithiol, bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithio yn penderfynu pa mor gryf y mae'n meddwl yw eich achos. Os bydd yn meddwl bod gennych siawns dda o ennill, efallai y bydd yr Asiantaeth

yn cytuno i dalu am eich cyfreithiwr a bargyfreithiwr mewn gwrandawiad Adolygiad Barnwrol. Mae'r un peth yn berthnasol ar gyfer unrhyw apêl. Os bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithio yn penderfynu peidio â thalu am eich Adolygiad Barnwrol neu apêl, bydd angen i chi ddod o hyd i ddull ariannu arall os ydych am fynd ymlaen â'r achos. Os ydych yn colli ac nad oes gennych gymorth cyfreithiol, efallai y bydd y llys yn gofyn i chi dalu costau'r ochr arall a allai fod yn ddrud iawn.

2.3.14 Efallai y bydd elusen neu gorff ymgyrchu a ariennir yn dda yn penderfynu helpu i dalu am eich achos, os gallwch eu perswadio bod yr achos yn gynsail pwysig. Mae hyn yn brin ac efallai y bydd yr elusen neu'r corff ymgyrchu am gael rhywbeth yn gyfnewid am ei gefnogaeth. Efallai y bydd hyn yn golygu eich bod yn colli peth rheolaeth dros yr achos. Efallai y byddwch yn penderfynu ei bod yn well mynd ymlaen â hyn hyd yn oed os oes yn rhaid i chi gyfaddawdu. Chi yw'r unig berson ddylai benderfynu hyn.

2.3.15 Os byddwch yn colli eich honiad neu unrhyw apêl mewn unrhyw lys arall, neu os byddwch yn colli mewn Tribiwnlys Ail haen (er enghraifft, yn erbyn toriadau mewn budd-daliadau neu fater yn ymwneud â gwahaniaethu yn erbyn disgybl ysgol) gallwch ofyn i'r llys hwnnw am ganiatâd i fynd â'ch achos i'r Llys Apêl.

2.3.16 Mae'r adran hon yn y pecyn wedi edrych ar, ac esbonio:

- Sut mae Dyletswyddau Cyffredinol a Phenodol y Sector Cyhoeddus yn gweithio yng Nghymru, a
- Sut i wneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus yn cadw at y gyfraith ac yn gwneud yr hyn y maent i fod i'w wneud o dan y PSED

## 2.4 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) – Adnoddau defnyddiol

2.4.1 Trosolwg o adroddiad yr EHRC ynglŷn â'r PSED a sut mae'n gweithio yng Nghymru:

https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales

2.4.2 Crynodeb o adroddiad yr EHRC ynglŷn â'r PSED a sut mae'n gweithio yng Nghymru:

https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/review-public-sector-equality-duty-psed-wales-executive-summary

2.4.3 Rhestr o awdurdodau lleol a'r hyn y maent yn ei wneud i gydymffurfio â PSED, wedi'i lunio gan EHRC:

https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/psed_examples_report_english.pdf


2.4.4 Canllaw Hanfodol EHRC ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru:

https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/essential-guide-public-sector-equality-duty

2.4.5 Canllawiau Cyngor ar Bopeth ynglŷn â PSED:

https://www.citizensadvice.org.uk/wales/law-and-courts/discrimination/public-sector-equality-duty/what-s-the-public-sector-equality-duty/





# 3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP)

## 3.1 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) – Sylfeini

### 3.1.1 Beth ydyw?

Cytundeb hawliau dynol rhyngwladol yw'r UNCRDP a gadarnhawyd gan y DU. Mae hyn yn golygu bod y DU wedi cytuno i ddilyn y confensiwn a gwarchod a hyrwyddo hawliau dynol pobl anabl.

Mae dwy ran i'r confensiwn. Mae rhan un yn disgrifio'r 17 o hawliau sydd gan Bobl Anabl o dan yr UNCRDP (a amlinellir yn Adran 3.2 y pecyn cymorth hwn). Rhan dau yw'r 'Protocol Dewisol' sy'n disgrifio'r pwerau sydd gan Bobl Anabl a sut y gallant ddefnyddio'r Confensiwn.

### 3.1.2 Ar bwy mae'n effeithio?

Mae'r UNCRDP yn defnyddio diffiniad o anabledd sy'n agosach i'r Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae'n edrych ar beth sydd angen newid mewn cymdeithas er mwyn i Bobl Anabl gael eu trin yn gyfartal yn hytrach na beth mae pobl yn methu ei wneud oherwydd amhariadau.

Gellir ei ddefnyddio i herio gwahaniaethu gan y Llywodraeth neu gyrff cyhoeddus eraill.

### 3.1.3 Beth mae'n ei olygu i Bobl Anabl?

Mae'r UNCRDP yn ddefnyddiol i Bobl Anabl sydd eisiau gwneud yn siŵr nad yw cyrff cyhoeddus yn gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd ei fod yn cynnwys enghreifftiau clir o sut y dylai cyrff cyhoeddus drin Pobl Anabl.

Fodd bynnag, gan nad yw'r UNCRDP yn rhan o gyfraith ddomestig y DU, os ydych eisiau dwyn achos cyfreithiol o dan yr UNCRDP mae angen iddo fod yn achos o dan y Ddeddf Hawliau Dynol neu'r Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r llysoedd a Phobl Anabl yn gweld yr UNCRDP yn ddefnyddiol oherwydd ei fod yn egluro'n glir sut y dylid cymhwyso a deall hawliau Pobl Anabl o dan yr EA a chyfreithiau eraill.

## 3.2 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) – Gwybod eich Hawliau

3.2.1 Mae Adran 3.2 yn ymwneud â’r UNCRDP. Mae’n edrych yn benodol ar pa hawliau sydd gan Bobl Anabl o dan yr UNCRDP.

### 3.2.2 Cefndir i’r UNCRDP

3.2.3 Cytunwyd ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) gan y Cenhedloedd Unedig yn 2006. Gwnaeth y DU ef yn gyfraith yng Nghymru. Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr yn 2009.

Er bod y Confensiwn yn ymwneud â hawliau ‘unigolion sydd ag anableddau’ cyfeirir ato fel y confensiwn ar hawliau ‘pobl anabl’ yn y DU gan fod y DU wedi addasu’r ‘model cymdeithasol’ o anabledd.

### 3.2.4 Diffiniadau

3.2.5 Mae dwy ran i’r UNCRDP. Mae’n defnyddio diffiniad o anabledd sy’n agosach i’r Model Cymdeithasol o Anabledd a fabwysiadwyd gan y Mudiad Pobl Anabl. Weithiau defnyddir ‘amhariad’ ac ‘anabledd’ i olygu’r un pethau yn y UNCRDP.

Mae’r diffiniad o Anabledd a ddefnyddir yn yr EA yn sôn am bethau mae pobl yn ‘methu eu gwneud’ oherwydd eu hamhariadau. Mae’r UNCRDP yn edrych ar beth sydd angen newid mewn cymdeithas er mwyn i Bobl Anabl gael eu trin yn gyfartal.

Nid yw’r Confensiwn yn diffinio anabledd yn benodol ond dywed y rhaglith fod anabledd yn gysyniad esblygol sy’n deillio o ryngweithio rhwng pobl sydd ag amhariadau a’r rhwystrau a achosir gan agweddau pobl eraill a’r amgylcheddau y maent ynddynt.

Dywed Erthygl 1 y Confensiwn:

‘Mae pobl sydd ag anableddau yn cynnwys y rheini sydd ag amhariadau corfforol, meddyliol, deallusol neu synhwyraidd hirdymor a allai wrth ddod i gysylltiad â gwahanol rwystrau lesteirio eu cyfranogiad llawn ac effeithiol mewn cymdeithas mewn modd sy’n gydradd â phobl eraill’

3.2.6 Mae Rhan Un ‘Y Confensiwn’ yn disgrifio hawliau Pobl Anabl o dan yr UNCRDP. Rhan Dau yw’r ‘Protocol Dewisol’ i’r Confensiwn. Mae hwn yn disgrifio’r pwerau sydd gan Bobl Anabl i ddefnyddio’r Confensiwn.

### 3.2.7 Hawliau Pobl Anabl o dan yr UNCRDP

3.2.8 Mae’r UNCRDP yn cynnwys 17 o hawliau ar gyfer Pobl Anabl:

- Yr hawl i gael eich trin yn gyfartal (Erthygl 5)
- Yr hawl i fywyd, rhyddid a diogelwch (Erthyglau 10-14)
- Yr hawl i gael eich trin yn deg, i wneud penderfyniadau am eich bywyd ac annibyniaeth, gyda chymorth os oes angen (Erthygl 12)
- Yr hawl i beidio â chael eich cam-drin (Erthygl 15)
- Yr hawl i gael eich diogelu rhag trais (Erthygl 16)
- Yr hawl i feddwl drosoch eich hun a gwneud penderfyniadau am eich bywyd (Erthygl 17)
- Yr hawl i deithio a phenderfynu lle rydych yn byw, gan gynnwys ym mha wlad rydych yn byw ynddi (Erthygl 18)
- Yr hawl i fyw’n annibynnol ac yn y gymuned ac i ddewis peidio byw mewn sefydliad (Erthygl 19)
- Yr hawl i leisio barn, a elwir yn rhyddid mynegiant (Erthygl 21)
- Yr hawl i breifatrwydd ac i’r preifatrwydd hwnnw gael ei barchu (Erthygl 22)
- Yr hawl i gartref a bywyd teuluol ac i hynny gael ei barchu (Erthygl 23)
- Yr hawl i gael addysg sy’n gydradd ag addysg pobl sydd ddim yn anabl (Erthygl 24)
- Yr hawl i gyrchu gwasanaethau iechyd yn gydradd â phobl eraill (Erthygl 25)
- Yr hawl i weithio a chael yr offer, cyfarpar a’r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch i wneud hynny (Erthygl 27)
- Yr hawl i safon byw gweddus (Erthygl 28)
- Yr hawl i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, bywyd cymunedol a chyhoeddus (Erthygl 29)
- Yr hawl i fywyd cymdeithasol ac i gyrchu cyfleusterau hamdden (Erthygl 30)

### 3.2.9 Hawliau UNCRDP – Esboniad

3.2.10 Mae’r UNCRDP yn cynnwys y rhestr lawnaf o hawliau ar gyfer Pobl Anabl mewn unrhyw ddeddfwriaeth yn y DU. Os yw Person Anabl yn byw yn unrhyw un o’r gwledydd sydd wedi cytuno i’r UNCRDP

dylent fod yn gallu dibynnu ar ddefnyddio'r hawliau hyn.

Mae hawliau'r Confensiwn yn cael eu cwmpasu'n bennaf gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol y DU. Mae'r UNCRDP hefyd yn cynnwys nifer o hawliau nad ydynt wedi'u rhestru mewn cyfreithiau eraill y DU. Mae hawliau menywod anabl yn Erthygl 6 yr UNCRDP. Mae hawliau plant anabl yn Erthygl 7. Mae cyfrifoldeb llywodraeth i 'godi ymwybyddiaeth' o faterion anabledd wedi'i gynnwys yn Erthygl 8.

3.2.11 Mae'r hawl i fywyd (a grybwyllir uchod) yn Erthygl 10. Cafodd ei gynnwys yn yr UNCRDP i warchod Pobl Anabl oherwydd bod rhai gwledydd yn newid eu cyfreithiau ynglŷn ag a all Pobl Anabl gael eu helpu i ladd eu hunain os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

3.2.12 Mae Erthyglau 12, 13 a 15 yn gwahardd arteithio neu greulondeb tuag at Bobl Anabl. Maent hefyd yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i lysoedd, yr heddlu a charchardai wahaniaethu yn erbyn Pobl Anabl. Er bod yr holl hawliau hyn yn rhan o gyfreithiau eraill y DU, nid ydynt wedi cael eu hysgrifennu i mewn i'r cyfreithiau hynny mor glir ac y maent wedi'u hysgrifennu i'r UNCRDP.

3.2.13 Mae'r hawl i fyw'n annibynnol yn yr UNCRDP wedi cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Yn 2012 cyhoeddodd 'Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol' drafft. Yn y Fframwaith mae'r un syniadau a hawliau â'r chwe blaenoriaeth yn y Maniffesto ar gyfer Bwy'n Annibynnol a gyhoeddwyd gan Anabledd Cymru yn 2010.

3.2.14 Mae'r llysoedd a Phobl Anabl yn teimlo bod yr UNCRDP yn ddefnyddiol gan ei fod yn esbonio'n glir sut y dylid cymhwyso a deall hawliau Pobl Anabl o dan yr EA a chyfreithiau eraill. Mae adran nesaf y ddogfen hon (3.3 - 'Defnyddio eich Hawliau') yn esbonio na ellir defnyddio'r UNCRDP ar ei ben ei hun.

3.2.15 Mae'r adran hon yn y pecyn wedi edrych ar, ac esbonio:

- Cefndir a'r diffiniadau a ddefnyddir o dan yr UNCRDP
- Hawliau penodol Pobl Anabl o dan yr UNCRDP a beth mae'r hawliau hyn yn ei olygu i Bobl Anabl.

## 3.3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) – Defnyddio Eich Hawliau

3.3.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â'r UNCRDP. Mae'n edrych yn benodol ar y gwahanol ffyrdd y gallwch ddefnyddio'r UNCRDP.

3.3.2 Os ydych eisiau dwyn achos cyfreithiol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) bydd angen iddo fod yn achos o dan y Ddeddf Hawliau Dynol neu'r Ddeddf Cydraddoldeb. Ni allwch ddwyn achos cyfreithiol gan ddefnyddio'r UNCRDP yn unig. Gallwch ddefnyddio'r UNCRDP i gryfhau eich achos.

3.3.3 Mae llawer o ffyrdd y gallwch ddefnyddio'r UNCRDP. Gallwch ei ddefnyddio ar gyfer pethau sy'n digwydd yn eich ardal leol. Gallwch ei ddefnyddio i herio gwahaniaethu gan lywodraeth neu gyrff cenedlaethol eraill.

3.3.4 Mae'r gwahanol ffyrdd y gallwch ddefnyddio'r UNCRDP yn cynnwys:

- Sefyllfaoedd lle mae'r gwahaniaethu sydd wedi digwydd yn groes i gyfreithiau eraill y DU, megis y Ddeddf Cydraddoldeb (EA) neu'r Ddeddf Hawliau Dynol
- Cwyno'n uniongyrchol wrth gorff cyhoeddus ynglŷn â'r hyn mae wedi'i wneud neu
- Mynd at sefydliad fel yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

3.3.5 Er mwyn creu achos gan ddefnyddio'r UNCRDP dylech:

- benderfynu pa erthygl neu erthyglau yn yr UNCRDP sy'n berthnasol i'ch cwyn
- ceisio datrys y mater drwy dynnu sylw'r corff cyhoeddus at yr erthyglau yn yr UNCRDP sy'n berthnasol i'r sefyllfa
- os nad yw hynny'n gweithio, gwneud cwyn swyddogol wrth y corff cyhoeddus, gan ei atgoffa ei fod yn mynd yn groes i'r UNCRDP
- os nad yw hynny'n gweithio, ysgrifennu at eich cynghorydd, Aelod Seneddol neu Aelod o'r Senedd i ddweud wrthynt am eich cwyn
- os nad yw unrhyw un o'r rhain yn newid y modd y mae'r corff cyhoeddus yn gweithredu, gallwch fynd i'r llys a chrybwyll yr UNCRDP yn ogystal ag unrhyw gyfraith arall y mae'r corff cyhoeddus yn ei thorri

3.3.6 Ar wahân i fynd i'r llys, gallwch ddefnyddio erthyglau o'r UNCRDP i wneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus – a chwmnïau preifat sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus ar eu rhan – yn cadw at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a'r Ddeddf Hawliau Dynol.

3.3.7 Mae'r UNCRDP yn ddefnyddiol iawn ar gyfer Pobl Anabl unigol sydd eisiau gwneud yn siŵr nad yw cyrff cyhoeddus yn gwahaniaethu yn eu herbyn. Mae hyn oherwydd bod yr UNCRDP yn cynnwys enghreifftiau clir o sut y dylai Pobl Anabl gael eu trin gan gyrff cyhoeddus. Mae hyn yn bwysig dros ben mewn sefyllfaoedd sydd heb eu cynnwys mewn cyfreithiau eraill fel y Ddeddf Hawliau Dynol. Dywed yr UNCRDP bod yn rhaid trin Pobl Anabl yn gyfartal pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd. Nid yw'r manylion a geir yn yr UNCRDP ynglŷn â hawliau Pobl Anabl i gael eu trin yn gyfartal gan wasanaethau iechyd wedi eu cynnwys mewn unrhyw gyfraith arall.

3.3.8 Os nad ydych yn hoffi sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu rhedeg, gallwch ddefnyddio'r UNCRDP i wneud i gyrff cyhoeddus ailystyried. Gallwch ddefnyddio'r UNCRDP i ddadlau am fwy o ofodau parcio Bathodynnau Glas. Gallwch ei ddefnyddio i gwyno am ragfarn staff neu wahaniaethu personol yn eich erbyn. Gallwch hefyd ddefnyddio'r UNCRDP os ydych eisiau cwyno am amseroedd aros hir ar gyfer triniaethau iechyd. Os ydych eisiau cwyno am wasanaethau lleol yn bod yn wahaniaethol, yn gyntaf gweithiwch allan pa erthygl neu erthyglau'r UNCRDP sy'n berthnasol i'ch sefyllfa. Dywedwch wrth y corff cyhoeddus a'r wasg leol pam nad yw'r gwasanaeth cyhoeddus cystal ag y dylai fod oherwydd yr hyn a ddywed yr UNCRDP. Gallwch hefyd ddefnyddio'r rhyngrwyd i wneud yn siŵr bod pobl eraill yn gwybod am eich cwyn. Gallai hyn eich helpu chi drwy gael pobl eraill i gwyno hefyd. Pan fyddwch yn cwyno, dylech hefyd ddweud beth ddylai'r corff cyhoeddus ei wneud fel nad yw'n gwahaniaethu neu'n mynd yn groes i'r UNCRDP.

3.3.9 Mae'n groes i'r gyfraith os yw corff cyhoeddus yn torri gwasanaethau sy'n hanfodol i Bobl Anabl oherwydd bod hyn yn mynd yn groes i'r hyn a ddywed yr UNCRDP.

3.3.10 Os yw'n edrych fel petai toriadau'n mynd i fod i wasanaethau cyhoeddus lleol, cofiwch wneud y pwynt hwn am yr UNCRDP, yn gryf iawn.

3.3.11 Gellir hefyd ddefnyddio'r UNCRDP i ddadlau dros well gwasanaethau cyhoeddus os nad yw gwasanaethau ar hyn o bryd yn trin Pobl Anabl yn deg. Gallwch ofyn i'ch Cyngor lleol ddatgan yn gyhoeddus ei fod yn cefnogi'r UNCRDP. Er mwyn gwneud hyn, dylech ysgrifennu at Arweinydd y Cyngor ac Adran y Prif Weithredwr.

3.3.12 Os ydych eisiau cwyno am lywodraeth genedlaethol neu wasanaeth cyhoeddus cenedlaethol, mae angen i chi wneud yn siŵr bod gan y gwasanaeth gyfle teg i ddelio â'ch cwyn yn gyntaf. Os nad yw hyn yn gweithio, gallwch ofyn i Bwyllgor Anabledd y Cenhedloedd Unedig edrych ar eich cwyn.

3.3.13 Dywed Rhan Dau yr UNCRDP, a elwir y Protocol Dewisol, y gall y Pwyllgor edrych ar achosion unigol. Gall Pwyllgor Anabledd y Cenhedloedd Unedig hefyd ymchwilio i sefyllfaoedd lle mae llawer o bobl yn dweud bod y Llywodraeth yn gwneud rhywbeth sy'n torri'r UNCRDP.

3.3.14 Gall unrhyw unigolyn o wlad sydd wedi cytuno i'r Protocol Dewisol gysylltu â Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig. Gallwch ofyn i'r Pwyllgor edrych o'r newydd ar y broblem. Os yw'n cytuno gyda chi bod y gwasanaeth cyhoeddus rydych yn cwyno yn ei gylch yn torri'r UNCRDP, gall roi pwysau ar Lywodraeth y DU neu'r corff cyhoeddus dan sylw i newid beth mae'n ei wneud a rhoi'r gorau i wahaniaethu.

3.3.15 Mae'n rhaid i lywodraethau sydd wedi cytuno i ddefnyddio'r UNCRDP fel rhan o'u cyfraith, roi diweddariadau rheolaidd i Bwyllgor Anabledd y Cenhedloedd Unedig ynglŷn â'r hyn maent yn ei wneud i sicrhau eu bod yn cadw at yr UNCRDP. Bydd y diweddariadau hyn i'w gweld yn gyhoeddus ar y rhyngrwyd. http://www.ohchr.org/EN/HRBodies/CRPD/Pages/SPReports.aspx

3.3.16 Mae'r adran hon yn y pecyn wedi edrych ar, ac esbonio:

- Sut i ddefnyddio'r UNCRDP mewn ymgyrchoedd ac yn y llys
- Sut i gwyno wrth Bwyllgor Anabledd y Cenhedloedd Unedig gan ddefnyddio'r UNCRDP

## 3.4 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) – Adnoddau Defnyddiol

3.4.1 Adroddiad y DU ar yr UNCRDP a sut mae'n cael ei weithredu yn y DU:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/345120/uk-initial-report.pdf

3.4.2 Gwybodaeth am y Pwyllgor ar Hawliau Pobl sydd ag Anabledd (CRDP):

https://www.ohchr.org/EN/HRBodies/CRPD/Pages/QuestionsAnswers.aspx

3.4.3 Gwybodaeth am Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar gyfer hawliau pobl anabl yn y DU a'r adroddiadau thematig a gyhoeddwyd yn ddiweddar:

https://www.ohchr.org/en/issues/disability/srdisabilities/pages/srdisabilitiesindex.aspx

3.4.4 Canllaw'r EHRC ar gyfer yr UNCRDP a'r hyn mae'n ei olygu i Bobl Anabl:

https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/united-nations-convention-rights-persons-disabilities-what-does-it-mean-you



# 4 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI)

## 4.1 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) – Sylfeini

### 4.1.1 Beth ydyw?

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yn rhoi'r hawl i bawb wneud cais am wybodaeth gan awdurdodau lleol. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi gwybodaeth gyffredinol i chi am sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhedeg os gwnewch gais rhyddid gwybodaeth cywir.

### 4.1.2 Ar bwy mae'n effeithio?

Mae'r Ddeddf yn cwmpasu unrhyw wybodaeth sydd wedi'i chofnodi a ddelir gan awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a gan awdurdodau cyhoeddus DU gyfan sydd wedi'u lleoli yn yr Alban.

Mae awdurdodau cyhoeddus yn cynnwys adrannau llywodraeth, awdurdodau lleol, y GIG, ysgolion gwladol a heddluoedd. Mae gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi yn cynnwys dogfennau wedi'u hargraffu, ffeiliau cyfrifiadurol, llythyrau, negeseuon e-bost, ffotograffau, a recordiadau sain neu fideo.

### 4.1.3 Beth mae hyn yn ei olygu i Bobl Anabl?

Mae gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yn gallu bod yn ffordd dda i ofyn am y wybodaeth sydd ei hangen arnoch gan gorff cyhoeddus er mwyn dadlau eich achos neu wneud honiad.

O dan Ddeddf FOI mae gan unrhyw un yr hawl i ofyn i unrhyw gorff sector cyhoeddus am y wybodaeth sydd wedi'i chofnodi sydd ganddynt am unrhyw bwnc. Gall ceisiadau FOI ddangos faint o arian sydd wedi'i wario, beth mae corff cyhoeddus wedi'i wneud neu beth mae'n bwriadu ei wneud.

## 4.2 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) – Gwybod eich Hawliau

4.2.1 Mae Adran 4.3 y pecyn hwn yn ymwneud â FOI. Mae'n edrych ar sut i ofyn cwestiwn o dan Ddeddf FOI wrth baratoi dadl neu achos o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.

4.2.2 Gall gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth (FOI) fod yn ffordd dda i ofyn am y wybodaeth sydd ei hangen arnoch gan gorff cyhoeddus er mwyn dadlau eich achos neu wneud honiad o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (EA), Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a/neu Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP). O dan Ddeddf FOI mae gan unrhyw un yr hawl i ofyn i unrhyw gorff sector cyhoeddus am y wybodaeth sydd wedi'i chofnodi sydd ganddynt am unrhyw bwnc. Nid oes cyfyngiadau ar oedran, cenedligrwydd neu lle rydych yn byw. Os ydych yn gofyn am wybodaeth amdanoch eich hun, ymdrinnir â'ch cais o dan y Ddeddf Diogelu Gwybodaeth ac nid y Ddeddf FOI.

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus roi gwybodaeth gyffredinol i chi ynglŷn â sut y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu rhedeg a'u darparu os ydych yn gwneud cais FOI cywir.

Gall cyrff cyhoeddus wrthod ateb eich cwestiynau os byddai gwneud hynny'n golygu y byddai'n rhaid i wybodaeth breifat rhywun arall gael ei rhannu â chi. Gallant wrthod ateb eich cwestiynau pe byddai'n rhaid iddynt dorri'r gyfraith er mwyn eu hateb. Gall ceisiadau FOI ddangos sut mae arian wedi'i wario, beth mae corff cyhoeddus wedi'i wneud neu beth mae'n bwriadu ei wneud.

4.2.3 Mae'r adran hon yn y pecyn wedi edrych ar, ac esbonio:

- Beth yw'r Ddeddf FOI a
- Sut i ofyn cwestiynau Deddf FOI

## 4.3 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) – Defnyddio eich Hawliau

4.3.1 Mae adran hon y pecyn yn egluro y gallwch ofyn o gyrff cyhoeddus roi gwybodaeth i chi a fydd yn eich helpu i ddadlau eich achos o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (EA), Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) a chyfreithiau eraill. Bydd gwneud hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod y wybodaeth rydych chi'n ei defnyddio mewn ymgyrchoedd neu mewn llys yn gyfoes a'i bod yn ymwneud â'r union wasanaeth sy'n gwahaniaethu.

Gallwch ofyn sut mae cyrff cyhoeddus yn talu am wasanaethau a faint o arian maent yn ei wario ar wasanaeth. Gallwch hefyd ofyn sut mae gwasanaeth yn cael ei redeg a sut mae corff cyhoeddus wedi penderfynu pa rannau o'i wasanaethau sydd fwyaf pwysig.

4.3.2 Er mwyn gofyn am y pethau hyn wrth gorff cyhoeddus, mae angen i chi wneud cais Rhyddid Gwybodaeth (FOI). Gallwch wneud hyn drwy e-bost neu mewn llythyr.

Wrth wneud cais FOI, dylech gynnwys:

- Eich enw
- Cyfeiriad lle gellir cysylltu â chi
- Esboniad manwl o'r wybodaeth rydych am ei chael

4.3.3 Dylech fod mor glir a manwl â phosibl wrth egluro pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Cofiwch, bydd cyrff cyhoeddus ond yn gallu dweud wrthych am wasanaethau y maen nhw'n eu darparu.

4.3.4 Weithiau gellir gwneud cais FOI am ddim. Bydd cyrff cyhoeddus yn dweud wrthych os oes yn rhaid i chi dalu rhywfaint am eu costau, gan gynnwys amser staff, postio, llungopïo ac ati.

4.3.5 Dylech gael yr holl wybodaeth rydych wedi gofyn amdani o fewn 4 wythnos i wneud eich cais. Os bydd angen rhagor o amser ar y corff cyhoeddus i ddod o hyd i'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, bydd yn cysylltu â chi ac yn rhoi gwybod i chi faint o amser a gymer i ateb eich cais FOI.

4.3.6 Dylech ofyn i'r corff cyhoeddus ateb eich cais FOI yn y ffordd sydd orau gennych i chi. Os ydych am i'ch ateb fod mewn Braille, fformat Hawdd ei Ddeall, mewn print bras neu drwy e-bost, dylai'r corff cyhoeddus wneud hyn. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (EA), Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED), Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP) i gyd yn dweud y dylai cyrff cyhoeddus fod yn barod i ysgrifennu at Bobl Anabl gan ddefnyddio'r fformat sydd orau ganddynt hwy. Mae hyn yn golygu bod y gyfraith yn dweud bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus yn arbennig wneud yn siŵr eu bod yn trin Pobl Anabl yn gyfartal. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwybodaeth yn hygyrch i Bobl Anabl.

4.3.7 Os ydych chi eisiau gwneud cais FOI i adran llywodraeth, asiantaeth llywodraeth neu gorff cyhoeddus arall, fe welwch eu manylion cyswllt isod: [https://www.gov.uk/government/organisations](https://www.gov.uk/government/organisations)

4.3.8 Gallech wirio i weld a yw'r sefydliad rydych yn gwneud cais FOI iddo wedi rhoi'r wybodaeth yn ddiweddar gan fod rhywun arall eisoes wedi gofyn amdani. Efallai y bydd cyrff cyhoeddus yn rhannu'r math hon o wybodaeth ar eu gwefan. Gallwch ofyn am i'r holl wybodaeth a ddefnyddiwyd i ateb eich cais FOI gael ei rhoi i chi gydag enwau a manylion preifat eraill unigolion wedi'u tynnu allan. Gallwch ofyn i'r prif bwyntiau gael eu rhoi i chi yn hytrach na'r holl wybodaeth. Bydd sut rydych eisiau defnyddio'r wybodaeth a gewch yn eich helpu i benderfynu faint o wybodaeth i ofyn amdani.

4.3.9 Os ydych eisiau rhannu'r wybodaeth a gewch gan gorff cyhoeddus gyda phobl eraill, bydd angen ei chi ofyn i'r corff cyhoeddus a yw'n cytuno i hyn ddigwydd. Mae hyn oherwydd efallai bod y wybodaeth yn perthyn dim ond i'r corff cyhoeddus ac y bydd yn dod o dan hawlfraint.

4.3.10 Ni ddylai corff cyhoeddus wrthod cais rhesymol gennych i rannu gyda phobl eraill unrhyw beth y mae eisoes wedi'i rannu gyda chi. Mae hyn oherwydd ei fod wedi'i rhoi i chi ac rydych chi'n aelod o'r cyhoedd.

4.3.11 Dylai bod gan gyrff cyhoeddus wybodaeth ar eu gwefannau ac ar eu desgiau derbynfa ynglŷn â sut i wneud cais FOI. Gellir defnyddio atebion i geisiadau FOI er mwyn dadlau eich achos yn erbyn gwahaniaethu. Os yw'r wybodaeth a gewch drwy eich cais FOI yn eich helpu i brofi eich pwynt ynglŷn â gwahaniaethu, gallwch ddefnyddio'r ateb i ddadlau am newid yn sut y caiff gwasanaethau eu cynnal fel bod Pobl Anabl yn cael eu trin yn gyfartal yn y dyfodol.

4.3.12 Mae gan gyrff cyhoeddus beth gwybodaeth na allant ei rhannu. Gall hyn fod oherwydd ei bod yn breifat i unigolion, megis enwau a chyfeiriadau pobl. Enghraifft arall o'r math hon o wybodaeth fyddai manylion contractau sydd gan gorff cyhoeddus. Gallai rhai o'r rhain fod yn breifat oherwydd nad yw'r corff cyhoeddus am i bobl eraill sy'n darparu'r un gwasanaeth wybod beth ddywed y contract. Ni ellir cael y math hon o wybodaeth drwy wneud cais FOI.

4.3.13 Os na fydd corff cyhoeddus yn rhywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, rhaid iddo ddweud wrthych y rheswm am hynny.

4.3.14 Gall corff cyhoeddus wrthod eich cais os yw'n meddwl y bydd yn costio mwy na £450 (£600 ar gyfer Sefydliadau Llywodraeth Ganolog) i ddelio â'ch cais. Efallai y bydd yn gofyn i chi ddweud mewn rhagor o fanylder pa wybodaeth rydych am ei chael. Efallai y bydd yn gwneud hyn fel y gall ateb eich cwestiynau heb dreulio gormod o arian i ganfod yr atebion.

4.3.15 Os nad yw corff cyhoeddus yn ateb eich cais FOI, dylech yn gyntaf gysylltu af ef a gofyn iddo pam nad yw wedi ateb. Os nad ydych yn fodlon â'r rheswm a gewch ganddo, gallwch gwyno wrth swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. I ddysgu mwy am wneud hyn: http://www.ico.org.uk/complaints

4.3.16 Cofiwch, gellir defnyddio'r Ddeddf Diogelu Data ac nid y Ddeddf FOI i ddod o hyd i wybodaeth amdanoch eich hun. Er enghraifft, dyma wybodaeth a gedwir gan eich cyflogwr yn ei adran personél, eich meddyg neu'ch banc. Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn bodoli fel y gall pobl ofyn cwestiynau ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn yr amgylchedd lleol. Mae'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn wahanol i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Yn dibynnu ar beth yw eich cais, mae angen i chi ofyn cwestiynau gan ddefnyddio'r gyfraith gywir.

## 4.4 FreeDeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOI) – Adnoddau Defnyddiol

4.4.1 Mae gan Lywodraeth y DU restr o adrannau llywodraeth, asiantaethau llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill. Rhestrir eu manylion cyswllt yma:

https://www.gov.uk/government/organisations

4.4.2 Gellir gweld gwybodaeth am y Comisiynydd Gwybodaeth a sut i wneud cwynion am gyrff cyhoeddus yma:

http://www.ico.org.uk/complaints

4.4.3 Mae gan yr elusen Cerebra lawer o dempledi defnyddiol, gan gynnwys un ar gyfer gwneud cais am wybodaeth o dan Ddeddf FOI:

https://cerebra.org.uk/download/we-want-to-ask-for-information-under-the-freedom-of-information-act/



# 5 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED)

## 5.1 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) – Sylfeini

### 5.1.1 Beth ydyw?

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (a adnabyddir hefyd fel 'SED') yn rhan o ddeddfwriaeth y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a bydd yn dod i rym ar 31 Mawrth 2021.

Mae pobl y mae eu cyfoeth yn isel neu sydd â dim incwm, neu sy'n byw mewn ardal o amddifadedd, 'dan anfantais economaidd-gymdeithasol'. Oherwydd yr anfantais yma byddant fel arfer yn gweld canlyniadau gwaeth, megis disgwyliad oes byrrach, iechyd gwaeth, neu ddim yn cyflawni cymaint ag eraill o ran addysg.

Nod SED yw rhoi gwell canlyniadau i bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Drwy ei gwneud hi'n gyfraith bod yn rhaid i rai cyrff cyhoeddus penodol ystyried sut y gallant leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

### 5.1.2 Ar bwy mae'n effeithio?

Y cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan SED yw:

- Gweinidogion Cymru
- Awdurdodau lleol
- Byrddau iechyd lleol
- Ymddiriedolaethau GIG
- Awdurdodau iechyd arbennig (sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig)
- Awdurdodau tân ac achub
- Awdurdodau parc cenedlaethol
- Awdurdod refeniw Cymru

### 5.1.3 Beth mae hyn yn ei olygu i Bobl Anabl?

Mae Pobl Anabl yn fwy tebygol na phobl sydd ddim yn anabl i fod dan anfantais economaidd-gymdeithasol oherwydd cyfraddau uwch o dlodi a diweithdra [3]. Felly mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried sut mae anableddau (a nodweddion gwarchodedig eraill) yn croestorri gydag anfantais economaidd-gymdeithasol.

---

3 Putz, C (2021). Outcomes for disabled people in the UK: 2020 [ar-lein]. Ar gael o https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/disability/articles/outcomesfordisabledpeopleintheuk/2020#employment. Cyrchwyd 23 Ebrill 20212021

Wrth wneud penderfyniadau pwysig dylai'r cyrff cyhoeddus a ddaw o dan y Ddyletswydd ymgynghori ac ymgysylltu â'r cymunedau y bydd eu penderfyniadau yn effeithio arnynt i ddeall eu gofynion a'u barn.

Os effeithiwyd yn anffafriol arnoch mewn gan benderfyniad corff cyhoeddus oherwydd nad yw wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd, gallwch ddatrys eich pryderon gan ddefnyddio gweithdrefn cwynion ffurfiol y corff perthnasol. Os na fydd hyn yn llwyddiannus, efallai y gallwch ddwyn hawliad adolygiad barnwrol yn erbyn yr awdurdod dan sylw.

## 5.2 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) – Gwybod eich Hawliau

5.2.1 Mae Adran 5.3 y pecyn yn ymwneud â'r Ddeddf Cydraddoldeb (EA). Mae'n edrych yn benodol ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED), sy'n rhan o'r EA.

### 5.2.2 Cefndir y SED

5.2.3 Roedd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn rhan o'r EA, ond pan ddeddfwyd EA ni ddaeth SED i rym ar unwaith. Rhoddwyd y pŵer i Gymru ddechrau SED yn 2017, a dechreuwyd y Ddyletswydd gyfreithiol ar 31 Mawrth 2021.



Y nod cyffredinol yw rhoi gwell canlyniadau i bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

5.2.4 Mae SED yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddyletswydd roi ystyriaeth ddyledus, pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol, i sut y gallai eu penderfyniadau leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn nogfen Canllawiau Statudol SED, 'Penderfyniadau strategol' yw penderfyniadau sy'n effeithio ar sut y mae corff cyhoeddus yn cyflawni ei ddiben (er enghraifft penderfyniadau am bolisïau allweddol, gosod amcanion neu ddarparu gwasanaeth a chynlluniau gwella). Nid yw'n cynnwys penderfyniadau 'pob dydd'. Mae'r Ddyletswydd yn berthnasol o benderfyniadau strategol newydd ac wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol.

Ystyr 'ystyriaeth ddyledus' yw ystyriaeth briodol i faterion sy'n gymesur i pa mor berthnasol yw'r materion hynny.

Golyga 'anfantais economaidd-gymdeithasol' byw mewn amgylchiadau economaidd a chymdeithasol lai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas. Er enghraifft, gallai olygu bod heb ddigon o arian i ddiwallu anghenion sylfaenol megis rhent, bwyd a thrafnidiaeth, neu gallai olygu byw mewn cymunedau o amddifadedd, neu fod heb fynediad at yr un cyfleoedd o ran addysg â phobl eraill.

Felly, mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried sut y bydd unrhyw benderfyniadau mawr y maent yn eu gwneud, megis llunio polisïau allweddol newydd, yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar bobl, ac a fydd eu penderfyniadau'n cael effaith wahanol ar bobl oherwydd eu statws economaidd-gymdeithasol.

5.2.5 Y cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan SED yw:

- Gweinidogion Cymru
- Awdurdodau lleol
- Byrddau iechyd lleol
- Ymddiriedolaethau GIG
- Awdurdodau iechyd arbennig (sy'n gweithredu yng Nghymru yn unig)
- Awdurdodau tân ac achub
- Awdurdodau parc cenedlaethol
- Awdurdod refeniw Cymru

Dim ond y cyrff cyhoeddus hyn sydd wedi'u rhwymo gan y Ddyletswydd, felly os ydynt yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu'n rhoi gwaith allan ar gontract neu'n comisiynu gwaith, nid yw'r Ddyletswydd yn berthnasol i'r sefydliad/au partner neu drydydd parti y maent wedi'i gomisiynu.

5.2.6 Dylai cyrff cyhoeddus ddarparu tystiolaeth i brofi eu bod wedi ystyried sut y maent yn bodloni eu gofynion statudol o dan y Ddyletswydd. Gallant benderfynu sut y byddant yn darparu tystiolaeth, ond mae'r canllawiau statudol yn annog defnyddio systemau sy'n bodoli'n barod, megis asesiadau.

## 5.3 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) – Defnyddio eich Hawliau

5.3.1 Mae'r adran hon yn ymdrin â'r hyn y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ei wneud er mwyn cyflawni eu Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED). Mae'n edrych yn benodol ar sut y bydd y Ddyletswydd hon yn effeithio ar Bobl Anabl.

5.3.2 Mae Pobl Anabl yn fwy tebygol na phobl sydd ddim yn anabl i fod dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Felly mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried sut y mae Anableddau (a nodweddion gwarchodedig eraill) yn croestorri gydag anfantais economaidd-gymdeithasol.

5.3.3 Dylai cyrff cyhoeddus gasglu tystiolaeth eu bod yn cyflawni'r ddyletswydd ac fe'u hanogir i wneud hyn drwy ddefnyddio dulliau sydd eisoes wedi cael eu sefydlu, megis Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

5.3.4 Dylai cyrff cyhoeddus ymgysylltu â'r grwpiau yr effeithir arnynt gan y penderfyniad ac ystyried cymunedau a lleoedd sy'n debygol o gael eu heffeithio arnynt. Felly gall DPOau helpu cyrff cyhoeddus i ddeall pa effaith y bydd eu penderfyniad yn ei gael ar gymunedau anabl, ac a fydd yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar Bobl Anabl sy'n byw mewn tlodi.

5.3.5 Nid yw'r SED yn creu hawliau newydd ar gyfer unigolion y gellir eu penderfynu gan lys barn (hawliau barnwrol). Fodd bynnag, unwaith y bydd y ddyletswydd ar waith, os bydd corff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddyletswydd yn methu a chyflawni'r Ddyletswydd, efallai y gall unigolyn neu grŵp y mae eu buddiannau'n cael eu heffeithio arnynt mewn modd anffafriol gan benderfyniad y corff cyhoeddus, yn gallu dwyn hawliad am adolygiad barnwrol yn erbyn yr awdurdod.

Mae hyn yn golygu os na all corff cyhoeddus perthnasol ddarparu tystiolaeth eu bod wedi cyflawni'r Ddyletswydd ac wedi ystyried sydd y bydd eu penderfyniadau strategol yn effeithio ar Bobl Anabl, gallwch herio'r awdurdod a wnaeth y penderfyniadau hynny mewn llys bod ei benderfyniad yn anghyfreithlon gan nad oedd wedi cyflawni ei Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

5.3.6 Gan nad yw statws economaidd-gymdeithasol yn nodwedd warchodedig yn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), nid oes gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) y grym i orfodi awdurdodau i gyflawni eu dyletswyddau economaidd-gymdeithasol.

Nid oes gan yr EHRC y grym i ddarparu cyngor ac arweiniad i gyrff cyhoeddus ar weithredu'r SED, ac os bydd awdurdod yn methu yn ei ddyletswydd, efallai y bydd yr EHRC yn cefnogi unigolyn neu grŵp gyda her.

5.3.7 Edrychodd adran hon y pecyn ar:

- Sut y mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn effeithio ar Bobl Anabl a
- Sut y gall y llysoedd a'r EHRC helpu Pobl Anabl i herio penderfyniadau

## 5.4 Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (SED) – Adnoddau defnyddiol

5.4.1 Atebion Llywodraeth Cymru i Gwestiynau Cyffredin ynglŷn â'r SED:

https://gov.wales/socio-economic-duty-overview

5.4.2 Ffeithlen fer Llywodraeth Cymru ar SED:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-07/commencing-socio-economic-duty-factsheet.pdf

5.4.3 Canllaw gwybodaeth byr Llywodraeth Cymru:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-10/socio-economic-duty-supporting-information_0.pdf

5.4.4 Y dogfennau ymgynghori a ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru i'w helpu i ysgrifennu polisi SED, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:

https://gov.wales/equality-act-2010-commencing-socio-economic-duty

5.4.5 Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru:

https://gov.wales/socio-economic-duty

5.4.6 Ffilm animeiddiad Llywodraeth Cymru:

https://gov.wales/more-equal-wales-socio-economic-duty

5.4.7 Dolen Llywodraeth Cymru i brofiadau bywyd:

https://www.youtube.com/playlist?list=PLHBVoCVw4X-ZRI-dozMDNNT4hfdfb3EBKq



# 6 Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Deddf LICD)

## 6.1 Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) – Sylfeini

### 6.1.1 Beth ydyw?

Nod Deddf LlCD yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy wneud i rai cyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor a gweithio'n well gyda phobl a chymunedau. Mae'n dweud bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ystyried pobl nawr a phobl yn y dyfodol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau

Mae saith nod llesiant yn y gyfraith y mae'n rhaid i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf gyfrannu atynt:

1. Cymru ffyniannus
2. Cymru gydnerth
3. Cymru iachach
4. Cymru sy'n fwy cyfartal
5. Cymru o gymunedau cydlynus
6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gyfrannu cymaint ag y gallant i gyflawni'r saith nod llesiant drwy gynnwys y gymuned leol er mwyn deall y materion y mae'n eu hwynebu a pheidio â gwneud pethau'n sydyn nawr a fydd yn cael effaith negyddol ar genedlaethau'r dyfodol. Hwn yw'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'.

### 6.1.2 Ar bwy mae'n effeithio?

Mae 44 o gyrff cyhoeddus a gwmpesir gan y Ddeddf:

- Gweinidogion Cymru
- Awdurdodau lleol
- Byrddau iechyd lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Awdurdodau parc cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru

### 6.1.3 Beth mae'n ei olygu i Bobl Anabl?

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gynnwys Pobl Anabl er mwyn deall y materion a wynebir gan Bobl Anabl fel y gallant wneud penderfyniadau gwell.

Rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau fod y bobl y maent yn eu cynnwys mewn gwneud penderfyniadau yn adlewyrchu'r boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu a chynnwys grwpiau mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt. Felly, mae'n rhaid iddynt gynnwys Pobl Anabl mewn gweithio tuag at y nodau llesiant ac mewn penderfyniadau a allai newid y gwasanaethau a ddarperir iddynt. Dylent hefyd gynnwys Pobl Anabl yn y penderfyniadau ynglŷn â sut y caiff asedau eu rheoli fel y gellir eu defnyddio er budd y gymuned Anabl.

## 6.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) – Gwybod eich Hawliau

6.2.1 Mae Adran 6.3 yn ymwneud â Deddf LlCD. Mae'n edrych yn benodol ar beth sy'n rhaid i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus ei wneud er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried buddiannau Pobl Anabl.

### 6.2.2 Cefndir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

6.2.3 Cafodd Deddf LlCD ei phasio yn 2015 a dechreuodd y ddyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2016. Ei diben yw gwneud i gyrff cyhoeddus a byrddau gwasanaethau cyhoeddus gydweithio ac ystyried saith nod llesiant pan fyddant yn gwneud penderfyniadau a meddwl am yr hirdymor yn ogystal â'r tymor byr.

## 6.2.4 Saith Nod Llesiant

6.2.5 Y saith nod llesiant yw:

1. Cymru ffyniannus

   Cymdeithas arloesol a chynhyrchiol sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn datblygu economi iach a phoblogaeth sydd wedi'i haddysgu'n dda.

2. Cymru gydnerth

   Cenedl sydd ag amgylchedd naturiol amrywiol ac ecosystemau iach a gweithredol.

3. Cymru iachach

   Cymdeithas sy'n gofalu am les meddyliol a chorfforol pobl, a lle caiff dewisiadau ac ymddygiadau sy'n effeithio ar y dyfodol eu deall.

4. Cymru sy'n fwy cyfartal

   Cymdeithas sy'n helpu pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau.

5. Cymru o gymunedau cydlynus

   Cymdeithas sydd â chymunedau diogel ac wedi'u cysylltu'n dda.

6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

   Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant a threftadaeth ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau ac mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

   Cenedl sy'n rhoi ystyriaeth i a yw ei phenderfyniadau ynglŷn â gwella llesiant Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang yn ogystal.

Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried yr holl nodau llesiant pan fyddant yn cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau.

6.2.6 Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol wrth wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod iechyd meddwl a chorfforol pobl yn cael ei warchod. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod gan bawb siawns i fyw mewn cymuned ddiogel lle maent wedi'u cysylltu i bobl eraill ac y gall pobl gyflawni eu potensial waeth a oes ganddynt amhariad neu faterion iechyd ai peidio.

Eglurir sut y mae nodau llesiant yn effeithio ar Bobl Anabl isod:

| Nod Llesiant | Sut mae'n effeithio ar Bobl Anabl |
|---|---|
| Cymru ffyniannus | Mae Pobl Anabl yn aml yn cael trafferthion i ddod o hyd i waith neu barhau mewn addysg. Bydd y nod hwn yn helpu pobl yng Nghymru i ddatblygu sgiliau a rhoi'r cyfle i bawb gael addysg a chyflogaeth. |
| Cymru gydnerth | Mae'r nod hwn yn golygu y gofalir am fioamrywiaeth Cymru ac y gall Cymru addasu i bethau fel newid yn yr hinsawdd. Mae cael mynediad at natur yn bwysig iawn i iechyd meddyliol a chorfforol pobl. |
| Cymru iachach | Mae'r nod hwn yn sicrhau y gofalir am les meddyliol a chorfforol pobl. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Diben y nod hwn yw helpu pobl i gyflawni eu potensial – boed eu bod yn Anabl neu beidio, dylid galluogi pawb i wneud eu gorau. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Yn aml bydd yn rhaid i Bobl Anabl frwydro i gael byw'n annibynnol a chael tai hygyrch. Mae'r hod hwn yn gwneud yn siŵr y gall pobl fyw mewn cymunedau sy'n ddiogel, lle maent wedi'u cysylltu i bobl eraill. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae Iaith Arwyddion Prydain a hefyd arwyddion Cymraeg yn rhan bwysig o ddiwylliant ac iaith Cymru. Mae'r nod hwn yn golygu y dylent gael ei gwarchod a'u hyrwyddo. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Mae'r nod hwn yn golygu y caiff llesiant pobl y tu allan i Gymru (gan gynnwys y Gymuned Anabl yn fyd-eang) ei ystyried pan wneir penderfyniadau am lesiant Cymru. |

### 6.2.7 Cyrff a gwmpesir gan Ddeddf LlCD

6.2.8 Y cyrff a gwmpesir gan y Ddeddf yw:

- Awdurdodau lleol
- Byrddau iechyd lleol
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Awdurdodau parc cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Gweinidogion Cymru

6.2.9 Mae byrddau gwasanaethau cyhoeddus (BGCau) yn cynnwys cynrychiolwyr o'r cyngor lleol, y bwrdd iechyd, gwasanaethau tân ac achub, a Chyfoeth Naturiol Cymru. Rhaid iddynt asesu cyflwr llesiant yn yr ardal a chreu cynllun llesiant lleol er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal.

O dan Adran 40 Deddf LlCD rhaid i gynghorau cymuned lleol sydd wedi cael incwm gros neu wariant gros sy'n cyfateb i o leiaf £200,000 ar gyfer y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf (cyn y cyhoeddwyd y cynllun llesiant lleol yn eu hardal) gymryd pob cam rhesymol tuag at fodloni'r amcanion lleol a osodwyd gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus.

### 6.2.10 Dyletswydd llesiant

6.2.11 Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd y bydd disgwyl i gyrff cyhoeddus ei chyflawni. Dywed y ddyletswydd llesiant bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus gynnal datblygiad cynaliadwy. Rhaid i hyn gynnwys gosod 'amcanion llesiant' a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion y maent wedi'u gosod.

Golyga hyn bod yn rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn gwneud hyn rhaid iddynt osod a chyhoeddi amcanion llesiant i ddangos sut y byddant yn gweithio i weithredu er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cyflawni'r amcanion.

6.2.12 Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad llesiant sy'n egluro beth yw eu hamcanion llesiant a pham eu bod yn teimlo y bydd yr amcanion hynny yn eu helpu i gyfrannu cymaint ag y gallant i'r nodau llesiant. Rhaid iddynt hefyd egluro sut y maent wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rhaid i bob BGC baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni (yr enw ar hwn yw cynllun llesiant).

6.2.13 Mae gan rai cynghorau cymuned a thref ddyletswydd i wneud yr hyn y gallant i gyflawni eu hamcanion llesiant lleol. Rhaid i'r cynghorau hyn gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn sy'n rhoi manylion eu cynnydd o ran cyflawni'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun llesiant lleol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

Trafodir hyn ymhellach yn adran 6.3.7.

## 6.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) – Defnyddio eich Hawliau

6.3.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â beth mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio tuag at y nodau llesiant. Mae'n edrych yn benodol ar sut y mae'n rhaid iddynt roi ystyriaeth i ofynion Pobl Anabl (a grwpiau lleiafrifol eraill) pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

### 6.3.2 Cynnwys Pobl Anabl fel Cymuned

6.3.3 Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy'. Mae hyn yn golygu gweithio mewn modd sy'n cynnwys y gymuned leol er mwyn deall y materion y mae'n eu hwynebu ac nid yw'n gwneud pethau sydyn nawr a fydd yn cael effaith negyddol ar anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ‘pum ffordd o weithio’ ar gyfer yr egwyddor datblygu cynaliadwy:

1. **Hirdymor** - Edrych i’r hirdymor fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain
2. **Integreiddio -** Defnyddio dull integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion o ran llesiant
3. **Cynnwys -** Cynnwys amrywiaeth o’r boblogaeth mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt hwy
4. **Cydweithredu -** Gweithio gydag eraill mewn modd cydweithredol i ganfod atebion cynaliadwy a rennir
5. **Atal -** Deall achos creiddiol broblemau er mwyn eu hatal rhag digwydd

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus gynnwys Pobl Anabl er mwyn deall y materion a wynebir ganddynt fel y gallant wneud penderfyniadau da i atal y materion y mae Pobl Anabl yn eu hwynebu a’u galluogi i gyflawni eu potensial.

6.3.4 Rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau bod y bobl y maent yn eu cynnwys yn adlewyrchu’r boblogaeth y maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn golygu cynnwys y bobl a’r cymunedau y maent yn ceisio gwella eu llesiant a rhaid iddynt ystyried y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau’r dyfodol.

Felly mae’n rhaid iddynt gynnwys Pobl Anabl mewn gweithio tuag at nodau llesiant, ac mewn penderfyniadau a allai newid y gwasanaethau a ddarperir iddynt. Dylent hefyd gynnwys Pobl Anabl mewn penderfyniadau ynglŷn â sut mae asedau’n cael eu rheoli fel y gellid eu defnyddio er budd y gymuned Anabl.

6.3.5 Mae'r Ddeddf LlCD yn annog cyrff cyhoeddus i chwilio am grwpiau cynrychioliadol a fydd yn gallu eu cynghori ynglŷn ag anghenion y gymuned.

Gall Sefydliadau Pobl Anabl (DPOau) eu helpu i benderfynu pa newidiadau sy'n bwysig. Gallant gael barn Pobl Anabl am benderfyniadau y mae'r cyrff cyhoeddus yn eu gwneud a defnyddio'r wybodaeth hon i gynghori cyrff cyhoeddus ynglŷn â sut y gallant gyflawni eu nodau llesiant ar gyfer Cymru iachach a mwy cyfartal.

### 6.3.6 Bod yn atebol

6.3.7 O dan y Ddeddf LlCD mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ddweud wrth bobl beth maent yn mynd i'w wneud i gyfrannu cymaint ag y gallant at y nodau llesiant a dangos y cynnydd maent wedi'i wneud o ran eu cyflawni. Mae gofyn iddynt wneud hyn drwy gyhoeddi datganiad llesiant sy'n egluro pam eu bod wedi gwneud y penderfyniadau a wnaethant a pha wahaniaeth wnaeth hynny.

Mae gofyn iddynt hefyd gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn yn dangos y cynnydd maent wedi'i wneud mewn cyflawni eu hamcanion.

Gallai'r datganiad llesiant ac adroddiad blynyddol gael eu defnyddio gan Bobl Anabl i ddangos nad yw corff cyhoeddus wedi cyflawni ei amcanion, neu nad yw wedi ystyried yn briodol ofynion Pobl Anabl.

6.3.8 Mae Deddf LlCD yn cyflwyno rôl newydd, sef Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Dyletswydd gyffredinol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio), ac yn arbennig gweithredu fel gwarchodwr gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau y maent yn eu gwneud. Er mwyn gwneud hyn gall y Comisiynydd fonitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni. Gall y Comisiynydd gynnal adolygiad a gwneud argymhellion y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i'w dilyn.

6.3.9 Mae adran hon y pecyn wedi edrych ar:

- Sut mae'r nodau llesiant yn effeithio ar Bobl Anabl a
- Sut mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried mewnbwn Pobl Anabl

## 6.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) – Adnoddau Defnyddiol

6.4.1 Canllaw byr Llywodraeth Cymru i Ddeddf LlCD sy'n cwmpasu'r 'Yr Hanfodion':

https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/02/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf

6.4.2 Canllaw Llywodraeth Cymru i Ddeddf LlCD ar gyfer pobl ifanc:

https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/160401-wfg-accessible-guide-for-young-people-en.pdf

6.4.3 Canllaw Llywodraeth Cymru i Ddeddf LlCD sy'n fersiwn 'Hawdd ei Deall':

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/easy-read-a-guide-to-the-wellbeing-of-future-generations-act.pdf

6.4.4 Cymru a'r Nodau Datblygu Cynaliadwy:

https://gov.wales/uk-voluntary-national-review-welsh-supplementary-report-2019

6.4.5 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru:

https://www.futuregenerations.wales/

6.4.6 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - Gwiriwr Taith:

https://www.futuregenerations.wales/journey-checker-involvement/



# 7 Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Deddf GCLl)

## 7.1 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLl) – Sylfeini

### 7.1.1 Beth ydyw?

Nodau Deddf GCLl yw trawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n rhoi fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

Fe'i cefnogir gan 'Godau Ymarfer' a 'Rheoliadau', sy'n rhoi mwy o fanylion ynglŷn â sut mae'r rheolau'n gweithio yng Nghymru ac maent wedi'u diweddaru ers i'r Ddeddf gael ei chyflwyno.

Mae pedair prif egwyddor i'r Ddeddf:

1. Llais a rheolaeth – rhoi'r unigolion sydd angen cefnogaeth wrth wraidd eu gofal, a rhoi llais a rheolaeth iddynt dros eu llesiant
2. Atal ac ymyrryd yn gynnar – cynyddu gwasanaethau mewn cymunedau er mwyn datrys problemau cyn eu bod yn dod yn rhai brys
3. Llesiant - cefnogi unigolion fel eu bod yn hapus, iach a chyfforddus gyda'u bywyd a'r hyn maent yn ei wneud
4. Cyd-gynhyrchu - annog unigolion sydd angen cefnogaeth i gymryd mwy o ran yn y broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau

### 7.1.2 Ar bwy mae'n effeithio?

Mae'r Ddeddf yn cwmpasu pob agwedd ar wasanaethau cymdeithasol a'i nod yw gwneud yn siŵr bod unrhyw un sydd angen gofal a chefnogaeth (gan gynnwys gofalwyr) yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'n canolbwyntio ar yr hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud i gyflawni hyn ond mae hefyd yn cynnwys byrddau iechyd lleol.

### 7.1.3 Beth mae'n ei olygu i Bobl Anabl?

Rhaid i fyrddau partneriaeth rhanbarthol (sy'n gwneud penderfyniadau am asesiadau anghenion a chynlluniau awdurdodau lleol) gynnwys cynrychiolwyr ar gyfer budd pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, darparwyr gofal, a sefydliadau trydydd sector yn yr ardal.

Rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiadau i ganfod a oes angen cefnogaeth ar berson a beth yw'r gofynion hynny. Pan fyddant yn gwneud hyn rhaid iddynt ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r person, yn ogystal â'i ddiwylliant a'i gredoau.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer y Ddeddf yn amlinellu rhai 'meini prawf cymhwyster' sy'n golygu bod person yn awtomatig yn gymwys ar gyfer gofal a chefnogaeth.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno rheolau newydd am godi tâl sy'n golygu y gall awdurdodau lleol godi tâl ar bobl am y gofal a'r gefnogaeth y gwnaethant ei derbyn, yn seiliedig ar asesiad ariannol.

Mae hefyd yn rhoi'r hawl i bobl gael eiriolwr, sy'n gallu eu helpu i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag bod yn rhan lawn mewn cynllunio eu gofal.

## 7.2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLl) – Gwybod eich Hawliau

7.2.1 Mae Adran 7.3 is yn ymwneud â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Deddf GCLl). Mae'n edrych yn benodol ar sut y gall Pobl Anabl ddefnyddio'r Ddeddf.

### 7.2.2 Cefndir Deddf GCLl

7.2.3 Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Deddf GCLl) yn gyfraith ym mis Ebrill 2016. Ei bwriad yw moderneiddio a dwyn ynghyd gyfreithiau gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Ei nod yw newid y sector gwasanaethau cymdeithasol fel bod gan bobl fwy o reolaeth dros pa gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ac y gallant wneud dewisiadau am eu gofal fel partner cydradd. Ei nod hefyd yw sicrhau bod gan ofalwyr hawliau cyfartal i asesiad ar gyfer cefnogaeth.

Nod y Ddeddf yw gwella diogelu, a sicrhau bod gan bawb fynediad at wybodaeth a chyngor. Mae wedi'i bwriadu i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth mewn modd sy'n atal materion yn hytrach na delio â nhw wedi iddynt ddigwydd.

### 7.2.4 Y Ddeddf

7.2.5 Mae pedair prif egwyddor i'r Ddeddf:

1. **Llais a rheolaeth** – mae hyn yn ymwneud â rhoi'r unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth wrth wraidd eu gofal. Mae hefyd yn golygu rhoi llais a rheolaeth iddynt dros eu llesiant
2. **Atal ac ymyrryd yn gynnar** – mae hyn yn ymwneud â chynyddu gwasanaethau mewn cymunedau er mwyn datrys problemau cyn eu bod yn dod yn rhai brys
3. **Llesiant** - mae hyn yn ymwneud â chefnogi unigolion i greu eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth
4. **Cyd-gynhyrchu** - mae hyn yn ymwneud ag annog unigolion sydd angen cefnogaeth i gymryd mwy o ran yn y broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau

7.2.6 Mae "llesiant" yn ymwneud â'r canlynol:

- iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol;
- diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- addysg, hyfforddiant a hamdden;
- perthynas ddomestig, teuluol a phersonol;
- cyfraniad a wneir i gymdeithas;
- sicrhau hawliau;
- llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- addasrwydd llety ar gyfer byw.

Mewn perthynas â phlentyn, mae "llesiant" hefyd yn cynnwys datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol. Mewn perthynas ag oedolyn, mae "llesiant" hefyd y cynnwys rheolaeth dros fywyd pob dydd a chyfranogiad mewn gwaith.

7.2.7 Mae 11 rhan i Ddeddf GCLl:

1. Rhagymadrodd
2. Swyddogaethau Cyffredinol
3. Asesu Anghenion Unigolion
4. Diwallu Anghenion
5. Codi Tâl ac Asesiad Ariannol
6. Plant sy'n Derbyn Gofal a
7. Diogelu
8. Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol
9. Cydweithredu a Phartneriaeth
10. Cwynion, Sylwadau ac Eiriolaeth
11. Amrywiol a Chyffredinol

7.2.8 Cefnogir y Ddeddf gan 'Reoliadau' a 'Chodau Ymarfer'.

Deddfwriaeth a gytunir gan weinidogion Cymru yw rheoliadau, y dylid eu defnyddio pan fo angen rhagor o fanylion mewn gweithredu deddf.

Mae codau ymarfer yn darparu arweiniad (a gefnogir gan y gyfraith) er mwyn helpu pobl a sefydliadau i weithio o fewn y fframwaith newydd a grëwyd gan ddeddf.

### 7.2.9 Cynnwys Pobl Anabl

7.2.10 Mae cynnwys pobl yn asesiad a darpariaeth eu gofal eu hunain fel bod ganddynt fwy o reolaeth yn rhan hanfodol o Ddeddf GCLl.

Wrth asesu neu ddiwallu anghenion, mae'n rhaid i awdurdodau lleol (ac unigolion sy'n rhan yn y broses) ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

Rhaid iddynt barchu urddas yr unigolyn a rhaid iddynt ystyried nodweddion, diwylliant a chred y person. Rhaid iddynt roi digon o gefnogaeth i'r unigolyn i'w alluogi i gyfranogi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arno ef neu hi. Rhaid iddynt hefyd ddechrau tybio mai'r unigolyn (oedolyn) hwn yw'r person sydd yn y sefyllfa orau ddodi farn ynglŷn â'i lesiant eu hun a hyrwyddo ei annibyniaeth pan fo hynny'n bosibl.

7.2.11 Mae byrddau partneriaeth rhanbarthol yn cynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae'n rhaid iddynt weithio gydag awdurdodau lleol i gynnal Asesiadau Anghenion Poblogaeth. Asesiad yw hwn o pa ofynion sydd ar gyfer gofal a chefnogaeth a'r gwasanaethau y mae'n rhaid iddynt eu darparu i fodloni'r gofynion hynny. Rhaid i'r byrddau ymateb i'r asesiadau hyn a rhoi cynlluniau ar waith ar gyfer awdurdodau lleol.

Mae'n rhaid i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fod yn rhan weithredol ac wedi ymgysylltu yng ngwaith byrddau partneriaeth lleol. Dylai'r byrddau hyn allu dangos sut y maent wedi ymgysylltu â dinasyddion a gofalwyr ar bob lefel gan gynnwys asesu angen, cynllunio strategol, cynllunio a darparu gwasanaeth.

### 7.2.12 Asesu anghenion

7.2.13 Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn cynnal asesiadau i benderfynu beth yw gofynion pobl ar gyfer gofal a chefnogaeth. O dan y Ddeddf GCLl caiff y person ei ystyried yn bartner cydradd yn yr asesiad hwn (ac yn narpariaeth y gofal) a'r person sydd fwyaf addas i wybod beth yw ei ofynion o ran gofal.

O dan y Ddeddf rhaid i awdurdodau lleol hefyd ddarparu ar gyfer gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

Pan fo unigolyn a'i ofalwr angen gofal a chefnogaeth, gall awdurdodau lleol gyfuno'r asesiad anghenion ar gyfer y ddau, a'i gynnal ar yr un pryd os yw hynny'n briodol.

7.2.14 Tybir bod plentyn anabl angen gofal a chefnogaeth yn ychwanegol at (neu yn lle) y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir gan ei deulu.

7.2.15 Pan fo person angen cefnogaeth er mwyn bod yn rhan mewn cynllunio ei ofal a'i gefnogaeth (ac nad yw'n bosibl nac yn briodol i gael y gefnogaeth honno gan deulu neu ffrindiau) rhaid i awdurdodau lleol drefnu eiriolwr annibynnol i helpu'r unigolyn i fod yn rhan yn y broses.

Mae Adran 7.2.23 yn egluro eiriolaeth mewn rhagor o fanylder.

### 7.2.16 Darparu gofal a chymorth

7.2.17 Mae ymyrryd yn gynnar ac atal gofynion rhag cynyddu yn rhan hollbwysig o'r Ddeddf GCLl. Felly, o dan y Ddeddf hon mae'n rhaid i awdurdodau lleol ddarparu neu drefnu ar gyfer darpariaeth gwasanaethau a fydd yn atal neu'n oedi angen pobl am ofal a chefnogaeth. Rhaid iddynt hefyd alluogi pobl i fyw eu bywyd mor annibynnol â phosibl.

7.2.18 Efallai y bydd unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr angen gofal neu gefnogaeth gan fwy nac un gweithiwr proffesiynol neu sefydliad. Mewn achos o'r fath dylai gofal a chymorth gael ei gydlynu'n effeithiol a'i ddarparu i ddiwallu eu gofynion penodol.

Mewn perthynas â phobl angen gofal a chefnogaeth dylai hyn olygu bod eu gofal yn cael ei gynllunio ganddynt hwy gyda phobl yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn eu deall hwy, eu teulu a gofalwr(gofalwyr). Dylai eu gofal roi rheolaeth iddynt a dwyn ynghyd wasanaethau i gael y canlyniadau sy'n bwysig i'r unigolyn sy'n derbyn gofal.

7.2.19 Rhaid i awdurdod lleol fodloni gofynion oedolyn am ofal a chefnogaeth os yw'r unigolyn yn byw yn yr ardal (neu os nad oes ganddo ef neu hi breswylfa sefydlog ond ei fod o fewn ardal yr awdurdod).

Efallai y codir tâl ar berson am y gofal a'r gefnogaeth y mae awdurdod lleol yn ei ddarparu iddo. Oni bai bod awdurdod yn codi tâl ar gyfradd safonol am wasanaethau, mae'n rhaid iddo gynnal asesiad ariannol a phenderfynu pa swm sy'n rhesymol ymarferol i'r person dalu.

Rhaid i awdurdodau lleol ddiwallu gofynion person os nad oes tâl am y gofal a'r gefnogaeth sydd ei angen neu os yw adnoddau ariannol yr oedolyn yn is na'r terfyn ariannol, neu os nad oes gan y person y gallu i drefnu gofal a chefnogaeth ac nad oes unrhyw berson arall wedi'i awdurdodi i wneud hynny.

Rhaid i awdurdod lleol hefyd ddiwallu gofynion y person os yw adnoddau ariannol yr oedolyn dros y terfyn, ond ei fod wedi gofyn i'r awdurdod ddiwallu ei ofynion. Mewn achos o'r fath mae'n debygol y codir tâl ar y person am y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

Mae Adran 7.3.20 yn egluro'r taliadau ac asesiad ariannol mewn rhagor o fanylder.

7.2.20 Os nad yw darparwr gwasanaeth sy'n darparu gofal a chefnogaeth i berson mewn ardal awdurdod lleol yn gallu parhau i ddarparu gofal oherwydd methiant busnes, rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu ar gyfer anghenion y person hwnnw cyn belled ei fod yn teimlo bod angen hynny (y tu hwnt i'r hyn y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol eisoes ei wneud).

7.2.21 Ni all awdurdodau lleol ddiwallu gofynion gofal a chefnogaeth (neu sicrhau gwasanaeth ataliol) y mae'n ofynnol i'w darparu o dan gyfraith iechyd neu ddeddfwriaeth iechyd arall. Ni allant chwaith ddiwallu anghenion drwy ddarparu gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig, oni bai bod hynny wedi'i gytuno gyda'r bwrdd iechyd lleol.

7.2.22 Os yw asesiad anghenion yn dangos bod angen gofal a chefnogaeth ar berson, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a yw ei ofynion yn bodloni'r meini prawf cymhwyster, ac os nad ydynt mae'n rhaid i'r awdurdod benderfynu a yw'n angenrheidiol i ddiwallu ei ofynion er mwyn ei warchod rhag risg camdriniaeth neu esgeulustod.

Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ystyried a fyddai'r person yn elwa gan wasanaethau neu wybodaeth ataliol, cyngor a chymorth, neu unrhyw beth arall a allai fod ar gael yn y gymuned.

Mae'r Meini Prawf Cymhwyster yn cael eu hegluro'n fanylach yn Adran 7.3.16.

### 7.2.23 **Eiriolaeth a chefnogaeth**

7.2.24 Mae Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion yn caniatáu i swyddog awdurdodedig fynd i mewn i eiddo pan fo ganddo sail resymol i amau y gallai oedolyn fod mewn perygl, er mwyn siarad yn breifat â'r oedolyn dan sylw, ac asesu a yw'n gwneud penderfyniadau o'i wirfodd ac a oes risg iddo ef neu hi.

'Swyddog awdurdodedig' yw swyddog yr awdurdod lleol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol.

7.2.25 Mae eiriolaeth yn cefnogi pobl sydd ag anhawster i gyfathrebu eu buddiannau neu gynrychioli eu hunain. Gellir ei ddarparu'n anffurfiol drwy gymheiriaid, teulu a ffrindiau neu drwy wirfoddolwyr. Fodd bynnag, weithiau nid yw'r gefnogaeth honno ar gael ac mae angen eiriolaeth ffurfiol neu eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Mae eiriolwyr yn cynorthwyo pobl i:

- ddeall y prosesau perthnasol
- cyfathrebu eu safbwyntiau
- deall sut y gellir diwallu eu hanghenion gan yr awdurdod lleol
- gwneud penderfyniadau am eu trefniadau gofal a chefnogaeth
- deall eu hawliau
- herio penderfyniad neu broses

7.2.26 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol hefyd ystyried gofynion person ar gyfer cefnogaeth eiriolaeth pan fyddant yn asesu anghenion, diwallu anghenion, codi tâl am wasanaethau a chyflawni eu dyletswyddau o ran diogelu. Mae'n bwysig iawn i awdurdodau lleol ystyried gofynion eiriolaeth mewn perthynas ag ymholiadau diogelu. Mae hyn oherwydd bod unigolion sydd wedi eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn aml ofn, yn teimlo embaras ac angen i rywun eu helpu i fynegi eu safbwyntiau.

7.2.27 Pan fydd unigolion a gefnogir gan eiriolwr wedi dioddef camdriniaeth neu esgeulustod, dylai'r eiriolwr hefyd ei alluogi i:

- benderfynu pa ganlyniadau neu newidiadau y mae am eu gweld
- deall pa ymddygiadau gan bobl eraill sy'n gyfystyr â cham-drin neu esgeulustod
- deall pa weithredu ganddynt hwy eu hunain a allai olygu eu bod yn osgoi camdriniaeth neu esgeulustod
- deall pa gamau y gallant eu cymryd i ddiogelu eu hunain
- deall pa gyngor a chymorth y gallant ei ddisgwyl gan eraill, yn cynnwys y system cyfiawnder troseddol
- deall pa rannau o'r broses sy'n rhannol neu'n llwyr o fewn eu rheolaeth
- egluro pa gymorth y maent am ei gael er mwyn osgoi bod y digwyddiad yn digwydd eto ac adfer o'r profiad

7.2.28 Gall unrhyw unigolyn wneud y dewis i wahodd unrhyw eiriolwr i'w cefnogi i fynegi eu barn, dymuniadau a theimladau.

## 7.3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLl) – Defnyddio eich Hawliau

7.3.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â pha fath o ofal y mae gan Bobl Anabl hawl iddo o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (Deddf GCLl). Mae'n edrych yn benodol ar sut y gall Pobl Anabl ddefnyddio'r Ddeddf, a beth mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei wneud

### 7.3.2 Cynnwys Pobl Anabl

7.3.3 Rhaid i fyrddau partneriaeth lleol gynnwys ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn eu gwaith ac mae'n rhaid i'r bwrdd gynnwys, ymhlith pobl a chynrychiolwyr eraill:

- O leiaf ddau berson sy'n cynrychioli buddiannau sefydliadau trydydd sector yn yr ardal
- O leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau darparwyr gofal yn yr ardal
- O leiaf un person sy'n cynrychioli buddiannau pobl sydd angen gofal a chefnogaeth
- O leiaf un person i gynrychioli buddiannau gofalwyr

7.3.4 Wrth asesu anghenion pobl, mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl i ganfod beth sy'n bwysig iddynt hwy a rhaid iddynt ystyried y canlyniadau personol y mae unigolion am eu cyflawni. Rhaid iddynt hefyd ystyried yr adnoddau sydd ar gael, a sut y gallai awdurdod lleol o bosibl gefnogi'r unigolyn i gyflawni'r anghenion hynny. Rhaid iddynt weithio gyda'r unigolyn hwnnw i gytuno ar gerrig milltir realistig, gweladwy a chyflawnadwy.

Pan fo hynny'n bosibl, dylai awdurdodau lleol hefyd gynnwys gofalwr y person wrth asesu ei ofynion. Os yw'r person sy'n cael ei asesu yn ofalwr sydd angen cefnogaeth, dylai'r awdurdod lleol gynnwys y person y mae'n gofalu amdano/amdani pan fo hynny'n bosibl. Os yw'r person sy'n cael ei asesu yn blentyn, rhaid i'w awdurdod lleol hefyd gynnwys unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn.

7.3.5 Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl fel y gallant benderfynu ar y canlyniadau y maent eisiau eu cyflawni a gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut i reoli eu lles.

Rhaid bod gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r mathau o ofal a chefnogaeth sydd ar gael yn yr ardal, sut i gael mynediad atynt a sut i leisio pryderon ynglŷn â llesiant person a allai fod angen gofal a chefnogaeth. Rhaid hefyd ei ddarparu mewn modd sy'n hygyrch i'r person sydd angen y wybodaeth honno.

### 7.3.6 Asesiadau

7.3.7 Pan fo'n ymddangos i awdurdod lleol y gallai fod angen gofal neu gefnogaeth ar berson, rhaid iddo gynnal asesiad a chanfod beth yw'r anghenion hynny.

7.3.8 Rhaid i awdurdodau lleol hefyd asesu anghenion person os yw'n ofalwr a allai fod angen cefnogaeth. Mewn achos o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ystyried a yw'n cyfranogi neu eisiau cyfranogi mewn gwaith, addysg, hyfforddiant, neu weithgarwch hamdden.

7.3.9 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gan unrhyw un sy'n cynnal asesiad y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd i wneud hynny, a'i fod wedi derbyn hyfforddiant cywir. Rhaid iddynt hefyd ystyried a yw natur anghenion y person yn gofyn am gynnwys person sydd â sgiliau, gwybodaeth neu arbenigedd penodol.

7.3.10 Rhaid i awdrudodau lleol gynnig rhoi copi o'u hasesiad ysgrifenedig i'r person a aseswyd neu berson sy'n gweithredu ar ei ran a rhaid iddo adolygu asesiadau os yw'n ymddangos y bu newid sylweddol yn amgylchiadau neu ganlyniadau personol y person.

Gall unrhyw berson sydd wedi'i asesu (neu sydd wedi'i awdurdodi i weithredu ar ran person sy'n cael ei asesu) ofyn am adolygiad o asesiad. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r cais hwnnw os yw'n fodlon y bu newid sylweddol mewn amgylchiadau neu ganlyniadau personol.

### 7.3.11 **Darparu gofal a chefnogaeth / diwallu anghenion**

7.3.12 Rhaid i'r darpariaethau y mae awdurdodau lleol yn eu gwneud i atal angen pobl am ofal a'u helpu i fyw'n annibynnol hefyd leihau effaith amhariad ar Bobl Anabl. Rhaid iddynt hefyd hyrwyddo magu plant gan eu teuluoedd (lle nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar lesiant y plentyn).

Yn flaenorol, o dan **Adran 47 Deddf Cymorth Gwladol 1948**, gallai awdurdod lleol wneud cais am orchymyn llys i dynnu pobl sydd angen gofal a sylw o'u cartref i ysbytai neu leoedd eraill. Oherwydd Deddf GCLl nid yw'r gyfraith hon yn berthnasol mwyach yng Nghymru, felly nid oes gan awdurdodau lleol y grym hwn bellach.

Mae hyn yn rhoi mwy o rym i Bobl Anabl ddewis lle maent am dderbyn gofal ac aros gartref os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Cyn belled na effeithir yn negyddol ar les plentyn anabl drwy aros gartref, gall teulu ddewis fod y plentyn yn aros gartref.

7.3.13 Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu gofal a chefnogaeth os na ellir diwallu angen person am ofal a chefnogaeth ar ei ben ei hun neu gyda chefnogaeth eraill o'i gwmpas sy'n barod i helpu, neu gyda chymorth gwasanaethau y mae gan y person eisoes fynediad atynt.

Os yw person yn gallu diwallu ei anghenion ar ei ben ei hun neu gyda chymorth pobl eraill, ond byddai gwneud hynny'n achosi poen, pryder neu drallod sylweddol iddo, caiff ei ystyried fel rhywun sy'n methu â diwallu ei anghenion ar ei ben eu hun. Mae hyn hefyd yn berthnasol os yw diwallu ei anghenion ar ei ben eu hun yn debygol o beryglu iechyd unrhyw un neu ei bod yn cymryd yn sylweddol hirach nag y byddai disgwyl iddynt yn arferol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ddarparu gofal a chefnogaeth os yw'r person yn annhebygol o gyflawni un neu ragor o'i ganlyniadau personol heb ddarpariaethau'r awdurdod lleol, neu heb daliad uniongyrchol gan yr awdurdod.

7.3.14 Weithiau efallai y bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol ddiwallu anghenion person anabl drwy ddarparu math penodol o lety, ac efallai y bydd gan y person hwnnw ffafriaeth ar gyfer lle penodol. Os felly, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol drefnu i'r person dderbyn gofal yn y llety hwnnw, ond efallai y bydd yn rhaid i'r person dalu unrhyw gost ychwanegol.

Os yw person yn derbyn gofal mewn llety neu ysbyty a bod ei eiddo wedi'i ddifrodi gan na all ei ddiogelu, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i atal difrod.

7.3.15 Efallai y bydd gofyn i awdurdodau lleol wneud taliadau uniongyrchol i rywun sydd angen gofal a chefnogaeth er mwyn diwallu ei anghenion. Mae **Adran 49** ac **Adran 51** y Ddeddf yn egluro'n fanwl sut ddylai hyn ddigwydd.

Gall awdurdodau lleol ond darparu taliadau uniongyrchol os yw gofynion y person yn rhai brys ac nad yw'n rhesymol i'w diwallu mewn unrhyw ffordd arall. Fodd bynnag, mae unrhyw elfen llesiant na ellir ei chyflawni heb gefnogaeth yn creu

sefyllfa frys oherwydd nad yw'r unigolyn hwnnw yn gallu cyflawni ei ganlyniadau o ran llesiant. Felly gall unrhyw sefyllfa lle na all Person Anabl ddiwallu ei anghenion heb gefnogaeth gyrchu taliadau uniongyrchol i'w alluogi i gael y gefnogaeth honno.

Pan fo awdurdodau lleol y darparu taliadau uniongyrchol mae'n rhaid iddynt sicrhau y gall y person sy'n eu derbyn reoli ei daliadau a chydsynio iddynt. Os na all person wneud hyn, mae'n rhaid i rywun sydd ag awdurdod i weithredu ar ei ran roi cydsyniad i'r taliadau a'u rheoli. Gallai'r person dan sylw fod yn aelod o'r teulu neu'n ffrind, neu'n wasanaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

Os yw awdurdod lleol yn penderfynu mai'r ffordd fwyaf priodol i ddiwallu anghenion person yw drwy daliadau uniongyrchol, mae'n rhaid iddo ddweud pam wrth y person a rhoi gwybodaeth am ba gefnogaeth sydd ar gael i'w helpu i reoli ei daliadau uniongyrchol.

## 7.3.16 Meini Prawf Cymhwyster

7.3.17 Mae rheoliadau yng Nghymru yn pennu bod oedolyn yn bodloni'r meini prawf cymhwyster os yw angen gofal a chefnogaeth oherwydd iechyd corfforol neu feddyliol, oedran, amhariad, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau neu amgylchiadau tebyg eraill.

Mae hefyd yn berthnasol i unrhyw un y mae ei angen am ofal a chefnogaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'r canlynol:

- Gallu i gyflawni gweithgareddau hunanofal neu ddomestig arferol
- Gallu i gyfathrebu
- Diogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod
- Cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu, neu mewn gweithgareddau hamdden
- Cynnal neu ddatblygu perthynas deuluol neu berthynas bersonol bwysig arall
- Datblygu a chynnal perthynas gymdeithasol a bod yn rhan yn y gymuned
- Cyflawni cyfrifoldeb gofalu am blentyn

7.3.18 Mae gofalwr yn bodloni'r meini prawf cymhwyster os yw ei anghenion am gefnogaeth (sy'n bodloni un neu ragor o'r meini prawf uchod) yn deillio o ofalu am oedolyn sy'n bodloni'r meini prawf uchod, neu blentyn anabl.

7.3.19 Mae'r un meini prawf yn berthnasol i blant sydd angen gofal a chefnogaeth, ond hefyd yn cynnwys pan fo gofynion plentyn yn effeithio ar ei allu i gyflawni nodau datblygiadol, ac os na ellir diwallu ei anghenion ganddo ef ei hun neu gan ei rieni neu'r gymuned.

### 7.3.20 Taliadau ac asesiad ariannol

7.3.21 Dywed rheoliadau Cymru na all awdurdodau lleol godi tâl am ofal a chefnogaeth i ddiwallu anghenion plentyn, neu ar gyfer unrhyw un sy'n derbyn cefnogaeth fel rhan o becyn o wasanaethau ôl-ofal yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983).

Ni ellir codi tâl chwaith am ofal/cefnogaeth lle mae awdurdod yn darparu cludiant i wasanaeth dydd sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion y person, ac ni all godi tâl am wasanaethau eiriolaeth.

7.3.22 Ni all awdurdod lleol godi mwy na £100 yr wythnos am unrhyw ofal neu gefnogaeth sydd ddim yn cynnwys llety mewn cartref gofal (ond nid yw hyn yn cynnwys unrhyw daliadau cyfradd safonol).

Mae rheoliadau Cymru yn gosod y terfyn cyfalaf perthnasol ar gyfer gofal nad sy'n breswyl yn £24,000. 'Cyfalaf' yw'r holl arian ac asedau sy'n eiddo i rywun.

Golyga hyn, ar gyfer gofal nad sy'n breswyl, na all awdurdodau lleol godi na chasglu taliadau am wasanaethau gofal a chefnogaeth gan unrhyw un y mae eu cyfalaf yn llai na £24,000. Ar gyfer gofal preswyl, y 'terfyn cyfalaf perthnasol' yw £50,000, ac ni all yr awdurdod lleol godi swm a fyddai'n lleihau incwm y person i lai na £29.50 yr wythnos.[4]

4 Mae'r ffigurau hyn yn gywir ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, ond byddant n newid dros amser. Mae rheoliadau Cymru wedi diweddaru'r ffigurau nifer o weithiau ers cyflwyno'r Ddeddf.

### 7.3.23 **Eiriolaeth**

7.3.24 Os yw person angen eiriolwr ond nad oes unigolyn priodol ar gael, mae'n rhaid i awdurdodau lleol drefnu darpariaeth eiriolwr proffesiynol annibynnol.

7.3.25 Ystyrir bod angen eiriolwr ar berson pan fydd ond yn gallu goresgyn y rhwystrau sy'n ei atal rhag cyfranogi'n llawn ym mhob agwedd ar ei ofal a chefnogaeth gyda chymorth. (Mae agweddau ar ofal a chefnogaeth yn cynnwys yr asesiad, cynllunio gofal a chefnogaeth, adolygu'r broses ddiogelu). Pan fodlonir y meini prawf hyn, ni all yr awdurdod lleol godi tâl ar yr unigolyn am y gwasanaeth eiriolaeth.

Mae rhwystrau a all atal rhywun rhag cyfranogi'n llawn yn cynnwys materion neu sefyllfaoedd sy'n amharu ar allu rhywun i ddeall gwybodaeth berthnasol, cofio gwybodaeth, defnyddio neu bwyso a mesur a chyfathrebu eu barn, dymuniadau a theimladau.

Eiriolwr priodol yw rhywun y mae'r unigolyn yn hapus i'w gael yn ei gefnogi ac sy'n debygol o allu a bod ar gael i gefnogi'n ddigonol ymglymiad yr unigolyn. Ni all yr eiriolwr fod yn rhywun sydd wedi bod ymhlyg mewn ymholiad i gam-drin neu esgeulustod. Dylai awdurdodau lleol hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fodoli rhwng yr unigolyn a'i eiriolwr.

7.3.26 Os na all unigolyn â'r awdurdod lleol gytuno ar ofynion eiriolaeth person, rhaid rhoi gwybod i'r person am ei hawl i gyrchu'r weithdrefn cwynion a chael ei gefnogi drwy'r broses cwynion.

7.3.27 Rhaid i wasanaethau eiriolaeth a ddefnyddir gan awdurdodau lleol lle mae gofyniad am eiriolaeth annibynnol gael cyhoeddusrwydd da a bod yn hawdd eu defnyddio. Rhaid iddynt weithio'n benodol i'r unigolyn a chynnal lefel uchel o gyfrinachedd. Lle bynnag bo hynny'n bosibl dylent gael eu cyllido a'u rheoli mewn modd sy'n sicrhau annibyniaeth rhag y sefydliad sy'n comisiynu (yr awdurdod lleol).

7.3.28 Os yw plentyn neu berson ifanc yn bwriadu gwneud cynrychiolaeth (gwneud cwyn ffurfiol) yn erbyn awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod hwnnw roi gwybodaeth i'r un dan sylw am wasanaethau eiriolaeth a chynnig cymorth iddo gael gafael ar eiriolwr.

Ni all eiriolwr plentyn neu berson ifanc fod y person a allai fod yn destun y gŵyn neu reoli'r person neu'r gwasanaeth sy'n destun y gŵyn.

Dylai plant a phobl ifanc gael eu helpu i ddeall y gwahaniaethau rhwng y mathau o gefnogaeth sydd ar gael a gwneud dewis gwybodus rhwng eiriolaeth anffurfiol (megis gan berthynas, gofalwr neu athro) ac eiriolwr annibynnol proffesiynol.

### 7.3.29 **Riportio ac atebolrwydd**

7.3.30 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth ddyledus i'r UNCRDP pan fyddant yn cyflawni swyddogaethau gwasanaeth cymdeithasol.

7.3.31 Pan fo gofyn i awdurdod lleol ddiwallu anghenion rhywun am ofal a chefnogaeth, mae'n rhaid iddo baratoi a chynnal cynllun gofal a chefnogaeth. Rhaid i'r cynllun gofal gael ei baratoi gan rywun sydd â'r sgiliau a'r hyfforddiant priodol.

Rhaid iddo gynnwys disgrifiad o ofynion cymwys y person, ei ganlyniadau personol a'r camau y mae'r awdurdod lleol yn mynd i'w cymryd i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau personol a diwallu ei anghenion. Rhaid iddo hefyd wneud trefniadau i ddeall a yw'r canlyniadau personol wedi'u cyflawni. Rhaid iddo hefyd wneud trefniadau i adolygu'r cynllun.

Rhaid adolygu'r cynllun os yw'n ymddangos nad yw gofynion y person yn cael eu diwallu. Gall person ofyn am adolygiad, a rhaid i'w awdurdod lleol gydymffurfio os yw'n fodlon nad yw'r cynllun yn ateb gofynion y person. Rhaid i awdurdodau lleol roi copi o'r cynllun i'r person y mae'n ymwneud ag ef.

Os bydd rhywun sydd â chynllun gofal a chefnogaeth yn symud, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'r cynllun i'r awdurdod lleol newydd ynghyd â gwybodaeth yn ymwneud â'i ofal. Mae'n rhaid i'r awdurdod newydd asesu'r person a phenderfynu a yw ei ofynion wedi newid oherwydd y symud.

7.3.32 Rhaid i awdurdodau lleol benodi swyddog cwynion, a gwaith y swyddog fydd rheoli sut mae cwynion a sylwadau yn cael eu trin a'u hystyried. Rhaid i'r swyddog cwynion sicrhau bod plant yn ymwybodol o'u rôl ac yn ei deall. Dylent ymgynghori â phlant a phobl ifanc pan fyddant yn mynegi bwriad i wneud cwyn. Dylent helpu'r plant a phobl ifanc i ddeall pa ddewisiadau sydd ar gael, sut mae'r broses yn gweithio a'r dewisiadau ar gyfer eiriolaeth a sut mae hynny'n gweithio.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymateb yn ysgrifenedig i unrhyw sylwadau a wneir gan eiriolwr.

7.3.33 Mae'r adran hon y pecyn wedi edrych ar:

- Sut y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnwys Pobl Anabl mewn cynllunio a darparu eu gofal a
- Phwy sydd â'r hawl i ofal a chefnogaeth o dan y Ddeddf GCLl

## 7.4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf GCLl) – Adnoddau Defnyddiol

7.4.1 Canllaw byr Llywodraeth Cymru i Ddeddf GCLl sy'n ymdrin â'r 'Yr Hanfodion':

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/social-services-and-well-being-wales-act-2014-the-essentials.pdf

7.4.2 Fersiwn 'Hawdd ei Deall' Llywodraeth Cymru o Ddeddf GCLl:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/social-services-and-well-being-wales-act-easy-read.pdf

7.4.3 Adran Gwybodaeth a Hyb Dysgu ar Ddeddf GCLl:

https://socialcare.wales/hub/sswbact

7.4.4 Canllaw fideo Gofal Cymdeithasol Cymru – 'Beth mae'r Ddeddf yn ei olygu i mi?':

https://www.youtube.com/watch?v=-Ci5WByP6Gw

7.4.5 Canllaw Gofal Cymdeithasol Cymru i Ddeddf GCLl a llyfr gwaith:

https://socialcare.wales/cms_assets/hub-downloads/Workbook-What-does-the-Act-mean-for-me.pdf



# 8 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET)

## 8.1 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) – Sylfeini

### 8.1.1 Beth ydyw?

Mae ALNET yn mynd i fod yn disodli'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r system anawsterau a/neu anableddau dysgu (AAD). Y system newydd a fydd yn dod yn eu lle yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a fydd yn cael ei chyflwyno'n raddol rhwng 2021–2024.

Ei nod yw creu system symlach sy'n helpu ysgolion a sefydliadau addysg bellach i weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u rhieni fel y gallant ddatrys unrhyw anghytundebau a sicrhau gwell canlyniadau.

### 8.1.2 Ar bwy mae'n effeithio?

Mae'r system ADY newydd yn berthnasol i unrhyw un rhwng 0–25 oed ac sy'n derbyn addysg neu hyfforddiant.

Mae gan awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gyd ddyletswyddau penodol o dan y ddeddf.

### 8.1.3 Beth mae hyn yn ei olygu i Bobl Anabl?

Ystyrir bod gan blant oed ysgol gorfodol ADY os ydynt yn cael anhawster llawer mwy sylweddol i ddysgu na'u cyfoedion, neu os oes ganddynt amhariad sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt ddefnyddio cyfleusterau addysgol a ddarperir ar gyfer eu cyfoedion.

Pan fo awdurdod lleol neu ysgol yn meddwl y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY mae'n rhaid iddo gynnal asesiad a chreu Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Mae CDUau yn nodi beth yw gofynion y person ifanc a sut i ddarparu ar eu cyfer.

Gall plant, pobl ifanc a rhieni hefyd fynd ag anghydfodau i'r Tribiwnlys Addysg, lle gallant herio'r penderfyniadau neu'r asesiadau a wnaed gan ysgol neu awdurdod lleol. Mae gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yr hawl i eiriolwyr annibynnol ac mae gan blant, os yw eu galluedd yn broblem, yr hawl i gael 'cyfaill achos' i'w cynrychioli.

## 8.2 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) – Gwybod eich Hawliau

8.2.1 Mae Adran 8.3 y pecyn hwn yn ymwneud â'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET). Mae'n edrych yn benodol ar beth sy'n rhaid i ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag ADY.

### 8.2.2 Cefndir ALNET

8.2.3 Daeth Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) yn gyfraith ym mis Ionawr 2018. Mae'n disodli'r gyfraith bresennol sy'n ymwneud ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac asesiad plant a phobl ifanc sydd ag Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16.

Bydd yr AAA yn cael ei disodli'n raddol gan ADY, gan ddechrau'n gynnar yn 2021. Dylai bod ADY wedi disodli'r system bresennol yn llwyr erbyn diwedd 2024. (Gellir cael rhagor o wybodaeth am yr union amserlen ar gyfer y newid hwn yma: https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/additional-learning-needs-aln-transformation-programme-v3.pdf)

Bydd ALNET yn cefnogi dysgwyr rhwng 0-25 oed. Mae'n ceisio gwella cydweithredu rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd a sefydlu system decach a mwy tryloyw.

Cynhyrchwyd drafft cyntaf o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ('Y Cod') yn 2018 a chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Yn dilyn yr ymgynghoriad, diwygiwyd y Cod a'i gyflwyno gerbron y Senedd ar gyfer ei chymeradwyaeth ym mis Mawrth 2021.

### 8.2.4 Anghenion Dysgu ychwanegol

8.2.5 Mae'r Ddeddf yn diffinio ADY fel bod ag anhawster neu anabledd dysgu (boed hyn yn deillio o gyflwr

meddygol ai peidio) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Ystyrir bod gan blentyn o oedran ysgol gorfodol ADY os oes ganddo ef neu hi anhawster llawer mwy wrth ddysgu na'r mwyafrif o'r plant eraill o'r un oed, neu os oes gan y plentyn amhariad sy'n ei gwneud hi'n anodd iddo ddefnyddio cyfleusterau addysgol a ddarperir ar gyfer eraill o'r un oed mewn ysgolion neu sefydliadau prif ffrwd.

Ni ystyrir fod gan blentyn ADY os yw ei anhawster dysgu yn deillio dim ond oherwydd nad yw'r iaith y caiff ei addysgu ynddi yr un iaith ag a ddefnyddir yn y cartref.

Nid oes gan unigolyn anhawster dysgu neu anabledd dim ond oherwydd bod yr iaith (neu ffurf ar iaith) y caiff ei addysgu ynddi yn wahanol i'r iaith (neu ffurf ar iaith) y mae'n ei defnyddio yn y cartref.

8.2.6 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod pobl yn cael gwybodaeth am ADY a'r darpariaethau sydd ar gael.

8.2.7 Rhaid rhoi ystyriaeth i farn, dymuniadau a theimladau'r person ifanc neu blentyn. Mae hi hefyd yn bwysig i'r bobl ifanc gyfranogi cymaint â phosibl mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â nhw, felly mae'n rhaid i ysgolion ac awdurdodau lleol roi gwybodaeth a chefnogaeth iddynt i'w helpu i gyflawni hyn.

### 8.2.8 Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)

8.2.9 Bydd Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn disodli'r Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig a Chynlluniau Addysg Unigol presennol.

Dogfen sy'n cynnwys disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person yw CDU ynghyd â disgrifiad o'r ddarpariaeth y mae ei anawsterau neu amhariad dysgu yn galw amdani.

8.2.10 Os yw ysgol, sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn credu y gallai fod gan blentyn neu berson ifanc ADY, rhaid iddynt benderfynu a oes ganddynt hynny neu beidio. Nid oes yn rhaid iddynt wneud hyn os oes gan y person eisoes CDU neu os yw eisoes wedi'i asesu a bod yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn fodlon bod ei ofynion heb newid.

Os yw'n ymddangos y gallai plentyn y gofalir amdano gan awdurdod lleol fod ag ADY, rhaid hysbysu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdano.

8.2.11 Os yw'r ysgol, neu'r sefydliad addysg bellach yn penderfynu nad oes gan y person ADY, mae'n rhaid iddynt hysbysu'r person a rhoi'r rhesymau pam. Os yw'r person yn blentyn, rhaid i'r ysgol neu'r sefydliad hefyd hysbysu rhieni'r plentyn.

Os bydd ysgol neu sefydliad addysg bellach yn penderfynu bod gan y person ADY, rhaid iddynt baratoi a chynnal CDU, oni bai bod anghenion y person yn galw am ddarpariaeth ddysgu sy'n afresymol i'r ysgol ei darparu.

8.2.12 Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu bod gan berson ADY a'i fod yn paratoi CDU, gall gyfarwyddo'r ysgol neu'r sefydliad addysg y mae'r person yn ei fynychu i gynnal y CDU.

Rhaid iddynt ystyried a ddylai'r dysgu ddigwydd yn Gymraeg a chymryd pob cam rhesymol i wneud hynny os dyna'r achos.

8.2.13 Gall ysgolion, sefydliadau addysg bellach neu awdurdodau lleol gyfeirio plentyn neu berson ifanc i gorff GIG er mwyn ystyried a oes triniaeth berthnasol sy'n debygol o fod o fudd. Gallant ond gwneud yr atgyfeiriad hwn os yw'r plentyn neu'r person ifanc a'i rieni wedi cael eu hysbysu ac wedi cael cyfle i drafod y mater.

Beth bynnag fo canlyniad yr atgyfeiriad hwnnw, rhaid i'r corff GIG hysbysu'r ysgol neu'r awdurdod lleol a wnaeth yr atgyfeiriad, ac os yw'r corff GIG yn gofyn i'r ysgol neu'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun, rhaid iddynt gydymffurfio.

8.2.14 Mae cyfrifoldeb ar sefydliadau addysgol i gynnal CDU yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y person yn troi'n 25 oed.

### 8.2.15 Darpariaeth ADY

8.2.16 Bydd plant sydd eisoes yn rhan o'r system AAA yn cael eu symud yn raddol i'r system ADY newydd, ond bydd plant sydd ag ADY wedi'u canfod o'r newydd, nad oedd cyn hynny o dan y system AAA, yn mynd yn uniongyrchol i'r system ADY.

8.2.17 Mae gan blant yr hawl, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, i gael eu hanghenion wedi'u diwallu mewn ysgol prif ffrwd os dyna eu dymuniad. Oni bai nad yw ysgol prif ffrwd yn gallu darparu ar gyfer anghenion plentyn neu berson ifanc, neu oni bai bod rhieni am i'w plentyn gael ei addysgu mewn sefydliad arall, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod plentyn sydd ag ADY yn cael ei addysgu mewn ysgol prif ffrwd pryd bynnag y bo hynny'n bosibl.

Mae'n rhaid i'r rheini sy'n darparu ADY mewn ysgol prif ffrwd wneud yn siŵr, cyn belled bod hynny'n ymarferol, bod plentyn sydd ag ADY yn ymgysylltu yng ngweithgareddau'r ysgol ynghyd â phlant eraill sydd heb ADY.

8.2.18 Weithiau bydd anghenion ADY person y tu hwnt i'r hyn y gall ei ysgol prif ffrwd ei gynnig.

Os na ellir diwallu anghenion person oni bai bod awdurdod lleol yn sicrhau lle iddynt mewn sefydliad penodol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynnwys y darpariaethau hynny yn y CDU.

Os yw awdurdod lleol yn meddwl y gall anghenion plentyn ond cael eu diwallu mewn ysgol benodol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r ysgol a gellir ei gynnwys yn y CDU bod yn rhaid darparu ar gyfer y plentyn yn yr ysgol honno. Os bydd yn gwneud hyn, mae'n rhaid i'r ysgol dderbyn y plentyn.

8.2.19 Os yw corff iechyd yn penderfynu bod plentyn sy'n iau nag oedran ysgol gorfodol ADY, rhaid iddo hysbysu'r rhieni a'r awdurdod lleol. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gyfeirio'r rhieni at sefydliadau gwirfoddol a fyddai o bosibl yn gallu helpu, pan fo sefydliadau o'r fath yn bodoli.

### 8.2.20 Tribiwnlys Addysg Cymru

8.2.21 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol geisio osgoi a datrys anghytundebau rhwng cyrff addysg a phlant neu bobl ifanc sydd ag ADY (ac os yw plentyn neu berson ifanc dan 18 oed, ei rieni hefyd). Fodd bynnag, weithiau ni ellir datrys pethau ac yna gellir mynd â hwy i Dribiwnlys Addysg Cymru.

8.2.22 Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn disodli'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru blaenorol. Corff yw hwn sydd â'r grym i setlo anghydfodau a gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ysgolion, awdurdodau lleol a phobl sydd ag ADY.

Mae gan y Tribiwnlys Addysg y grym i orchymyn bod gan neu nad oes gan berson ADY, a gorchymyn sefydliadau addysg neu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â hynny (megis cynnal CDUau, neu ddarparu darpariaeth dysgu ychwanegol ac ati). Gall hefyd ofyn am dystiolaeth gan gyrff GIG.

## 8.3 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) – Defnyddio eich Hawliau

8.3.1 Mae'r adran hon yn ymwneud â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET). Mae'n edrych yn benodol ar beth sy'n rhaid i ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ei wneud a sut y gall pobl ifanc, plant a'u rhieni herio penderfyniadau.

8.3.2 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff GIG roi ystyriaeth i'r UNCRC a'r UNCRDP.

### 8.3.3 CDUau a darpariaeth ADY

8.3.4 Os yw person wedi'i gofrestru mewn mwy nag un sefydliad addysg, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol fod yn gyfrifol am benderfynu a oes gan y person hwnnw ADY a rhaid iddo lunio a chynnal CDU yn unol â hynny.

Rhaid i awdurdodau lleol barhau i adolygu'r trefniadau a wneir gan ysgolion.

8.3.5 Rhaid rhoi copi o'r CDU i'r person ifanc neu'r plentyn, ac os yw'r plentyn dan 18 oed, rhaid rhoi copi i'w rieni hefyd.

Rhaid i'r sefydliad addysg neu'r awdurdod lleol sy'n eu cynnal adolygu CDUau bob 12. Beth bynnag fo canlyniad yr adolygiad hwnnw, rhaid iddynt hysbysu'r person y mae'r CDU yn ymwneud ag ef (a'i rieni os yw'r person hwnnw dan 18 oed). Os ydynt yn newid y cynllun o ganlyniad i'r adolygiad, rhaid darparu copi o'r cynllun diwygiedig hefyd.

8.3.6 Os yw plentyn yn trosglwyddo i ysgol newydd a bod ganddo CDU sy'n cael ei gynnal gan yr ysgol flaenorol yn union cyn dechrau yn yr ysgol newydd, mae'n rhaid i'r ysgol newydd gynnal y CDU. Mae'r un peth yn berthnasol os bydd plentyn yn dod yn gyfrifoldeb awdurdod lleol a bod ei awdurdod lleol blaenorol yn cynnal CDU iddo.

Weithiau gall awdurdodau lleol sicrhau darpariaethau ar gyfer plant sydd ag ADY mewn ysgolion annibynnol ond gallant dim ond gwneud hyn os yw'r ysgol wedi'i chynnwys ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru a bod yr awdurdod lleol yn fodlon y gall yr ysgol gynnig yr holl ddarpariaethau ADY a ddisgrifir yn y CDU.

8.3.7 Efallai y bydd awdurdodau cartref hefyd yn asesu a oes gan berson mewn dalfa ADY a datblygu CDU i'w roi ar waith pan gaiff ei ryddhau. 'Awdurdod cartref' yw'r awdurdod lleol lle mae'r person sydd yn y ddalfa fel arfer yn byw.

8.3.8 Mae'n rhaid i ysgolion a sefydliadau addysg bellach gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod darpariaeth ADY person y mae ei ofynion yn galw amdanynt yn cael eu bodloni.

Mae'n rhaid i bob ysgol sydd â myfyrwyr o oed ysgol gorfodol ddynodi un aelod o staff i fod yn gydlynydd ADY. Mae'n rhaid i fyrddau iechyd ddynodi prif swyddog clinigol addysg, sy'n gyfrifol am gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd parthed plant a phobl ifanc sydd ag ADY. Mae'n rhaid i feithrinfeydd gael 'swyddog arweiniol ADY y blynyddoedd cynnar'.

8.3.9 Ni all ysgolion nac awdurdodau lleol wneud i'r person ifanc, plentyn neu ei rieni dalu am unrhyw ddarpariaeth y mae'n ei darparu parthed ADY plentyn neu berson ifanc.

### 8.3.10 Anghydfodau a'r Tribiwnlys Addysg

8.3.11 Gall pobl ifanc, plant neu eu rhieni wneud cais i ddiwygio CDUau. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a fydd yn diwygio'r cynllun ai peidio ac yna hysbysu'r ysgol a'r person ifanc neu blentyn a'i rieni o'r penderfyniad y mae wedi'i wneud a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

Gall pobl ifanc, plant neu rieni hefyd wneud cais bod awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb am CDU gan yr ysgol, a gall ysgolion ofyn am hyn hefyd. Os digwydd hyn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r person dan sylw (a'i rieni os yw'n blentyn) a'r ysgol.

Os bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu cymryd gofal o'r CDU, nid yw'r ysgol yn gyfrifol am ei gynnal mwyach.

8.3.12 Os yw ysgol yn meddwl nad oes gan y plentyn ADY mwyach a'i bod yn rhoi terfyn ar y CDU, gall y plentyn neu ei rieni ofyn i'r awdurdod lleol benderfynu a yw hwn yn benderfyniad priodol ai peidio.

8.3.13 Gall person ifanc, plentyn neu ei rieni apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn sefydliad addysg neu awdurdod lleol ynglŷn â phenderfyniadau y mae'r cyrff hynny wedi'u gwneud parthed asesu anghenion person, CDUau, neu ddarpariaethau dysgu ychwanegol.

8.3.14 Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth eiriolwr proffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gofyn am eiriolwr os ydynt yn gwneud neu'n ystyried gwneud apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru, neu'n cael anghytundeb gyda sefydliad addysg.

### 8.3.15 Galluedd

8.3.16 Gellir penderfynu nad oes gan rai plant neu bobl ifanc y galluedd. Mae hyn yn golygu na allant ddeall y wybodaeth a roddir iddynt neu wneud penderfyniadau ar sail y wybodaeth honno.

8.3.17 Os bydd ysgol yn penderfynu a oes gan blentyn y galluedd ai peidio a bod rhieni'n anghytuno â'r penderfyniad hwnnw, rhaid i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad.

Gall plentyn neu rieni'r plentyn wneud cais i'r Tribiwnlys Addysg am ddatganiad ynglŷn ag a oes gan y plentyn y galluedd ai peidio i ddeall gwybodaeth a roddir iddo ef neu hi a deall sut i weithredu ei hawliau.

8.3.18 Os yw ysgol, awdurdod lleol neu gorff GIG yn teimlo nad oes gan blentyn y galluedd i ddeall pwnc, nid oes yn rhaid iddynt roi copi o'r CDU i'r plentyn fel y byddent fel arfer yn ei wneud. Nid oes yn rhaid iddynt chwaith adolygu'r CDU os yw'r plentyn wedi gofyn am adolygiad.

Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt wneud y pethau hyn os yw'r awdurdod lleol neu'r Tribiwnlys Addysg wedi penderfynu bod gan y plentyn y galluedd, neu os oes 'cyfaill achos' wedi'i benodi gan y Tribiwnlys Addysg.

8.3.19 Mae 'cyfaill achos' yn cynrychioli plentyn sydd heb alluedd ac yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithredu ar ran y plentyn. Efallai y bydd y Tribiwnlys Addysg yn penodi rhywun i fod yn 'gyfaill achos' i blentyn sydd heb y galluedd.

Mae'n rhaid i gyfeillion achos weithredu'n deg ac yn gymwys ac ni ddylent fod ag unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro gyda'u dyletswydd tuag at y plentyn. Rhaid iddynt sicrhau bod yr holl benderfyniadau y maent yn eu gwneud er budd y plentyn a, chyn belled â phosibl, roi ystyriaeth i farn y plentyn.

8.3.20 Mae adran hon y pecyn wedi edrych ar:

- Beth sy'n rhaid i ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ei wneud o dan ALNET
- Sut i fynd ag anghytundeb i'r Tribiwnlys Addysg

## 8.4 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) – Adnoddau Defnyddiol

8.4.1 Atebion Llywodraeth Cymru i 'Gwestiynau Cyffredin' am ALNET:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/aln-frequently-asked-questions-2_0.pdf

8.4.2 Amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer rhoi'r system ADY ar waith:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/additional-learning-needs-aln-transformation-programme-v3.pdf

8.4.3 Ffeithlen Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc a'u rhieni neu ofalwyr:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-06/aln-factsheet-how-will-the-act-affect-children-young-people-and-parents-carers.pdf

8.4.4 Fersiwn 'Hawdd ei Deall' Llywodraeth Cymru o ALNET:

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/helping-children-and-young-people-who-need-extra-support-to-learn-children-and-young-people-with-additional-learning-needs.pdf



# 9 Byw eich Hawliau – astudiaethau achos

## 9.1 Byw eich Hawliau – astudiaethau achos

9.1.1 Rydym wedi darparu enghreifftiau yn yr adran hon. Maent y disgrifio rhai o'r ffyrdd y mae Pobl Anabl, eu teuluoedd neu eu sefydliadau wedi defnyddio cyfreithiau am gydraddoldeb a Phobl Anabl er mwyn herio penderfyniadau pan geisiodd awdurdodau lleol dorri darpariaeth gwasanaethau neu leihau cyllid.

Mae rhai o'r enghreifftiau yn yr adran hon yn ymwneud â chwmnïau preifat, e.e. darparwyr trafnidiaeth a banciau, sydd heb ddarparu mynediad ar gyfer Pobl Anabl neu sydd wedi'u trin mewn ffordd waeth na phobl sydd ddim yn anabl. Mae llawer o enghreifftiau eraill o achosion fel y rhain, ond nid oes digon o le yn y pecyn hwn i gynnwys manylion pob un ohonynt.

## 9.2 Ffilm Astudiaeth Achos – Grŵp mynediad cymunedol yn erbyn ei awdurdod lleol [2012]

9.2.1 Yn y ffilm fer hon (dolen iddi isod) mae Jan yn sôn am yr achos y gwnaeth ei frwydro gyda'r grŵp Give Us Back Our Access er mwyn gwneud Stryd Fawr Bangor yn hygyrch i Bobl Anabl unwaith eto.

Fersiwn Saesneg gydag is-deitlau: https://www.youtube.com/watch?v=ilrnvc8yFGQ

Fersiwn Gymraeg gydag is-deitlau: https://youtu.be/Gp2Up2_WKfM

9.2.2 Defnyddiwyd yr astudiaeth achos hon yn fersiwn flaenorol y ddogfen hon. Mae'n disgrifio sut yr effeithiodd newidiadau a wnaed i'r Stryd Fawr ar ddeiliaid Bathodynnau Glas a'r camau a gymerodd y grŵp ymgyrchu i herio'r penderfyniad gyda'r awdurdod lleol.

Pan ryddhawyd fersiwn flaenorol y pecyn cymorth hwn, roedd y grŵp ymgyrchu yn dal i ddisgwyl barn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar ôl dyddiad rhyddhau'r pecyn cymorth cyhoeddodd yr Ombwdsmon ei farn a hysbysu'r cyngor, a rhoddwyd cyfaddawd i'r grŵp ymgyrchu gan yr awdurdod lleol. Mae Stryd Fawr Bangor nawr yn agor am 4.30pm ac yn cau am 10:00am y diwrnod canlynol, gan roi mwy o amser i ddeiliaid Bathodyn Glas ddefnyddio'r busnesau ar y Stryd Fawr.

## 9.3 Ffilm Astudiaeth Achos – Rhiant Plentyn Anabl yn erbyn awdurdod lleol

9.3.1 Yn y ffilm fer hon (dolen iddi isod) mae Vin yn siarad am y drafferth y cafodd ef a'i wraig i gael Taliadau Uniongyrchol ar gyfer eu merch Anabl.

Fersiwn Saesneg gydag is-deitlau: https://www.youtube.com/watch?v=IKWAh77gcXA

Fersiwn Gymraeg gydag is-deitlau: https://www.youtube.com/watch?v=CTrg8LPDOyI&feature=youtu.be

## 9.4 Ffilm Astudiaeth Achos – Person Anabl yn Ne Cymru yn erbyn awdurdod lleol

9.4.1 Yn y ffilm fer hon (dolen iddi isod) mae Trevor yn sgwrsio am yr heriau y gwnaeth eu hwynebu i gael gofal priodol gan wasanaethau cymdeithasol.

Fersiwn Saesneg gydag is-deitlau: https://www.youtube.com/watch?v=bPoz2tLCVFk

Fersiwn Gymraeg gydag is-deitlau: https://www.youtube.com/watch?v=goByqK40F-8

## 9.5 Grŵp o bobl o Dde Cymru gyda nam ar eu golwg yn erbyn Cyngor Bwrdeistref yn Ne Cymru [2011]

### 9.5.1 Beth oedd y broblem?

9.5.2 Roedd Cyngor Bwrdeistref yn Ne Cymru eisiau cyflwyno tâl am barcio ym meysydd parcio'r Cyngor ar gyfer Pobl Anabl sydd â Bathodynnau Glas. Dywedodd y Cyngor y byddai ond yn cynnal ymgynghoriad anffurfiol ynglŷn â'r tâl hwn, gan ddweud nad oedd angen iddo gynnal unrhyw fath arall o ymgynghoriad.

### 9.5.3 Beth ddigwyddodd?

9.5.4 Ysgrifennodd Cadeirydd y grŵp nam ar y golwg at yr Aelod Cynulliad lleol, gan restru'r rhesymau pam na ddylid cyflwyno tâl parcio i ddeiliaid Bathodyn Glas:

- O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mae'n ofynnol i gynghorau ymgynghori a chanfod sut y bydd newidiadau y maent am eu gwneud yn effeithio ar bobl sydd â "nodweddion gwarchodedig"

- Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ynglŷn â'r cynnig
- Roedd dyletswydd y Cyngor o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddatblygu cyfle cyfartaledd drwy ddileu neu leihau'r anfanteision a brofir gan y rheini sydd â 'nodwedd warchodedig' (yn yr achos hwn 'Pobl Anabl') yn cael ei hanwybyddu
- Byddai'r cynnig yn ei gwneud hi'n anoddach i Bobl Anabl gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol
- Mae llawer o Bobl Anabl yn dlawd ac felly'n cael trafferth i dalu'r tâl parcio. Mae tystiolaeth dda ynglŷn â hyn. Er enghraifft, yr adroddiad "Disabled Poverty in Wales" a gynhyrchwyd gan Leonard Cheshire (2011), ac adroddiad yr EHRC 'Pa mor deg yw Cymru' (2011) ac adroddiad DEMOS "Destination Unknown' (2010)
- Bydd toriadau mewn budd-daliadau ar gyfer Pobl Anabl, er enghraifft, newidiadau DLA i PIP, cau'r ILF, ac ati yn golygu bod Pobl Anabl yn dlotach a bydd hyn hefyd yn effeithio ar eu gallu i dalu am barcio
- Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn dal ond yn rhannol hygyrch i Bobl Anabl er gwaethaf ymdrechion y grŵp nam ar y golwg, "ni wnaed unrhyw ymdrechion gan gwmnïau bysiau i addasu'r gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr sydd â nam ar eu golwg er gwaethaf ein hymdrechion i ymgysylltu â nhw mewn modd rhagweithiol a chadarnhaol"
- Mae unigedd yn broblem enfawr i bobl sydd â nam ar eu golwg "gan fod symudedd yn broblem wirioneddol ac mae trafnidiaeth yn her fawr iawn." Mewn car, yn aml, yw'r unig ffordd y gall pobl sydd â nam ar eu golwg deithio o gwmpas. Gall cyflwyno tâl ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas olygu efallai y bydd yn rhaid iddynt wneud llai o siwrneiau

- Cysylltodd y grŵp nam ar y golwg â sefydliadau anabledd eraill, gan gynnwys Anabledd Cymru, yn gofyn iddynt gefnogi eu gwrthwynebiad i'r tâl arfaethedig.

### 9.5.5 Beth oedd y canlyniad?

9.5.6 Gollyngwyd y cynnig ond mae'r grŵp o'r farn y gallai'r cyngor gyflwyno'r taliadau unwaith eto yn y dyfodol a chynnal ymgynghoriad llawn. Os bydd hyn yn digwydd mae'r grŵp nam ar y golwg yn bwriadu cynnal ymgyrch ysgrifennu llythyrau ac yn y cyfryngau yn erbyn y taliadau.

## 9.6 Myfyriwr Prifysgol Anabl (AB) yn erbyn un o Brifysgolion Cymru (2013)

### 9.6.1 Beth oedd y broblem?

9.6.2 Roedd llyfrgell y Brifysgol wedi'i adeiladu yn y fath fodd fel ei fod yn anhygyrch i Bobl Anabl. Roedd yno broblem gyda llwybrau gwagio ac allanfeydd tân yn ogystal â phroblemau gyda chyfathrebu a oedd yn ei wneud yn anniogel i ddefnyddwyr cadair olwyn.

Hefyd, ni roddwyd Cynllun Gwagio mewn Argyfwng Personol i AB tan fis Ebrill 2014, pan ddylai un fod wedi ei roi iddo ar ddiwrnod cyntaf y cwrs ym mis Hydref 2013. Pan ganodd larwm tân ym mis Mai 2014, roedd AB wedi'i adael ar ben uchaf ffynnon risiau tra bod yr adeilad yn cael ei wagio.

Yn ogystal, gwrthodwyd addasiadau rhesymol i AB pan wrthododd uwch aelod o staff iddo recordio cyfarfod ynglŷn â'r cwynion yr oedd yn eu gwneud. Yna canslodd yr aelod staff y cyfarfod pan ofynnodd AB a allai ddod â'i wraig i'r cyfarfod.

9.6.3 **Beth ddigwyddodd?**

9.6.4 Honnodd yr uwch aelod staff nad oedd gan AB yr hawl i'r addasiadau rhesymol y gofynnodd amdanynt gan mai myfyriwr ydoedd ac nid aelod staff.

Riportiodd AB ei bryderon ynglŷn â gweithdrefnau diogelwch tân yn 2013 pan dorrodd lifft y llyfrgell. Er iddo gael ei drwsio, cymerodd y Brifysgol bedwar mis i wneud y newidiadau angenrheidiol er mwyn gwneud y llyfrgell yn ddiogel a hygyrch. Yn ystod y cyfnod hwnnw ni allai myfyrwyr Anabl gyrchu islawr y llyfrgell.

9.6.5 Dechreuodd AB gŵyn cam 1 mewnol yn erbyn y Brifysgol a phan fu hwn yn aflwyddiannus, aeth i gam 2. Dywedwyd wrtho gan y Brifysgol i fynd â'r mater i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Defnyddiodd AB gais am fynediad at ddata gan y testun o dan bolisi Swyddfa'r Comisiynydd (sy'n dod o dan y Ddeddf Diogelu Data) i gael mynediad at negeseuon e-bost uwch reolwyr. Mewn neges e-bost a anfonwyd gan ddirprwy is-ganghellor am brofiad myfyrwyr y Brifysgol, roedd yn cyfaddef bod yr adeilad wedi'i godi heb roi ystyriaeth i ofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd er mwyn arbed arian.

Cysylltodd AB â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb ac elusen o'r enw Race Equality First yng Nghaerdydd. Gyda'u cymorth hwy, cymerwyd camau cyfreithiol yn erbyn y Brifysgol lle honnodd AB fod y Brifysgol wedi gwahaniaethu yn ei erbyn oherwydd bod y lifft wedi torri am gyhyd, roedd yr addasiadau rhesymol yr oedd wedi gofyn amdanynt wedi cael eu gwrthod, ac ni ddarparwyd Cynllun Gwagio mewn Argyfwng Personol iddo ar ddechrau ei gwrs.

### 9.6.6 Beth oedd y canlyniad?

9.6.7 Cytunodd AB i setlo'r achos gyda'r Brifysgol a derbyniodd iawndal gwerth £20,000.

Mae AB a'i wraig wedi defnyddio'r achos hwn ac wedi cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad a gynhaliwyd gan bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi yn 2015 ynglŷn ag effaith y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr achos hwn yma: https://www.disabilitynewsservice.com/disabled-student-wins-20k-after-university-built-library-it-knew-would-breach-dda/

## 9.7 Preswylydd anabl (WK) yn erbyn Cyngor Sir Abertawe (2013)

### 9.7.1 Beth oedd y broblem?

9.7.2 Gwrthodwyd taliadau uniongyrchol i ddefnyddiwr cadair olwyn llawn amser, WK, a symudodd i Abertawe yn 2013, gan Gyngor Sir Abertawe. Roedd WK eisoes yn derbyn taliadau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol lle arferai fyw, ond nid oedd Cyngor Sir Abertawe am dalu'r un swm.

Gwrthododd y Cyngor roi'r lefel gofal oedd ei angen ar WK, a oedd yn cynnwys gofalwr i fyw i mewn, ac yn hytrach awgrymodd ei symud i gartref gofal preswyl.

### 9.7.3 Beth ddigwyddodd?

9.7.4 Cysylltodd WK â chyfreithiwr i'w helpu i ymladd ei hachos yn erbyn Cyngor Sir Abertawe. Ysgrifennodd at y Cyngor i'w hysbysu bod hyn yn digwydd, a bod rheidrwydd ar y cyngor o dan y gyfraith i ddarparu'r taliadau uniongyrchol yr oedd WK wedi eu derbyn gan ei hawdurdod lleol blaenorol.

### 9.7.5 Beth oedd y canlyniad?

9.7.6 Oherwydd bygythiad camau cyfreithiol gan fod cyfreithiwr yn gysylltiedig yn y mater, dechreuodd Cyngor Sir Abertawe wneud taliadau uniongyrchol priodol i WK.

## 9.8 R (JG & MB) yn erbyn Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn 2011

### 9.8.1 Beth oedd y problemau?

1. Cynnydd ym meini prawf cymhwyster i fod yn gymwys ar gyfer Mynediad Teg at Wasanaethau Gofal (FACS) o 'gymedrol' i 'sylweddol' ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.
2. Cynnydd mewn taliadau am wasanaethau gofal cartref.

### 9.8.2 Beth ddigwyddodd?

9.8.3 Yn 2011, gwnaeth Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn gynnig i dorri ei gyllideb ar gyfer 2012-13 gan 26%. Trefnodd y Cyngor gyfarfodydd ymgynghori gydag unigolion a darparwyr.

Roedd gan Disability Equality North West (DENW – sefydliad Pobl Anabl lleol) bryderon am eiriad yr ymgynghoriad a'r broses gwneud penderfyniadau. Ceisiodd y sefydliad wneud yn siŵr bod ei farn yn cael ei ystyried ac y byddai toriadau mewn gwasanaethau bwy'n annibynnol mor fychan â phosibl.

9.8.4 Roedd gan Disability Equality North West sawl beirniadaeth o'r broses ymgynghori ynglŷn â'r toriadau mewn gwasanaethau:

- Ni chynhaliwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIAau) cyn y cynhaliwyd y broses ymgynghori
- Roedd nifer o gamgymeriadau yn yr EIAau a gynhaliwyd
- Nid oedd yr EIAau yn ddigon trylwyr. Er enghraifft, ni chynhaliwyd EIA ar y penderfyniad gwreiddiol i dorri'r arian o wasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion na'r penderfyniad i roi terfyn ar gyllido gwasanaethau gofal nad oedd yn bersonol megis siopa a glanhau
- Ni wnaeth EIAau roi ystyriaeth i nac adlewyrchu'n gywir farn unigolion a darparwyr gwasanaethau ac ni chawsant eu cynnal yn unol â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, Deddf Cydraddoldeb Sengl na Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl sydd ag Anableddau
- Ni roddwyd gwybodaeth gywir i aelodau etholedig am y 'gwasanaethau amgen' y byddai Pobl Anabl yr oedd eu hanghenion wedi'u hasesu'n 'gymedrol' yn cael gwybod amdanynt neu eu 'cyfeirio' iddynt a dechreuodd gweithwyr cymdeithasol gynnal ailasesiadau cyn yr oedd y penderfyniad terfynol am gyllidebau wedi'i wneud

9.8.5 Dywedodd DENW hefyd:

- Efallai na fydd rhai Pobl Anabl yr oedd y Cyngor yn bwriadu eu 'cyfeirio' at wasanaethau eraill yn gallu fforddio talu am y gwasanaethau hyn
- Efallai bod rhai o'r gwasanaethau (yn cynnwys DPOau) hefyd yn cael anawsterau oherwydd toriadau mewn cyllideb ac mewn rhai achosion efallai nad oedd ganddynt y gallu i dderbyn cleientiaid newydd
- Roedd 'cyfeirio' pobl i'r gwasanaethau amgen hyn yn peri problem o ran diogelu oherwydd unwaith y bo awdurdodau lleol wedi 'cyfeirio' pobl i ddarparwyr gwasanaeth eraill nid ydynt yn cynnal unrhyw wiriadau nac yn parhau gydag unrhyw atebolrwydd am yr unigolyn

9.8.6 Yn gynnar yn 2011 cysylltodd Pobl Anabl â DENW a dweud:

- Nad oeddent wedi cael ailasesiad o'u hanghenion ond eu bod wedi cael gwybod bod eu cefnogaeth gofal cymdeithasol yn cael ei dorri gan na allai'r Cyngor fforddio talu am y gwasanaethau yr oeddent wedi bod yn eu derbyn
- Ni chawsant unrhyw waith papur ynglŷn â'u hasesiad
- Ni ddywedwyd wrthynt pa feini prawf Mynediad Teg at Wasanaethau Gofal (FACS) yr oeddent yn eu bodloni
- Yr unig beth oedd yn digwydd oedd y cysylltwyd â hwy dros y ffôn a dywedwyd wrthynt nad oeddent yn bodloni unrhyw rai o'r meini prawf ar gyfer derbyn gwasanaethau gofal

9.8.7 Sylweddololodd DENW fod penderfyniadau'n cael eu gwneud am doriadau neu newidiadau i wasanaethau yn seiliedig ar arian ac nid ar anghenion pobl.

9.8.8 Darganfu DENW fod y Cyngor wedi cytuno ar ei gyllideb newydd un diwrnod ar ddeg cyn yr oedd yr ymgynghoriad ynglŷn â'r gyllideb i fod i ddod i ben a bod penderfyniad wedi cael ei wneud i gyllido gwasanaethau gofal personol yn unig. Golygai hyn y byddai Pobl Anabl a oedd ond yn cael cymorth gyda siopa a glanhau yn colli eu gwasanaeth. Pasiodd y Cyngor ddau bolisi yn dweud y dylai hyn ddigwydd ac y dylid cynyddu tâl am wasanaethau gofal cartref heb unrhyw ymgynghori â Phobl Anabl, eu teuluoedd a'u cefnogwyr, neu eu sefydliadau.

9.8.9 Cafodd DENW adroddiad gan y Cyngor ym mis Mehefin 2011 a oedd yn dangos bod y Cyngor wedi tanwario ar ei gyllideb ar gyfer 2010-11 gan £27.1 miliwn. Dywedodd yr adroddiad nad oedd gan y Cyngor gynlluniau i roi unrhyw ran o'r arian hwn yn ôl i faes gwasanaethau gofal cymdeithasol neu newid y penderfyniadau blaenorol yr oedd wedi'u gwneud am doriadau mewn gwasanaethau.

9.8.10 Roedd DENW eisiau herio'r hyn oedd yn digwydd. Cafodd hyd i bobl yr oedd eu gwasanaethau wedi'u torri, a oedd yn fodlon cael eu henwi mewn her gyfreithiol yn erbyn penderfyniad y Cyngor. Anfonodd DENW 'lythyr cyn gweithredu' at y Cyngor. Mae'n rhaid gwneud hyn cyn y gellir gwneud cais am Adolygiad Barnwrol. Pryd bynnag y byddai DENW yn enwi aelodau oedd wedi colli eu gwasanaethau, byddai'r Cyngor yn cysylltu â'r Person Anabl ac yn rhoi asesiad anghenion llawn iddo ef neu hi. Yn aml byddent yn cael eu gwasanaethau'n ôl.

### 9.8.11 Beth oedd y canlyniad?

9.8.12 Gwrthodwyd y cais am Adolygiad Barnwrol. Dywedodd y Barnwr bod rhywfaint o sail yn y gŵyn nad oedd EIA iawn wedi'i gynnal cyn i'r Cyngor gytuno ar ei gyllideb. Dywedodd fod amseru penderfyniadau'r Cyngor yn "hollol gyfreithiol".

Er y collwyd yr achos, dywed DENW bod cynseiliau pwysig wedi'u gosod. Cafodd y polisi arfaethedig pan dynhawyd meini prawf FACS, o beidio â thalu am wasanaethau siopa neu lanhau, ei dynnu'n ôl unwaith bod yr achos yn erbyn y Cyngor wedi cychwyn.

9.8.13 Golygodd yr her gyfreithiol hefyd bod y Cyngor wedi tynnu'r ddogfen gyllideb wreiddiol yn ei hôl a chyflwyno un wannach gyda nifer o gonsesiynau i DENW.

9.8.14 Mae'r achos hwn yn rhoi crynodeb ddefnyddiol iawn o agwedd y llysoedd at ddyletswyddau cyfreithiol cyrff cyhoeddus (erbyn hyn Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol y Sector Cyhoeddus yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae hefyd yn atgoffa rhywun bod y llysoedd yn amharod i ymyrryd mewn penderfyniadau cymdeithasol neu economaidd anodd a wneir gan swyddogion etholedig, cyn belled bod ystyriaeth iawn o'r ffactorau perthnasol, er gwaethaf achosion diweddar eraill lle mae penderfyniadau o'r fath wedi eu gwrthdroi.

## 9.9 Burnip yn erbyn Cyngor Dinas Birmingham ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau

## Trengrove yn erbyn Cyngor Metropolitan Walsall ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau

## Gorry yn erbyn Cyngor Wiltshire ac Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gwaith a Phensiynau (2011)

### 9.9.1 Beth oedd y broblem?

9.9.2 Y Rheoliadau Lwfans Tai Lleol (LHA) sydd ddim yn caniatáu i rent ychwanegol gael ei dalu i oedolion neu blant anabl sydd angen naill ai ystafell wely ychwanegol ar gyfer eu cynorthwywyd personol neu na allant rannu ystafell wely gydag aelodau eraill o'r teulu.

### 9.9.3 Beth ddigwyddodd?

9.9.4 Dygwyd yr achosion gan dri pherson a chyfunwyd hwy'n un achos gan eu bod i gyd yn ymwneud â'r un mater. Dygwyd dau o'r achosion gan neu ar ran oedolion anabl a oedd angen cymorth bedair awr ar hugain y dydd ac felly ystafell wely ychwanegol lle gallai eu cynorthwyydd personol aros. Bu farw un o'r bobl hyn cyn y cafodd yr achos ei glywed. Y trydydd person oedd gŵr oedd â dau blentyn anabl. Roedd angen eu hystafell wely eu hunain ar y ddau blentyn. Roedd y tri wedi bod yn byw mewn llety rhent preifat ac yn hawlio Lwfans Tai Lleol (LHA) gan eu hawdurdodau lleol, a wrthododd dalu rhent ar gyfer yr ystafelloedd gwely ychwanegol oedd eu hangen arnynt.

Roedd y bobl a ddygodd yr achosion yn dadlau bod rheolau'r LHA yn mynd yn groes i Erthygl 14 Deddf Hawliau Dynol 1998. Pan gafodd yr achosion eu clywed yn y Tribiwnlys Is, fe'u collwyd. Yna yn 2011 aethpwyd â hwy i'r Tribiwnlys Uwch, sy'n ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlys Is. Unwaith eto, collwyd yr achosion.

9.9.5 **Beth oedd y canlyniad?**

9.9.6 Yn 2012 aed â'r achosion i'r Llys Apêl. Cytunodd y Llys bod y rheoliadau budd-daliadau tai ynglŷn â nifer yr ystafelloedd y gallai pobl gael LHA ar eu cyfer yn gwahaniaethu yn erbyn Pobl Anabl, gan nad oeddent yn datgan bod anghenion Person Anabl yn wahanol i rai person sydd ddim yn anabl. Dywedodd y Llys "heb fantais y gyfradd ystafell ychwanegol, y byddai Pobl Anabl mewn gwaeth sefyllfa na pherson abl o gorff yn byw ar ei ben ei hun". Mae'r pwynt hwn yn codi o'u hawliau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Fe wnaeth ennill yr achos gadarnhau eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRDP). Ni ddefnyddiwyd yr UNCRDP yn yr achosion, ond dywedodd cyfreithwyr y byddai wedi gallu cael ei ddefnyddio i ddatrys unrhyw ansicrwydd yn nehongliad y Ddeddf Hawliau Dynol pe byddai angen.

9.9.7 Yn 2011 newidiwyd rheoliadau'r LHA fel y gallai Pobl Anabl oedd angen ystafell wely ychwanegol ar gyfer cymorth personol gael LHA ychwanegol. Roedd yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi bwriadau apelio yn erbyn penderfyniad y Llys Apêl ynglŷn â phlant anabl (achos Gorry). Ym mis Mawrth 2013 tynnodd yr apêl yn ôl. Gwnaeth hefyd gyhoeddi y dylai awdurdodau lleol ganiatáu ystafell wely ychwanegol ar gyfer plant sy'n methu â rhannu oherwydd eu hamhariad. (Inside Housing,13 Mawrth 2013). Nid yw'r gyfraith wedi ei newid ar gyfer Pobl Anabl y gallai fod angen ystafell wely ychwanegol ar eu partneriaid.

9.9.8 Mae'r adran hon yn y pecyn wedi edrych ar, ac esbonio:

- Enghreifftiau bywyd go iawn o astudiaethau achos o'r llysoedd ac ymgyrchu sy'n defnyddio'r gyfraith cydraddoldeb.

9.9.9 Mae'r adran hon wedi rhoi gwybodaeth am rai o'r achosion cyfreithiol sydd wedi defnyddio deddfwriaeth cydraddoldeb i ymladd yn erbyn toriadau i fudd-daliadau a gwasanaethau sydd eu hangen ar Bobl Anabl i fyw eu bywydau pob dydd. Nid oedd rhai o'r enghreifftiau yn

cynnwys Pobl Anabl yn mynd i'r llys. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut y gellir defnyddio'r cyfreithiau i wneud cwynion a chreu ymgyrchoedd i atal newid.

9.9.10 Mae'n bwysig bod Pobl Anabl a'u sefydliadau yn cadw golwg ar heriau eraill i doriadau mewn gwariant, newidiadau mewn gwasanaethau a newidiadau mewn polisïau llywodraeth. Fe welwch wybodaeth mewn papurau newydd, ar y teledu, radio a'r rhyngrwyd. Mae'n ddefnyddiol i edrych yn rheolaidd ar wefannau grwpiau megis Disabled People Against Cuts (http://www.dpac.uk.net/) ac Inclusion London's Deaf a Disabled People's Organisations (DDPO) Legal Network (www.inclusionlondon.org.uk).

Gallwch hefyd gael gwybodaeth ar wefan cwmnïau cyfreithwyr megis Irwin Mitchell Solicitors (www.irwinmitchell.com) Public Law Project (www.publiclawproject.org.uk), Garden Court Chambers (www.gardencourtchambers.co.uk), Doughty Street Chambers (www.doughtystreet.co.uk) a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (www.equalityhumanrights.com).

## 9.10 Defnyddio'r UNCRDP mewn cwynion

9.10.1 Gellir gweld dwy enghraifft arall o sut y gellid defnyddio'r UNCRDP gyda chyfreithiau cydraddoldeb eraill gan Bobl Anabl pan fyddant yn brwydro i ddiwallu eu hanghenion isod. Mae'r enghraifft gyntaf yn un go iawn. Mae'r ail un wedi'i chreu er mwyn dangos sut y gellir defnyddio'r cyfreithiau.

9.10.2 Enghraifft 1

9.10.3 Dywedodd ei hadran therapi galwedigaethol wrth fenyw anabl bod angen gwely arbennig ('profile') arni. Roedd hi'n gaeth i'w gwely a byddai'r gwely y gwnaeth ofyn amdano'n golygu y gallai ei chynorthwywyr personol roi bath iddi yn y gwely. Gofynnodd am wely dwbl fel y gallai barhau i gysgu nesaf at ei gŵr. Dywedodd yr awdurdod na fyddent yn talu am y gwely, er iddi gynnig talu am y gwahaniaeth mewn cost rhwng gwely sengl a dwbl. 18 mis yn ddiweddarach cynghorwyd y fenyw gan Ganolfan y Gyfraith Anabl i ddweud wrth ei hawdurdod lleol, o dan Erthygl 23 UNCRDP (yr hawl i gartref a bywyd teuluol ac i hynny gael ei barchu) y dylai dalu am y gwely.

Tair awr yn ddiweddarach daeth yr awdurdod o hyd i ddigon o arian i brynu'r cyfan o'i gwely 'profile' dwbl.

*(Ffynhonell: Disability Now, Mehefin 2006, tudalen 14).*

9.10.4 Enghraifft 2

9.10.5 Mae P wedi bod yn derbyn gofal yn y cartref gan ei hawdurdod lleol. Mae ganddi anghenion cymorth dybryd. Mae'n gofyn i'w hanghenion gael eu hasesu eto gan ei bod yn teimlo bod angen rhagor o help arni. Mae ei hawdurdod lleol yn cytuno bod ei hanghenion wedi cynyddu. Yr unig ffordd y gall ddiwallu ei hanghenion, meddai'r awdurdod, yw pe bai'n symud i gartref gofal preswyl. Mae'n dweud bod ei gyllideb o dan straen ac y byddai'n rhy ddrud iddo dalu am gymorth yn y cartref. Mae P yn teimlo'n gryf ei bod eisiau aros yn ei chartref ei hun. Mae'n brysur iawn yn ei chymuned leol ac mae ganddi lawer o ffrindiau a diddordebau. Gall P ddefnyddio'r UNCRDP a chyfreithiau eraill i ddadlau y dylai'r awdurdod lleol ei chefnogi i fyw gartref.

9.10.6 Gall P ddadlau'r canlynol:

- Mae Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gosod dyletswydd ar ei hawdurdod lleol i barchu ei hawl i fywyd preifat a bywyd teulu. Mae'r hawl hwn yn cynnwys gallu cael ffrindiau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol a hamdden. Pan fydd pobl yn mynd i ofal preswyl gallant gael eu hynysu oddi wrth ffrindiau a'u gadael allan o weithgareddau y byddent fel arfer yn rhan ohonynt pe byddent yn byw gartref. Mae'r hawl hwn hefyd yn ymwneud â diogelu lles meddyliol a chorfforol person. Mae P yn sicr y byddai'n mynd yn isel ei hysbryd pe bai'n cael ei symud a'i hamddifadu o'i hannibyniaeth.
- Mae Erthygl 19 yr UNCRDP yn dweud yn glir iawn fod gan P yr hawl i ddewis lle mae'n byw a gyda phwy mae'n byw. Mae'n dweud bod ganddi'r hawl i fyw yn y gymuned a'r hawl i beidio â chael ei gorfodi i unrhyw fath penodol o drefniant byw megis cartref gofal preswyl. Bydd hyn yn cryfhau ei hachos.

- O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus mae dyletswydd ar ei hawdurdod lleol hefyd i hyrwyddo cydraddoldeb cyfle ar gyfer Pobl Anabl. Dylid defnyddio'r ddyletswydd honno pan wneir penderfyniadau am unigolion. Byddai symud P i gartref gofal yn atal ei chyfleoedd i gymryd rhan mewn pob math o'r pethau mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Gall atgoffa'r awdurdod am hyn a gofyn a yw wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA). Gall ofyn iddo i rannu casgliadau unrhyw EIA gyda hi. Os nad yw wedi cynnal un, gall ofyn iddo ei chynnwys hi pan fydd yn cynnal yr EIA.

9.10.7 Mae'r adran hon yn y pecyn wedi edrych ar, ac esbonio:

- Astudiaethau achos cyfreithiol sy'n mynd rhagddynt
- Astudiaethau achos cyfreithiol sydd wedi dod i ben
- Astudiaethau achos am sefyllfaoedd sydd heb fynd i'r llys
- Sut i ddefnyddio'r UNCRDP wrth gwyno



# 10 Ffynonellau gwybodaeth bellach

## Gwasanaeth Cymorth Cynghori ar Gydraddoldeb

RHADBOST
Gwasanaeth Cymorth Cynghori ar Gydraddoldeb FPN4431

Ffôn: 0808 800 0082
Ffôn Testun: 0808 800 0084

https://www.equalityadvisoryservice.com/

## Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Bloc 1, Cangen D
Adeiladu'r Llywodraeth
Heol Santes Agnes
Gabalfa
Caerdydd
CF14 4YJ

Ffôn: 02920 447710

E-bost: wales@equalityhumanrights.com

https://www.equalityhumanrights.com/en/commission-wales

## Advicelink Cymru – Cyngor ar Bopeth

Mae gwefan Cyngor ar Bopeth Cymru yn cynnwys canllawiau a chwestiynau cyffredin gan gynnwys rhai sy'n ymdrin â gwahaniaethu ar sail anabledd. Gellir gweld gwybodaeth sy'n benodol i Gymru ar ei wefan:

https://www.citizensadvice.org.uk/about-us/our-work/advice-partnerships/advicelink-cymru/

Ffôn: 08444 77 20 20

Mae ganddo hefyd wasanaeth drwy Relay UK felly os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn, gallwch deipio'r hyn rydych am ei ddweud: 18001 yna 0880 144 8884

## Canolfan y Gyfraith Speakeasy

Mae Speakeasy yn cynnig cyngor cyfreithiol am ddim ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'n mynd i'r afael â materion lles cymdeithasol gan gynnwys budd-daliadau, dyled, tai a chyfraith cyflogaeth.

166 Heol Richmond
Caerdydd
CF24 3BX

Ffôn: 029 2045 3111

E-bost: info@speakeasy.cymru

https://www.speakeasy.cymru/eng

### The FDF – Canolfan ar gyfer Byw'n Annibynnol Independent Living

Mae'r FDF yn cynnig ystod o wasanaethau cefnogi, gan gynnwys eiriolaeth a gwybodaeth, cefnogaeth allgymorth, cyfeirio, a hyfforddiant ac addysg.

The FDF
Neuadd y Dref
Ffordd yr Iarll
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AB

Ffôn: 01352 756 618

E-bost: admin@thefdf.org.uk

https://www.thefdf.org.uk/

### Prosiect Cyngor Anabledd

Prosiect sy'n cwmpasu De Ddwyrain Cymru ac yn darparu gwybodaeth a chyngor ar holl faterion anabledd drwy Gynrychiolaeth Haen Uwch.

www.dapwales.org.uk

Prosiect Cyngor Anabledd
9a Ystad Ddiwydiannol Avondale
Heol Avondale
Cwmbrân
NP44 1UG

Ffôn: 01633 485865

E-bost: info@dapwales.org.uk

### Diverse Cymru

Mae'n darparu cyngor ar fudd-daliadau, hyfforddiant cydraddoldeb, cyngor ar ofal cymdeithasol, cymorth iechyd meddwl BME, cyngor Mynediad Anabledd. Mae ei wasanaethau presennol yn cynnwys taliadau uniongyrchol, cymorth byw wedi'i hunangyfarwyddo a byw'n annibynnol, cyfeillio ac eirioli. Mae'r gwasanaeth cynghori yn cwmpasu De Cymru. Oriau'r swyddfa yw 9am hyd 5pm, Llun i Gwener. Mae'n gweithredu uchafswm llwyth gwaith a allai o bryd i'w gilydd olygu rhestr aros am wasanaethau

Diverse Cymru
Llawr 3
Tŷ Alexandra
307-315 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF5 1JD

Ffôn: 02920 368 888
01267 245 579

E-bost: info@diverse.cymru

www.diversecymru.org.uk

### Rhwydwaith Gyfreithiol Sefydliadau Pobl Anabl /Byddar (DDPOs)

Nod Rhwydwaith Gyfreithiol DDPOs yw dwyn DDPOs a chyfreithwyr ynghyd i gydweithio a chodi ymwybyddiaeth o'r system gyfreithiol, deddfwriaeth, cyfraith achos a pholisi sy'n ymwneud ag ansawdd bywyd, hawliau a chynhwysiant Pobl Fyddar a Phobl Anabl. Bydd y Rhwydwaith y creu fforwm ar gyfer lledaenu gwybodaeth gyfreithiol sydd o bwysigrwydd strategol.

https://www.inclusionlondon.org.uk/training-and-support/information-and-resources/finding-legal-advice/legal-network/#:~:text=The%20DDPO%20Legal%20Network%20brings,affecting%20Deaf%20and%20Disabled%20people.

### Disability Law Service

Wedi'i redeg gan ac ar gyfer Pobl Anabl. Mae'r DLS yn elusen genedlaethol gofrestredig.

Disability Law Service
39-45 Cavell Street London
E1 2BP

Ffôn: 020 7791 9800

Minicom: 020 7791 9801

E-bost: advice@dls.org.uk

www.dls.org.uk

Mae ei wefan yn cynnwys ystod eang o ffeithlenni y gellir eu lawrlwytho sy'n ymdrin â hawliau Pobl Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: https://dls.org.uk/free-advice/online-advice/factsheets/

Ar y wefan hefyd ceir rhestr o wasanaethau eraill sy'n darparu gwybodaeth am ddim a chyngor cyfreithiol: https://dls.org.uk/free-advice/other-sources-of-advice/

### Disability Rights UK

Mae Disability Rights UK yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer hawliau anabledd, gan gynnwys y "Disability Rights Handbook" y gellir ei brynu ar eu gwefan.

14 Easy Bay Lane
Here East
Queen Elizabeth Olympic Park
Stratford
London
E20 3BS

Ffôn: 020 7250 3222

E-bost: enquiries@disabilityrightsuk.org

https://www.disabilityrightsuk.org/how-we-can-help/benefits-information/factsheets

## Legislation.gov.uk

Gellir dod o hyd i holl Gyfreithiau'r DU yn http://www.legislation.gov.uk, ynghyd â nodiadau esboniadol helaeth ynglŷn â phob agwedd ar y Deddfau.

Gellir prynu copïau wedi'u hargraffu o ddeddfwriaethau a chyhoeddiadau eraill o The Stationery Office y mae ei manylion cyswllt i'w gweld isod.

The Stationery Office Limited
PO Box 29
Norwich NR3 1GN

Ffôn: 0333 202 5070

Ffacs: 0333 202 5080

E-bost: book.orders@tso.co.uk

## Sefydliad Hawliau Dynol Prydain

Elusen hawliau dynol annibynnol yw Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (BIHR) sydd wedi ymrwymo i herio anghydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol mewn bywyd pob dydd yn y DU.

http://www.bihr.org.uk/

Mae gan BIHR lawer o adnoddau, gan gynnwys canllaw ynglŷn â sut mae'r ddeddf hawliau dynol yn effeithio ar bobl sydd ag anableddau dysgu, ac un arall yn ymdrin â sut mae'n gysylltiedig â materion iechyd meddwl a galluedd meddyliol:

https://www.bihr.org.uk/resources-for-individuals

## RNIB

Mae gan yr RNIB amrywiaeth o ganllawiau a ffeithlenni am y Ddeddf Cydraddoldeb a sut mae'n effeithio ar Bobl Anabl, gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin a chanllawiau ynglŷn â sut i herio gwahaniaethu gan ddefnyddio'r Ddeddf:

https://www.rnib.org.uk/search/site/equality%20act

Gellir gweld manylion cyswllt a gwybodaeth am RNIB yma: http://www.rnib.org.uk/aboutus/contactdetails/cymru/Pages/cymru.aspx

RNIB Headquarters
105 Judd Street London
WC1H 9NE

Ffôn: 0303 123 9999

E-bost: helpline@rnib.org.uk

## Benefits and Work

Adnodd ar y we a fforwm ar gyfer darparu gwybodaeth ymarferol, manwl a chywir am fudd-daliadau anabledd ac analluogrwydd a ysgrifennwyd yn benodol ar gyfer y rheini sy'n gwneud honiadau a'u cynghorwyr.

http://www.benefitsandwork.co.uk/

## Deddf Hawliau Dynol 1998

Gellir defnyddio'r gyfraith hon i ddwyn achosion yn erbyn awdurdod cyhoeddus os ydych chi'n teimlo yr effeithiwyd ar eich hawliau dynol. Mae'r ddolen hon yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y Ddeddf.

https://www.citizensadvice.org.uk/law-and-courts/civil-rights/human-rights/the-human-rights-act-1998/

## Deddf Galluedd Meddyliol (2005)

Gellir defnyddio'r gyfraith hon ochr yn ochr â deddfwriaeth cydraddoldeb i ddadlau dros hawliau Pobl Anabl. Mae'r ddolen hon yn cynnwys rhagor o wybodaeth a disgrifiad cryno o'r Ddeddf.

http://www.alzheimers.org.uk/site/scripts/documents_info.php?documentID=354

## Deddf Cymorth Gwladol 1948

Gellir defnyddio'r gyfraith hon ochr yn ochr â deddfwriaeth cydraddoldeb i ddadlau dros hawliau Pobl Anabl. Mae'r ddolen hon yn cynnwys rhagor o wybodaeth a disgrifiad cryno o'r Ddeddf.

https://navigator.health.org.uk/theme/national-assistance-act-1948

## Deddf y GIG a Gofal Cymunedol 1990

Gellir defnyddio'r gyfraith hon ochr yn ochr â deddfwriaeth cydraddoldeb i ddadlau dros hawliau Pobl Anabl. Mae'r ddolen hon yn cynnwys rhagor o wybodaeth a disgrifiad cryno o'r Ddeddf.

https://navigator.health.org.uk/theme/national-health-service-and-community-care-act-1990

## Templedi Cerebra ar gyfer ysgrifennu llythyrau

Elusen gofrestredig yw Cerebra sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer plant sydd â chyflyrau'r ymennydd. Ar ei gwefan ceir llawer o dempledi ar gyfer ysgrifennu llythyrau. Mae'r rhain yn ymdrin ag ystod eang o bynciau, megis gwneud cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a herio penderfyniadau a wnaed gan gynghorau.

https://cerebra.org.uk/get-advice-support/legal-and-financial/template-letters-wales/

## Canllaw ‘Peidiwch â Dal yn Ôl’ Comisiynydd Plant Cymru

Darperir y canllaw hwn gan Gomisiynydd Plant Cymru ac mae’n ymdrin â phontio o fywyd fel plentyn i oedolyn gydag anhawster dysgu a’r gwahanol gefnogaeth a gwasanaethau sydd ar gael.

https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Dont-Hold-Back.pdf

## Clinig Caerdydd – Support Through Court

Elusen sy’n cefnogi pobl sy’n wynebu achos llys ar eu pen eu hunain yw Support Through Court fel y gallant gynrychioli eu hunain hyd eithaf eu gallu. Mae’n darparu cefnogaeth ymarferol, gweithdrefnol ac emosiynol mewn nifer o feysydd y llys Sifil a Theulu.

Support Through Court
Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Caerdydd
2 Stryd y Parc
Caerdydd
De Cymru
CF10 1ET

Oriau Agor y Clinig yw dydd Llun hyd ddydd Gwener, 9:30am – 4:30pm

Ffôn: 02920 34 36 85
Gwasanaeth llinell gymorth genedlaethol: 03000 810 006

E-bost: cardiff@supportthroughcourt.org

https://www.supportthroughcourt.org/

# Diolch

Ysgrifennwyd yr adnodd gwybodaeth hwn gan Mike Higgins a Linda Laurie o Linda Laurie Associates ar ran Anabledd Cymru. Cafodd ei ddiweddaru gan Sam Woodward a Dr Alun Hughes o 20 Degrees Consulting ar ran Anabledd Cymru. Diolch i Natasha Hirst Photography am y caniatâd i ddefnyddio ei delweddau ffotograffig yn yr adnodd hwn.

Hoffem ddiolch i'r bobl ganlynol am eu cymorth wth baratoi'r adnodd hwn: Vin West o Grŵp Mynediad Arfon; Jan Underwood o Grŵp Mynediad Arfon; Dr Miro Griffiths ym Mhrifysgol Leeds; Derek Tilley o Cerebra, Kelvin Jones o Anabledd Cymru; Grace Krause a Kai Jones o Anabledd Dysgu Cymru a Tyler Owens o Brifysgol Abertawe.

Rydym yn diolch i'r canlynol am eu cymorth wrth baratoi'r adnodd gwreiddiol:

Julie Thomas o Gynghrair Pobl Anabl Pen-y-bont ar Ogwr; Ian Collins, Rhiannon Griffiths a Nadine Farmer Young Voices for Choices Sir Benfro; Luke Clements o Ysgol y Gyfraith Prifysgol Caerdydd; Eleanor Williams o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Naomi Alleyne o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Tracey Good o Ganolfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Jackie Nicholls o Lywodraeth Cymru, Mathieu Culverhouse o Irwin Mitchell Solicitors; Libby Oakley a Rhwydwaith Gyfreithiol Pobl Anabl a Byddar yn Inclusion London; James Harrison a chydweithwyr yn Ysgol y Gyfraith Prifysgol Warwick a Melanie Close o Disability Equality North West. Hoffem hefyd ddiolch i Lywodraeth Cymru am ariannu diweddariad yr adnodd hwn fel rhan o Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant Anabledd Cymru 2020-21.

# Fformatau

Mae’r canllaw hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mewn fformat Hawdd ei Ddeall.

Os hoffech gael y canllaw hwn mewn fformat arall cysylltwch ag Anabledd Cymru.

Gwybod eich Hawliau
Defnyddio eich Hawliau
Byw eich Hawliau!

Disability Wales
Anabledd Cymru

Linda Laurie Associates
Changing the World

20 DEGREES

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government